



**Adroddiad
Blynyddol
a datganiad
o gyfrifon
2022/23**

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu

Adroddiad blynyddol a datganiad o gyfrifon 2022/23

Adroddiad Blynyddol a gafodd ei gyflwyno i'r Senedd yn unol ag Adran 11(5) o Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Cyfrifon a gyflwynwyd i'r Senedd yn unol â Pharagraff 17 o Atodlen 2 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar **XX Xxx 2023**



© Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu 2023

Mae'r cyhoeddiad hwn wedi cael ei drwyddedu o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored f3.0 ac eithrio lle nodir yn wahanol. I weld y drwydded hon, ewch i wefan nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael ar wefan www.gov.uk/official-documents.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom i

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu
10 South Colonnade
Canary Wharf
Llundain
E14 4PU

Tel: 0300 020 0096

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

ISBN 978-1-5286-4366-5

E02947900 **XX/23**

Wedi cael ei argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys sydd wedi'i ailgylchu

Wedi cael ei argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Adran 1: Adroddiad perfformiad	6
Trosolwg.....	6
Crynodeb o'n perfformiad	11
Proffil risg	20
Dadansoddi perfformiad	37
Adran 2: Adroddiad atebolrwydd	83
Adroddiad llywodraethiant corfforaethol	83
Adroddiad tâl a staff	104
Adroddiad atebolrwydd Seneddol.....	121
Adran 3: Datganiadau ariannol	123

Adran 1: Adroddiad perfformiad

Trosolwg

Amdanom ni – pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud

Ni yw Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Rydym yn goruchwyllo system gwynion yr heddlu ac yn ymchwilio i ymddygiad swyddogion neu aelodau o staff yr heddlu, a'r digwyddiadau a'r cwynion mwyaf difrifol sy'n ymwneud â'r heddlu. Rydym yn defnyddio'r hyn a dysgwn o'n gwaith i ddylanwadu ar newidiadau mewn plismona. Mae ein holl waith yn cael ei wneud yn annibynnol i'r heddlu, y llywodraeth a grwpiau sydd â budd.

Mae heddluoedd yn delio â mwyafrif y cwynion sydd yn erbyn swyddogion heddlu a staff heddlu. Mae'n rhaid i heddluoedd gyfeirio'r achosion mwyaf difrifol atom ni – ni waeth a yw rhywun wedi gwneud cwyn neu beidio.

Mae heddluoedd arbenigol, fel Heddlu'r Weinyddiaeth Amddiffyn, y Gwnstabiliaeth Niwclear Sifil a Heddlu Trafnidiaeth Prydain, hefyd yn dod o dan ein hawdurdodaeth. Yn yr un modd, rydym yn goruchwyllo'r system gwynion ar gyfer rhai sefydliadau ychwanegol, fel Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC), yr Asiantaeth Trosedd Cenedlaethol (NCA), a'r Awdurdod Gangiau a Cham-drin Llafur (GLAA). Rydym yn ymchwilio i rai cwynion difrifol a materion ymddygiad sy'n ymwneud â staff o'r sefydliadau hyn.

Rydym hefyd yn ymchwilio i honiadau troseddol yn erbyn comisiynwyr heddlu a throsedd (PCCs) a'u dirprwyon, a chontractwyr sy'n gweithio i'r heddlu.

Ein gorchwyl, gweledigaeth a gwerthoedd

Ein gorchwyl yw gwella plismona trwy oruchwyliaeth annibynnol o gwynion yr heddlu, dwyn yr heddlu i gyfrif a sicrhau bod dysgu yn creu newid.

Ein gweledigaeth yw bod pawb yn gallu bod â ffydd a hyder yn yr heddlu.

Ein gwerthoedd, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'n staff a rhanddeiliaid allanol, yw:

- ceisio dod o hyd i'r gwirionedd
- bod yn gynhwysol
- grymuso pobl
- bod yn ddygn
- gwneud gwahaniaeth

Ein harweinyddiaeth a'n strwythur

Cawn ein harwain gan Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, Tom Whiting. Mae Tom yn arwain y tîm gweithredol ac mae'n cadeirio Bwrdd yr IOPC, sy'n cynnwys chwe chyfarwyddwr anweithredol.

Mae Tom hefyd yn cael ei gynorthwyo gan dîm gweithredol sy'n cynnwys cyfarwyddwyr rhanbarthol a Chyfarwyddwr i Gymru.

Michael Lockwood oedd y Cyfarwyddwr Cyffredinol nes iddo ymddiswyddo ar 2 Rhagfyr 2022.

Yn ôl y gyfraith, ni all ein Cyfarwyddwr Cyffredinol fod wedi gweithio i'r heddlu. Hefyd nid oes unrhyw un o'n cyfarwyddwyr rhanbarthol na'n Cyfarwyddwr i Gymru wedi gweithio i'r heddlu.

Am ragor o wybodaeth am ein huwch arweinwyr a'n strwythur rhanbarthol [ewch i'n gwefan](#).

Rhagair gan y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro

Mae'n bleser gennyf gyflwyno ein Hadroddiad Blynyddol 2022/23, sy'n ymdrin â 12 mis cyntaf ein strategaeth bum mlynedd newydd: 'Adeiladu Ymddiriedaeth a Hyder mewn Plismona'. Mae'r cynllun uchelgeisiol hwn yn parhau â'n gwaith i sicrhau bod yr heddlu'n atebol am eu gweithredoedd, a bod ein hymchwiliadau'n cynhyrchu dysgu ymarferol i wella plismona i bawb.



Mae atebolrwydd yr heddlu yn llygad y cyhoedd yn fwy nag erioed, ac er pryder rydym wedi gweld hyder y cyhoedd yn gyffredinol mewn plismona yn dioddef yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Roedd datgeliadau proffil uchel am Wayne Couzens a David Carrick yn sicr o gael effaith negyddol.

Ni fu goruchwyliaeth annibynnol o system gwynion yr heddlu erioed mor bwysig, ond yn eironig gall ein gwaith ar yr achosion proffil uchel hyn ychwanegu at bryder y cyhoedd wrth i ni daflu goleuni ar ddrwgweithredu. Er nad ydym yn rheoli holl ffactorau ysgogi hyder yr heddlu, rydym yn benderfynol o arwain y ffordd o ran gwella plismona ac mae gennym ffydd y bydd hyder y cyhoedd yn dilyn.

Rydym yn gwybod bod dewis achosion sy'n mynd i'r afael â materion penodol o bryder cyhoeddus yn debygol o gael effaith ar wella hyder mewn plismona. Mae ein ffocws thematig parhaus ar feysydd fel gwahaniaethu ar sail hil a Thrais yn Erbyn Menywod a Merched wedi'i gynllunio i greu sylfaen dystiolaeth o arfer gorau a dysgu cadarn.

Mae ein gwaith Goruchwyllo yn helpu i sicrhau bod heddluoedd yn ymdrin â chwynion yn gywir y tro cyntaf, sy'n well i achwynwyr ac yn ddefnydd effeithlon o adnoddau cyhoeddus.

Rwy'n falch o'r gwaith rydym yn gwneud, er gwaethaf y galw cynyddol, achosion cynyddol gymhleth ac adnoddau'n crebachu. Rydym wedi gweithio'n galed i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd er mwyn rheoli'r amgylchiadau anodd hyn ac rwyf wedi fy nghalonogi'n fawr bod ein cynllun trawsnewid yn rhagori ar ddisgwyliadau wrth leihau ôl-groniad ein hadolygiadau.

Rydym wedi cyflawni llawer yn 2022/23, gan gyrraedd y rhan fwyaf o'n targedau. Rydym wedi curo ein targed i gwblhau 85% o ymchwiliadau craidd o fewn 12 mis, gan gyflawni 89%. Mae nifer yr atgyfeiriadau a gawsom gan heddluoedd wedi cynyddu unwaith eto i dros 6,200 eleni. Er gwaethaf y cynnydd hwn o 15% ers y llynedd, fe wnaethom benderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer 86% o atgyfeiriadau o fewn tri diwrnod gwaith, gan guro ein targed a pherfformiad y llynedd.


Fodd bynnag, rwy'n cydnabod bod lle i wella - nid ydym wedi cyrraedd pob targed, felly mae gennym waith i'w wneud o hyd.

Yn 2022/23 fe wnaethom dros 150 o argymhellion dysgu i heddluoedd a chyrrff plismona eraill, gan ddod â'n cyfanswm i dros 700 ers i ni gael ein sefydlu yn 2018. Rwy'n ddiolchgar i'r heddluoedd a'r swyddogion sy'n cofleidio ein hargymhellion yn yr ysbryd a roddwn iddynt.

Gwyliwch am ein hadroddiad Effaith 2022/23, y byddwn yn ei gyhoeddi yr hydref hwn, gan rannu astudiaethau achos go iawn am effaith ein gwaith ar unigolion yn ystod y flwyddyn.

I gloi, hoffwn ddiolch i staff a thimau rheoli'r IOPC am eu hymdrech a'u hymrwymiad eleni. Rwyf hefyd yn ddiolchgar iawn i'n Cyfarwyddwyr Anweithredol am y profiad, y cyngor a'r her ddefnyddiol y maent yn eu cyflwyno i'r IOPC.

Mae rhagor o waith i'w wneud bob amser, a gwelliannau i'w gwneud, i blismona ac i ni ein hunain fel sefydliad. Edrychaf ymlaen at gydweithio â'n rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar y dasg hon, â'r nod yn y pen draw o feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona.



Tom Whiting
Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro

Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona

Ein strategaeth 2022-2027

Yn 2022 lansiodd ein hail gynllun strategol, o'r enw 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'. Mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r strategaeth ar gyfer ei chyflawni. Mae'n egluro beth fydd ein blaenoriaethau a'r hyn y gobeithiwn ei gyflawni ym mhob un o'r meysydd hynny. Mae'n nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd i ddod a sut y byddwn yn mesur llwyddiant.

Mae'n gynllun uchelgeisiol gyda'n nod dros y blynyddoedd i ddod i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona trwy arolygiaeth gadarn, annibynnol. Byddwn yn gwneud hynny drwy weithio tuag at bedwar amcan strategol:

- Ymwybyddiaeth a hyder: bod pobl yn gwybod am y system gwynion ac yn hyderus i'w defnyddio.
- Atebolrwydd: bod y system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dwyn heddlu i gyfrif.
- Arwain gwelliant: bod ein dystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.
- Perfformiad: rydym yn sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel.

Gallwch [lawrlwytho copi o Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona](#) o'n gwefan.

Risgiau allweddol

Rydym yn ceisio nodi risgiau strategol sylweddol a allai ein hatal rhag cyflawni ein pedwar amcan, yn asesu'r rhain ac yn eu rheoli trwy weithgareddau lliniaru a lleihau risg. Rydym yn cyflwyno diweddariadau rheolaidd ar y risgiau strategol i'n Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (PAR) a'n Bwrdd Unedol.

Rydym yn rheoli risgiau lefel is o fewn cyfarwyddiaethau, rhaglenni a phrosiectau fel mae'n briodol. Mae proses uwchgyfeirio a dad-ddwysáu ar waith er mwyn sicrhau bod risgiau'n cael eu rheoli ar y lefel gywir.

Mae adran dadansoddi perfformiad yr adroddiad (gweler tudalen 20) yn egluro'r risgiau mawr a wynebwyd gennym yn 2022/23 a'r mesurau lliniaru a roddwyd ar waith gennym.

Crynodeb o'n perfformiad yn ystod 2022/23

Amcan: Mae pobl yn gwybod am y system gwynion ac yn hyderus i'w defnyddio.

Yr hyn roeddem yn anelu i wneud	2021/22 gwirione ddol	2022/23 targed	2022/23 gwirione ddol
Cynyddu ymwybyddiaeth o'r IOPC 10% pwynt	55%	65%	62%

Amcan: mae'r system gwynion yn darparu canlyniadau teg sy'n seiliedig ar dystiolaeth sy'n dwyn yr heddlu i gyfrif.

Yr hyn roeddem yn anelu i wneud	2021/22 gwirione ddol	2022/23 targed	2022/23 gwirioneddol
Penderfynu ar y dull ymchwilio ar gyfer 80% o achosion a gyfeiriwyd atom o fewn tri diwrnod gwaith ¹	82%	80%	86%
Cwblhau 85% o ymchwiliadau o fewn 12 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr) ²	90%	85%	89%
Cwblhau 33% o ymchwiliadau o fewn 6 mis (ac eithrio ymchwiliadau mawr)	35%	33%	38%
Adolygu achosion marwolaeth neu anafiadau difrifol a ymchwiliwyd yn lleol o fewn 30 diwrnod gwaith ar gyfartaledd o'r dyddiad y mae'r IOPC yn derbyn yr holl bapurau cefndir	29WD	30WD	36WD

Yr hyn roeddem yn anelu i wneud	2021/22 gwirioneddol	2022/23 targed	2022/23 gwirioneddol	
Sicrhau mai'r amser cyfartalog a gymerir i gwblhau adolygiad yw 134/154/164/150 o ddiwrnodau gwaith (ar gyfer chwarteri 1-4 yn ôl eu trefn) o dderbyn papurau cefndir, tra byddwn yn cwblhau ein gwaith gwella ³	80WD	Q1 134WD	Q1 95WD	Yn gyffredi nol 119WD
		Q2 154WD	Q2 103WD	
		Q3 164WD	Q3 123WD	
		Q4 150WD	Q4 139WD	

¹ Mae targed 2022/23 yn is na pherfformiad gwirioneddol y flwyddyn flaenorol. Mae penderfyniadau dull ymchwilio yn cael eu gwneud ar atgyfeiriadau, ac ni allwn reoli nifer yr atgyfeiriadau a gawn gan heddluoedd, felly nid oes gennym y gallu i reoli maint y gwaith yn y maes hwn. Roedd y targed yn adlewyrchu cynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau, gan wneud 80% yn darged ymestynnol. Yn 2021/22 cawsom 5,423 o atgyfeiriadau. Yn 2022/23 cynyddodd y ffigur i 6,235.

² Mae'r ymchwiliadau mwyaf yn achosion cymhleth a helaeth, megis ymchwilio i weithredoedd yr heddlu yn syth ar ôl trychineb Hillsborough ac ymateb yr heddlu i honiadau nad ydynt yn ddiweddar o gam-drin plant yn rhywiol yn Rotherham. Yn 2022/23 cwblhawyd 313 o ymchwiliadau, a dosbarthwyd 6 ohonynt yn ymchwiliadau mawr.

³ Yn dilyn newidiadau deddfwriaethol 2020, mae cymhlethdod adolygiadau a'r gwaith ychwanegol sylweddol y maent yn ei olygu, yn ychwanegu at yr amser a gymerir i gwblhau adolygiad. Er i ni gyflawni 80 diwrnod yn 21/22, roedd hyn yng nghyd-destun ôl-groniad o waith oedd yn dechrau adeiladu, gan gynyddu oedran cyfartalog ein llwyth achosion. Mae'r targedau fesul cam yn 2022/23 yn adlewyrchu ein bod yn dechrau'r flwyddyn â llwyth achosion llawer hŷn nag yn 21/22. Mae'r targedau hyn yn darparu disgwyliad mwy tryloyw ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth nag y byddai targed blynyddol unigol, wrth i ni leihau'r ôl-groniad. Er ein bod wedi targedu gwelliant mewn perfformiad amseroldeb erbyn pedwerydd chwarter 2022/23, roedd yr amser cyfartalog a gymerwyd i gwblhau adolygiad yn parhau i godi ym mhob un o'r pedwar chwarter (er bod pob chwarter ar y blaen i'r targed). Roedd hyn oherwydd y nifer cynyddol o reolwyr gwaith achos a chynhyrchiant gwell a oedd yn ein galluogi i gau nifer fwy o achosion, gan ganolbwyntio ar yr achosion hynaf yn gyntaf. Er bod y gwelliannau hyn wedi cyflawni eu hamcan o leihau'r ôl-groniad, a fydd yn y pen

draw yn gwella amseroldeb, cafodd y canlyniad anfwriadol o gynyddu'r mesur amseroldeb cyfartalog yn y tymor byr.

Amcan: mae ein tystiolaeth a'n dylanwad yn gwella plismona.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2021/22 gwirioneddol	2022/23 targed	2022/23 gwirioneddol
Sicrhau bod 80% o'n hargymhellion dysgu paragraff 28A yn cael eu derbyn gan heddluoedd.	93%	80%	92%
Cynnydd o 3% yn nifer cymedrig (neu gyfartalog) y rhanddeiliaid plismona ac atebolwydd sy'n meddwl ein bod yn effeithiol o ran rhannu'r hyn a ddysgwyd er mwyn gwella arferion plismona.	64%	67%	66%
Cynyddu canran y rhanddeiliaid nad ydynt yn blismona sy'n meddwl ein bod yn rhannu'r hyn a ddysgwyd yn effeithiol er mwyn gwella arferion plismona. ⁴	42%	46%	37%

⁴ Ffynhonnell: Arolwg Blynyddol Rhanddeiliaid yr IOPC. Rydym yn casglu o'r arolwg bod rhanddeiliaid am ein gweld yn cymryd mwy o rôl arwain ar adeg o ddrwgdybiaeth gynyddol mewn plismona. O ystyried cyd-destun plismona, credwn fod awydd i weld mwy o effaith o'n gwaith ac i ni arwain hyn yn fwy o fewn y sector – felly efallai nad yw'r grŵp hwn o rhanddeiliaid yn teimlo eu bod yn gweld cymaint o dystiolaeth o newid gwirioneddol yn dod oddi wrthym fel sydd ei angen arnynt er mwyn bod yn sicr o'n heffeithiolrwydd ar hyn o bryd. Mewn cyferbyniad, cynyddodd canfyddiadau rhanddeiliaid plismona o'n heffeithiolrwydd - rydym yn casglu bod hyn oherwydd bod rhanddeiliaid plismona wedi gweld mwy o dystiolaeth o'n heffaith a'n dysgu, gan eu bod yn aml yn dderbynwyr uniongyrchol o'n dysgu ac felly'n agosach at y gwaith hwn.

Amcan: bod yn sefydliad sy'n cyflawni perfformiad uchel.

Yr hyn roeddem yn anelu at ei wneud	2021/22 gwirioneddol	2022/23 targed	2022/23 gwirioneddol
Cyflawni sgôr ymgysylltu â staff o 69% (fel y mesurwyd gan ein harolwg staff blynyddol)	67%	69%	Gweler y nodyn isod
Sicrhau bod 80% o'n hymchwilyr, sydd wedi bod yn eu swyddi am o leiaf 24 mis, yn cyflawni achrediad.	90%	80%	92.5%
Gwella cyfran ein pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig tuag at gynrychiolaeth sy'n cyfateb i ddemograffeg ardaloedd trefol (fel y mesurwyd gan ddata cyfrifiad 2021). ⁵	17.1%	18%	16.7%

Cynhaliwyd ein harolwg staff 2022 ym mis Mawrth 2022 ac adroddwyd arno y llynedd. Daethom i'r casgliad, er mwyn galluogi cyfarwyddiaethau i gwblhau gwaith ar y cynlluniau gweithredu yn seiliedig ar y canlyniadau hynny, y dylid cynnal gwaith maes ar gyfer yr arolwg nesaf ym mis Hydref 2023. Felly ni allwn adrodd yn erbyn y targed hwn.

⁵ Gweler tudalen 75.

Adolygiad ariannol

Bob blwyddyn mae ein cylch cyllidebu a chynllunio blynyddol yn ein helpu i ddatblygu cynlluniau busnes fforddiadwy sy'n darparu'r adnoddau angenrheidiol ar gyfer ein blaenoriaethau strategol. Dechreuwn gynllunio ar gyfer y flwyddyn ganlynol yn gynnar yn yr haf, gan adolygu ac adnewyddu ein cynlluniau effeithlonrwydd a buddsoddi. Drwy'r broses hon rydym yn nodi meysydd o'r busnes sydd ag angen buddsoddiad ychwanegol ac yn datblygu cynlluniau i greu capasiti i fuddsoddi lle bod angen.

Ein prif ffynhonnell cyllid yw cymorth grant, sy'n dibynnu ar benderfyniadau blaenoriaethu'r Swyddfa Gartref mewn tirwedd ariannol anodd ar draws y sector cyhoeddus. Fodd bynnag, dim ond digon o arian parod rydym yn ei dynnu i lawr i dalu am ein gwariant refeniw a chyfalaf. Mae'r tabl isod yn dangos ein cymorth grant arian yn y pum mlynedd ers i'r IOPC gael ei greu gan *Ddeddf Plismona a Throsedd 2017*.

Grantiau fesul blwyddyn	2022/23 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2019/20 £'000	2018/19 £'000
Refeniw	69,645	69,645	69,645	71,114	71,343
Cyfalaf	2,000	3,000	3,000	2,046	3,289
An-ariannol	6,798	4,679	7,190	6,020	6,020

Effeithlonrwydd

Mae ein cyllid refeniw wedi gostwng mewn termau real. Yn 2022/23 fe wnaethom nodi cyfleoedd ar gyfer arbedion effeithlonrwydd ac arbedion sydd wedi sicrhau £0.7m o arbedion yn y flwyddyn adrodd.

Mae cyfran sylweddol o'r arbedion effeithlonrwydd wedi'u gwireddu trwy ein rhaglen ddadgyfuno TGCh sydd nawr wedi'i chwblhau. Galluogodd hyn ni i symud ein gwasanaethau TGCh oddi wrth un cyflenwr tuag at drefniant mwy hyblyg sy'n cyfuno nifer o gyflenwyr llai, mwy o allu mewnol a chyflawni gwell gwerth am arian. Cyflawnwyd rhagor o newidiadau eleni na chafodd eu gwireddu y llynedd.

Alldro

Rydym yn dyrannu cyllidebau i'r uwch weithredwr sydd yn y sefyllfa orau i wneud penderfyniadau gwariant a sicrhau gwerth am arian. Drwy gydol y

flwyddyn rydym yn rhag-weld ein halldro ariannol er mwyn galluogi adrodd amserol a gwneud penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau. Mae'r tabl isod yn dangos y duedd mewn alldro a thuedd mewn nifer cyfartalog llawn amser FTE.

Alldro fesul blwyddyn	2022/23 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2019/20 £'000	2018/19 £'000
Refeniw o gontractau	64	105	91	78	127
Costau staff	(54,367)	(51,917)	(53,950)	(50,938)	(48,165)
Costau Technoleg Gwybodaeth	(5,131)	(5,318)	(7,160)	(8,484)	(9,571)
Costau Ystadau	(3,369)	(4,971)	(5,442)	(4,300)	(5,633)
Costau ceithio	(860)	(545)	(408)	(1,564)	(1,664)
Costau hyfforddiant a recriwtio	(772)	(763)	(569)	(964)	(1,246)
Gwasanaethau cyfreithiol	(1,210)	(1,531)	(1,408)	(995)	(901)
Costau eraill	(2,101)	(2,117)	(2,058)	(1,929)	(1,732)
Costau heb fod yn arian parod	(4,766)	(3,372)	(2,911)	(4,800)	(3,715)
Gwariant net am y flwyddyn	(72,512)	(70,429)	(73,815)	(73,896)	(72,500)
Nifer cyfartalog y staff FTE	1,001	965	987	993	994

Mae'r tabl alldro yn dangos bod gwariant ar staff wedi cynyddu o gymharu â 2021/22. Gellir priodoli hyn i gynnydd mewn gwyliau a gronnwyd a niferoedd uwch o staff.

O ran y rhai nad ydynt yn staff, mae ein gwariant TGCh wedi gostwng o ganlyniad i arbedion parhaus a gyflawnwyd gan ein rhaglen dadgyfuno TGCh. Mae gwariant teithio wedi cynyddu o gymharu â 2022/21 oherwydd diwedd cyfyngiadau pandemig.

Mae costau cyfreithiol wedi gostwng oherwydd llai o angen i geisio cyngor arbenigol ar rai achosion.

Mae gwariant heb fod yn arian parod wedi cynyddu ers y llynedd yn dilyn diwygiadau i fywydau economaidd yr ystadau ac asedau TGCh.

Gwariant cyfalaf

TGCh

Mae buddsoddi mewn technoleg yn elfen allweddol o ddylunio ein busnes ar gyfer y dyfodol. Ffocws ein cynllun ar gyfer y flwyddyn oedd tri phrosiect blaenoriaeth uchel i:

- Ddatblygu system rheoli achosion newydd a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd
- Wella ein system warws data
- Amnewid offer sydd wedi dyddio

Ystadau

Eleni fe wnaethom adnewyddu rhan o'n swyddfa yn Canary Wharf i leihau ein gofod llawr a lleihau costau rhedeg yr adeiladau.

Mae'r tabl isod yn dangos ein tuedd gwariant cyfalaf. Mae'r gwariant ar asedau sy'n cael eu hadeiladu wedi'i ddadgyfuno.

Gwariant cyfalaf fesul blwyddyn ariannol	2022/23 £'000	2021/22 £'000	2020/21 £'000	2019/20 £'000	2018/19 £'000
Ystadau	151	555	458	653	307
Fflyd	-	-	611	-	-
TGCh	1,782	2,700	1,936	1,370	2,764
Cyfanswm gwariant cyfalaf	1,933	3,255	3,005	2,023	3,071

Datganiad o sefyllfa ariannol

Mae asedau cyfredol wedi cynyddu oherwydd ein bod wedi cydnabod asedau hawl i ddefnyddio ar gyfer ein hystadau ar brydles fel sy'n ofynnol gan IFRS 16. Mae rhwymedigaethau prydles wedi cynyddu am yr un rheswm.

Mae swm yr arian parod a ddelir yng Ngwasanaeth Bancio'r Llywodraeth ar 31 Mawrth wedi gostwng o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O ganlyniad, mae'r

balans o fewn ein hamrediad targed ar gyfer arian parod o £5m i £7m. Yr arian parod a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn yw £6.603m (2021/22 £8.420m).

Mae rhwymedigaethau pensiwn wedi gostwng o £2.587m i £1.730m - mae hyn o ganlyniad i newidiadau i'r cyfraddau disgownt a bennwyd gan Drysorlys EM.

Prynu i dalu

Rhoddir dirprwyaeth caffael gan y Swyddfa Gartref ar y sail ein bod yn dilyn arfer gorau, yn cyflawni gwerth gorau, ac rydym yn cydymffurfio â pholisiau caffael y Swyddfa Gartref a gofynion cyfreithiol a rheoleiddiol. Ar gyfer y rhan fwyaf o gategoriâu o ddyfarniadau contract rydym yn defnyddio fframweithiau Gwasanaeth Masnachol y Goron (GMG) ac ar gyfer gwasanaethau cyfreithiol rydym yn defnyddio fframweithiau Siambr.

Mae'r tabl isod yn darparu dadansoddiad o'r llwybrau caffael fesul canran ar gyfer 2022/23. Mae llwybrau caffael eraill yn cynnwys defnyddio fframweithiau sector cyhoeddus sydd ar gael (25%) a chaffael lleol yr IOPC (14%).

Llwybr caffael	2022/23	2021/22	2020/21	2019/20	2018/19
Siambrau	0%	5%	5%	7%	3%
GMG & GCloud	61%	61%	61%	62%	53%
Llwybrau eraill	39%	34%	34%	31%	44%

Rydym yn cadw at y Safon Brydeinig ar gyfer Cyflawni Perfformiadau Talu Da mewn Trafodion Masnachol (BS 7890). Rydym yn anelu i dalu pob anfoneb ddilys yn unol â thelerau contract neu 30 diwrnod ar ôl derbyn anfoneb ddilys lle na chytunir ar delerau. Mae'r tabl isod yn dangos y tueddiadau mewn taliadau cyflenwyr.

Talu cyflenwyr	2022/23	2021/22	2020/21	2019/20	2018/19
Talu o fewn 10 niwrnod	82%	87%	88%	90%	92%
Talu o fewn 30 diwrnod	97%	98%	99%	99%	99%

Rhagolygon ar gyfer 2023/24

Fel y nodir mewn man arall yn yr adroddiad hwn, ein ffocws ar gyfer 2023/24 yw dechrau strategaeth pum mlynedd newydd. Rydym wedi datblygu cynllun ariannol tymor canolig i sicrhau bod y strategaeth yn fforddiadwy ar ôl ystyried yr arbedion effeithlonrwydd a'r arbedion angenrheidiol i fuddsoddi yn yr amcanion strategol.

Creu arbedion effeithlonrwydd

Byddwn yn parhau i ddod o hyd i arbedion effeithlonrwydd drwy gydol y strategaeth newydd ac yn bwriadu cyflawni arbedion effeithlonrwydd o £1.6m yn y flwyddyn i ddod.

Buddsoddi

Rydym yn bwriadu buddsoddi mewn darpariaeth weithredol lle byddwn yn cynyddu'r adnoddau staff sydd ar gael i ymdrin ag atgyfeiriadau a gwella amseroldeb y gwaith hwnnw. Rydym hefyd yn bwriadu buddsoddi adnoddau mewn gwaith thematig ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched.

Proffil risg

Mae'r IOPC wedi bod yn agored i risg sylweddol yn ystod y flwyddyn ariannol. Dechreuodd y gofrestr risg strategol y flwyddyn, sy'n dogfennu'r risgiau lefel uchaf ar draws y sefydliad, gan adlewyrchu 12 risg (A-L).

Gyda chytundeb cynllun strategol newydd, cynhaliodd y tîm rheoli gweithredol, gyda mewnbwn gan eu uwch dimau rheoli unigol, adolygiad sylfaenol o'r risgiau strategol a allai effeithio ar gyflawni'r cynllun hwnnw yn ystod ei flwyddyn gyntaf.

Arweiniodd hyn at ddileu pob un ond un (H) o'r 12 risg strategol wreiddiol a 12 (M-X) risg newydd arall yn cael eu nodi.

Wrth i'r flwyddyn barhau ychwanegwyd tair risg arall (Y,Z, ac A1), fodd bynnag dilëwyd A1 cyn diwedd y flwyddyn. O ganlyniad, daeth yr IOPC â'r flwyddyn i ben â 15 o risgiau strategol a nodwyd un ohonynt cyn dechrau'r flwyddyn.

Mae'r tabl ar dudalen 23 yn manylu ar y risgiau hynny, eu prif fesurau lliniaru, yr awydd cysylltiedig am risg a'r cyfeiriad rydym yn gweithio ato.

Yn ystod y flwyddyn cytunodd ein Bwrdd Unedol y byddai archwaeth risg y strategaeth newydd ar gyfer y pedwar maes trosfwaol o Strategaeth, Newid, Enw Da ac Amgylchedd Allanol yn aros yr un fath, ond gyda diwygiad bach i'r diffiniad o archwaeth y strategaeth. Yn ogystal, ymgynghorwyd â Chyfarwyddwyr a/neu Benaethiaid swyddogaethol ar yr archwaeth risg ar gyfer pob un o'r meysydd swyddogaethol yn y datganiad. Ni wnaed unrhyw newidiadau i'r archwaeth bresennol, ond cynigiwyd a chytunwyd ar gategori ychwanegol mewn perthynas â Data a Gwybodaeth.

Dull yr IOPC o liniaru risg yn ystod y flwyddyn oedd rhoi camau gweithredu ar waith i leihau'r sgorau tebygolrwydd ac effaith i ddod â nhw i lawr i'r lefel archwaeth y cytunwyd arni (neu wyriad a dderbynnir). Os barnwyd bod y camau hynny'n annigonol a bod y sgôr risg yn dal y tu hwnt i'r archwaeth, nodwyd camau gweithredu ychwanegol a'u cyflwyno lle'n briodol. Mae'r matrices o dan y tabl risgiau ar dudalen 35 yn nodi'r sefyllfa risg ar ddiwedd y flwyddyn ar ôl cymhwyso mesurau lliniaru.

Ar ddechrau'r flwyddyn y prif bryder oedd y ffaith nad oedd y broses uwch-gwynion (**E**) yn bodloni disgwyliadau cyrff dynodedig a rhanddeiliaid eraill ac felly'n achosi effaith negyddol ar hyder y cyhoedd yn y system uwch-gwynion a'r IOPC. Fe wnaethom geisio lliniaru'r bygythiad hwn trwy gynnal galwadau 'Grŵp Aur Cŵynion-difrifol' rheolaidd rhwng arweinwyr lefel Cyfarwyddwyr yn HMICFRS a'r Coleg Plismona a ni.

Yn ystod yr un cyfnod, gwnaethom gydnabod (**J**) y gallem fod yn destun camau gorfodi, camau rheoleiddio, ac ymglyfreitha sifil am beidio â chydymffurfio â GDPR oherwydd bod ein gallu i reoli cofnodion ar y pryd ar lefel aeddfedrwydd

isel. Cyflwynodd y prosiect rheoli cofnodion fframwaith archwilio newydd i fonitro cydymffurfriad staff a darparodd ein Bwrdd Sicrwydd Gwybodaeth drosolwg o'n prosesau rheoli gwybodaeth a rheoli cofnodion.

Credwyd hefyd bod risg y gallai (**K**) morâl staff gwael, ynghyd â rhewi cyflogau, gyfrannu at gyfraddau cadw staff is, yn enwedig mewn rhai meysydd a rolau (daearyddol). Fe wnaethom geisio lliniaru hyn trwy ein Rhwydwaith Arweinyddiaeth Corfforaethol, ein Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth a chefnogaeth Arweinydd Tîm Gweithredol yn ogystal â thrwy wneud rhai newidiadau i'n strwythur graddio ac ymateb i faterion a godwyd yn yr arolwg staff.

Fel rhan o'r broses ddatblygu ar gyfer ein strategaeth newydd, yn yr ail chwarter cafwyd trafodaethau ag uwch dimau rheoli i nodi'r risgiau posibl i gyflawni pob un o'r pedwar amcan yn y strategaeth. Adolygwyd y risgiau newydd hyn gan y Bwrdd Unedol mewn diwrnod cwrdd i ffwrdd strategaeth ym mis Mehefin ac fe'i defnyddiwyd i ddatblygu cofrestr risg strategol newydd (SRR). Cytunodd y Bwrdd Rheoli ar restr derfynol o risgiau i'w cynnwys ar yr SRR ym mis Awst 2022.

Cyflwynwyd y gofrestr newydd hon i'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg (ARAC) am y tro cyntaf ym mis Hydref 2022. O'r amser hwnnw ac am weddill y flwyddyn y bygythiadau mwyaf i gyflawni strategaeth yr IOPC oedd:

N. Defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn dod yn fwyfwy rhwystredig oherwydd oedi / ôl-groniad gwaith achos a allai achosi niwed i enw da ac effeithio ar forâl ein staff Gwaith Achos. Rydym yn lliniaru hyn trwy gyflawni ein Cynllun Trawsnewid Gweithrediadau Cenedlaethol sy'n monitro ein perfformiad o ran amseroldeb a modelu rhagolygon. Rydym wedi rhoi adnoddau ychwanegol i mewn ac yn ailgynllunio'r broses i ysgogi dulliau mwy effeithlon a chymesur, fel y gallwn ateb y galw a gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau. Rydym hefyd yn rhoi rhagolygon realistig i ddefnyddwyr gwasanaeth o'r amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau eu hadolygiadau a'u diweddarau drwy gydol y broses. Mae rheolwyr gwaith achos ychwanegol ac uwch reolwr gwaith achos nawr wedi'u recriwtio hefyd.

O. Gall newidiadau mewn deddfwriaeth a chyfeiriad gwleidyddol ehangu cylch gwaith yr IOPC yn sylweddol, gallai hyn ein dargyfeirio rhag cyflawni rhagoriaeth yn ein meysydd busnes craidd. Rydym yn rheoli'r risg hon drwy ddatblygu pennu tasgau cenedlaethol i reoli'r galw cynyddol ar unwaith ar bwynt atgyfeirio a dulliau ymchwilio, ynghyd â defnyddio perthnasoedd â rhanddeiliaid a chwilio am gyfleoedd i gyd-ddarparu adnoddau. Comisiynwyd gwaith capasiti a galw hefyd i gytuno ar fodel adnoddau ar gyfer y sefydliad.

Rydym hefyd yn gweithio gyda Gweinidogion ac eraill i egluro pwysigrwydd ein meysydd gwaith craidd, ac i lliniaru effaith andwyol newidiadau posibl i bolisi neu ddeddfwriaeth.

U. Gallai cyfyngiadau cyllidebol yn ystod oes ein strategaeth newydd fod yn uwch na'r hyn a gynlluniwyd ar ei gyfer ar hyn o bryd, a allai olygu o bosibl na allwn gyflawni'r strategaeth mewn pryd, ac i safonau ansawdd priodol. Rydym wedi bod yn trin y bygythiad hwn trwy gynnal deialog barhaus â'r Swyddfa Gartref mewn perthynas â strategaeth a pherfformiad cyfredol ac wedi gwneud cyflwyniadau i'r Swyddfa Gartref i gefnogi'r broses CSR a Chyfarfodydd yr Uwch Noddwyr. Rydym hefyd wedi datblygu cynllun ariannol tymor canolig y cytunwyd arno gan y Bwrdd Unedol.

V. Nid oes gennym y data sydd ei angen arnom i wneud penderfyniadau gwybodus nac i ddangos ein heffaith ar system gwynion yr heddlu. Rydym wedi dechrau trin y risg hon drwy sicrhau bod ein cynllun ar gyfer llwyfan data newydd yn cynnwys amlyncu data sy'n dderbyniol o gyflym.

Nodwyd tair risg strategol newydd ar ddechrau chwarter pedwar,

Y. Mae diffyg hyder mewn plismona yn cael effaith ganlyniadol ar yr IOPC a goblygiadau ar gyfer newidiadau i'r system gwynion ehangach.

Z. Effaith gronrus ar gapasiti Adolygiad Swyddfa'r Cabinet, goblygiadau posibl o ran llywodraethu a strwythurol, arweinyddiaeth interim, a chyllideb dynn.

A1. Mae staff yr IOPC yn cymryd camau diwydiannol, mae gweithredu diwydiannol yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau (neu mae gweithredu diwydiannol sector cyhoeddus ehangach a allai effeithio'n anuniongyrchol ar ein darpariaeth). Daeth y risg hon yn broblem yn fuan a chafodd ei thynnu oddi ar y gofrestr risg. Sicraodd cynllunio lliniaru llwyddiannus fod y gweithredu diwydiannol yn cael ei reoli heb effeithio'n ormodol ar ein darpariaeth o wasanaethau.



Yn adolygiad diwethaf y flwyddyn ailaseswyd sgorau net y risgiau newydd Y "Ileihad hyder" ac Z "Adolygiad Swyddfa'r Cabinet" gyda chynnydd yn y sgorau tebygolrwydd ac effaith ar gyfer y risgiau hyn.



Mae'r tablau canlynol yn amlinellu ein risgiau strategol ar gyfer y flwyddyn gyfan ynghyd ag allwedd sy'n esbonio ein diffiniadau o archwaeth risg.



Allwedd ar gyfer diffiniadau archwaeth risg



Archwaeth	Diffiniad
Ceisio	Cymryd risgiau y gellir eu cyfiawnhau.
Ar agor	Cymryd risgiau y gellir eu cyfiawnhau'n gryf.
Cymedrol	Ffafiaeth ar gyfer danfoniad diogel.
Gwylidwrus	Eithriadol o geidwadol




Gwrthwynebus	Mae osgoi risg yn amcan craidd
--------------	--------------------------------



Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>A Ceisiadau iawndal sifil:- dyfarniad(au) llys yn erbyn yr IOPC, gan gynnwys: erthyglau 6 ac 8 ECHR wedi'u hymgysylltu a'u torri gan ymchwiliad neu asesiad apêl gan yr IOPC ; a/neu gamymddwyn mewn swydd gyhoeddus a ganfuwyd yn erbyn IPCC/staff yr IOPC/cyn staff/comisiynydd</p>	<p>Gwell amseroldeb ymchwiliadau ac asesiadau apêl yr IOPC – lleihau'r posibilrwydd o dorri erthyglau 6/8 trwy waith gweithredol yr IOPC.</p> <p>Defnyddio cwmnïau ymgyfreitha sifil arbenigol, ar fframwaith y llywodraeth, i gynnal yr hawliad ac ar gyfer Eiriolaeth Uchel Lys.</p> <p>Hyfforddiant gwneud penderfyniadau wedi'i ddarparu ar gyfer y Cyfarwyddwr Cyffredinol a'r Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol ynghylch deall gwneud penderfyniadau gweithredol ac felly deall y risgiau cyfreithiol sy'n gysylltiedig â hyn.</p>	Cymedrol	
<p>B Gall achos(ion) proffil uchel ddenu sylw negyddol sylweddol yn y cyfryngau cenedlaethol.</p>	<p>Panel Achos Critigol.</p> <p>Ymgysylltu â gweinidogion a swyddogion y llywodraeth.</p>	Ar agor	



Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	Mae gan bob swyddfa restr o achosion critigol sy'n cael ei hadolygu a'i diweddarau bob mis.		
C Mae risg y gallai rhannau o'r system cyfiawnder troseddol ehangach nad ydynt yn cael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr IOPC a lle mai dim ond dylanwad uniongyrchol cyfyngedig sydd gan yr IOPC, danberfformio e.e. oedi i achosion llys oherwydd y pandemig byd-eang, gan achosi oedi i weithgareddau'r IOPC.	<p>Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol (Gwasanaeth Eryl y Goron a Chrwneriaid) i wella perfformiad lle bo modd.</p> <p>Gwell dealltwriaeth o rôl yr IOPC a'r materion systemig gyda rhanddeiliaid allweddol drwy adroddiadau'r Pwyllgor Dethol ar Faterion Cartref.</p> <p>Gwaith cyfathrebu parhaus i wella dealltwriaeth o rôl yr IOPC o fewn y system ehangach.</p>	Gwylidwrus	
D Gall beirniadaeth allanol sylweddol o nifer o feysydd megis HASC, rhanddeiliaid sy'n gysylltiedig ag achosion proffil uchel gan gynnwys Ymgyrch Midland a threialon Hillsborough, a Ffederasiwn yr Heddlu ynghyd â nifer o ddigwyddiadau proffil uchel yn gyflym ar ôl ei gilydd yn lleihau hyder	<p>Rydym yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewn ffordd wedi'i thargedu â rhanddeiliaid seneddol a rhanddeiliaid allweddol eraill.</p> <p>Rydym yn parhau i arddangos yn allanol y gwaith da yr ydym yn ei wneud (gan gynnwys y gwahaniaeth a wnawn).</p>	Ar agor	

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
y cyhoedd mewn plismona yn fwy cyffredinol, gyfuno i arwain y Llywodraeth i adolygu sefyllfa'r IOPC o fewn y system gwynion.	Ymateb rhagweithiol i adroddiad HASC wedi'i gyhoeddi.		
E Ni fydd allbynnau cwynion difrifol yn bodloni disgwyliadau cyrff dynodedig a rhanddeiliaid eraill.	Galwadau 'Grŵp Aur Cwynion-difrifol' rheolaidd yn cael eu sefydlu rhwng arweinwyr lefel Cyfarwyddwyr yn HMICFRS, Coleg a'r IOPC. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cynrychioli'r IOPC ar yr uwch banel. Mae IOPC / HMICFRS / CoP wedi codi adnoddau a risgiau â swyddogion y Swyddfa Gartref.	Gwyliadwrus	
F Mae risg y bydd canlyniad adolygiad Swyddfa'r Cabinet yn arwain at feirniadaeth allanol, niwed i enw da a newidiadau posibl i lywodraethiant y sefydliad.	Adeiladu tîm adolygu dros dro i sicrhau bod tystiolaeth yn cael ei chasglu a hunanasesiad yn cael ei gynhyrchu Parhau i gynnal perthynas â gweinidogion y Swyddfa Gartref ac uwch swyddogion, gan	Ar agor	



Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	gynnwys yr Ysgrifennydd Parhaol.		
<p>GMae methiannau datgelu yn arwain at fethiant sefydliadol i gydymffurfio â'n rhwymedigaethau statudol o dan Ddeddf Gweithdrefnau ac Ymchwiliadau Troseddol 1996 (CPIA) a/neu fethiant i ddarparu deunydd dadlenadwy ar gyfer prosesau Crwnaidd a chamymddwyn.</p>	<p>Sefydlwyd prosiect â'r nod o drawsnewid dull yr IOPC o reoli datgeliad. Mae tîm y prosiect yn gweithio ar y cyd ag amrywiaeth o randdeiliaid gweithredol i wella ein gallu i ddatgelu.</p> <p>Mae'r Prosiect wedi cyflwyno proses rheoli dogfennau a sicrhau ansawdd newydd, arweiniad llawlyfr gweithrediadau newydd a hyfforddiant i'r holl staff.</p> <p>Mae Arweinydd Datgelu Cenedlaethol wedi'i benodi.</p>	Cymedrol	
<p>H Os caiff gwasanaethau TGCh, offer, asedau data neu gyflenwyr yr IOPC eu torri neu eu peryglu neu eu cyfaddawdu gan weithredwyr bygythiadau seiber.</p>	<p>Mae'r strategaeth seiber a'r rhaglen waith barhaus gysylltiedig yn cyflawni amcanion allweddol i ddiogelu, canfod ac ymateb i risg seiber.</p> <p>Y broses rheoli risg seiber weithredol.</p> <p>Achrediad Cyber Essentials plus wedi'i ddarparu.</p>	Cymedrol	

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>I Rydym yn ansicr os byddwn yn gallu cyflawni ein Strategaeth os bydd ein cyllid yn gostwng yn sylweddol yn dilyn Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant.</p>	<p>Roedd gennym gynllun effeithlonrwydd a oedd yn nodi arbedion hyd at fis Mawrth 2022.</p> <p>Cytuno ar Gynllun Ariannol Tymor Canolig newydd Chwefror 2023.</p>	Cymedrol	
<p>J Mae angen gwaith ychwanegol hefyd ar ein prosesau ar gyfer Torri Data a DPIAs.</p>	<p>Mae'r bwrdd sicrwydd gwybodaeth yn darparu trosolwg ar gyfer rheoli gwybodaeth gan gynnwys rheoli cofnodion.</p> <p>Mae TGCh yn gweithio gyda pherchnogion systemau i sicrhau bod gofynion rheoli cofnodion yn cael eu hystyried wrth ddylunio systemau newydd neu systemau wedi'u huwchraddio.</p> <p>Hyfforddiant gorfodol blynyddol ar gyfer hyfforddiant rheoli cofnodion corfforaethol.</p>	Gwylidwrus	
<p>KGall morâl staff isel gyfrannu at gyfraddau cadw staff is, yn enwedig mewn rhai meysydd a rolau</p>	<p>Rhaglen datblygu Rhwydwaith Arweinyddiaeth.</p>	Cymedrol	



Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
<p>(daearyddol). Yn ogystal, mae diffyg arolwg staff cyfredol yn lleihau ein gallu i ddeall pryderon ein gweithlu ac asesu lefelau morâl yn gywir.</p>	<p>Cefnogaeth Arweinydd Tîm Gweithredol.</p> <p>Adolygiadau o'r strwythur graddio.</p> <p>Cyflawni gwelliannau mewn ymateb i arolwg staff.</p>		
<p>LNid yw cyflwyno model gweithio hybrid yn llwyddiannus neu mae'n cael ei weithredu'n wael a gallai hefyd leihau presenoldeb a defnydd ystadau/swyddfeydd.</p>	<p>“Helo Hybrid” – ymateb tîm Dysgu a Datblygu i weithio hybrid.</p> <p>Trafodaethau ag Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth ynghylch Swyddfa Canary Wharf.</p> <p>Cyfathrebu rheolaidd â staff, ar y fewnwyd ynghyd ag eitemau newyddion mewnol ac ati.</p>	Cymedrol	
<p>M Mae ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid yn aneffeithiol</p>	<p>Fframwaith ymgysylltu ag uwch rhanddeiliaid yn ei le.</p> <p>Cynnull cyfarfod grŵp rhanddeiliaid ar faterion allweddol sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd.</p> <p>Cyfarfodydd rheolaidd â Phrif Gwnstabiail, Penaethiaid Safonau Proffesiynol, PCC, a</p>	Ar agor	



Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	<p>swyddfeydd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (Cyfarwyddwyr Rhanbarthol a'r Tîm Goruchwyllo).</p>		
<p>N Mae defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill yn dod yn fwyfwy rhwystredig oherwydd oedi / ôl-groniad gwaith achos.</p>	<p>Monitro perfformiad amseroldeb a modelu rhagweld.</p> <p>Rhoi rhagolygon realistig i ddefnyddwyr gwasanaeth o'r amser y bydd yn ei gymryd i gwblhau eu hadolygiadau a'u diweddarau drwy gydol y broses.</p> <p>Mae rheolwyr gwaith achos ychwanegol ac uwch reolwr gwaith achos wedi'u recriwtio.</p>	Gofalus	
<p>O Gallai newidiadau mewn deddfwriaeth a chyfeiriad gwleidyddol ehangu cylch gwaith yr IOPC yn sylweddol.</p>	<p>Defnyddio perthnasoedd â rhanddeiliaid a chwilio am gyfleoedd i ddarparu adnoddau ar y cyd a/neu dasgau i'w cwblhau gan rhanddeiliaid plismona a chyflenwyr cymeradwy.</p> <p>Cyfraniad at sganio gorwelion sefydliadol a gwaith cydweithredol gyda Strategaeth ac</p>	Ceisio	

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	<p>Effaith i ragfynegi a modelu newidiadau.</p> <p>Datblygu Gwybodaeth Reoli a data fel offeryn rhagfynegi.</p>		
<p>P Mae arferion heddlu gwael ac achosion camymddwyn proffil uchel yn parhau heb unrhyw dystiolaeth o newid / gwelliant mewn plismona.</p>	<p>Cyhoeddi Adroddiad Effaith blynyddol a chylchgronau Learning the Lessons.</p> <p>Amlygu a rhannu arfer da â heddluoedd a chyrff plismona lleol trwy ein rôl Goruchwylio.</p> <p>Cynllun peilot i fynd ar drywydd argymhellion dysgu.</p>	Gofalus	↔
<p>Q Mae newid radical yn y modd y trefnir heddluoedd Lloegr/Cymru yn digwydd e.e. gostyngiad sylweddol yn nifer yr heddluoedd i fodel "rhanbarthol".</p>	<p>Gosod mesurau gwyllo byr fel arwydd ein bod yn monitro'r system er ei fod allan o'n rheolaeth</p>	Gwrthwynebus	↓
<p>R Cynyddu ymyrraeth wleidyddol a chyfeiriad y llywodraeth yn y ffordd y caiff y sefydliad ei redeg.</p>	<p>Perthnasoedd gwaith / dylanwad lefel uwch cadarnhaol gyda:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gweinidogion • Gweinidogion yr wrthblaid • ASau • Uned Noddi • Rhanddeiliaid plismona allweddol 	Gwrthwynebus	↔

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	Datblygu dull ymgysylltu â rhanddeiliaid		
<p>S Mae gan yr IOPC atebolrwydd am gyflawni canlyniadau y tu hwnt i'w reolaeth.</p>	<p>Egluro / atgyfnerthu locws yr IOPC trwy ymgysylltu â:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Seneddwyr • Rhanddeiliaid nad ydynt yn blismona (gan gynnwys ymgysylltu â'r gymuned, yn enwedig ar ddigwyddiadau critigol) • trwy negeseuon cyfryngau/cyfryngau cymdeithasol rhagweithiol 	Cymedrol	
<p>T Mae'r newid diwylliannol (mewnol) sydd ei angen ar gyfer y cyfeiriad strategol presennol yn ormod.</p>	<p>Wedi nodi'r newid diwylliannol angenrheidiol i gyflawni'r strategaeth gorfforaethol a deall y rhyngddibyniaethau.</p> <p>Cyflwyno goblygiadau'r strategaeth newydd i'r holl staff gan ddechrau â sesiynau Nawr a Nesaf.</p> <p>Defnyddio ymyriadau Rhwydwaith Arweinyddiaeth Corfforaethol a Siarter Datblygu</p>	Gofalus	

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	Arweinyddiaeth i gynnwys arweinwyr yn y strategaeth gorfforaethol		
U Mae cyfyngiadau cyllidebol yn ystod oes y strategaeth IOPC newydd yn uwch nag a gynlluniwyd ar ei gyfer ar hyn o bryd. Gall unrhyw gyfyngiadau cyllidebol tymor byr ansefydlogi'r sefydliad.	<p>Datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig y cytunwyd arno gan y Bwrdd Unedol.</p> <p>Deialog barhaus â'r Swyddfa Gartref am strategaeth a pherfformiad cyfredol</p> <p>Cyflwyniadau i'r Swyddfa Gartref i gefnogi'r broses CSR a Chyfarfodydd yr Uwch Noddwyr.</p>	Cymedrol	↓
V Nid oes gennym y data sydd eu hangen arnom i wneud penderfyniadau gwybodus nac i ddangos ein heffaith ar system gwynion yr heddlu.	Mae'r dyluniad ar gyfer llwyfan data newydd yn cynnwys y dylai fod yn dechnegol alluog i amlyncu data sy'n dderbyniol o gyflym.	Ar agor	↑
W Mae newidiadau yn y dirwedd wleidyddol yn arwain at bersectif gwahanol ar yr IOPC a sut y dylid cynnal arolygiaeth yr heddlu, yn fwy cyffredinol.	<p>Strategaeth IOPC newydd wedi'i chytuno â mewnbwn gan y Swyddfa Gartref.</p> <p>Mae olrhain canfyddiad y cyhoedd yn golygu bod yr IOPC yn gyfredol ac yn ymwybodol o</p>	Gwrthwynebus	↔

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
	<p>dueddiadau yng nghanfyddiad y cyhoedd ac ymhlith rhanddeiliaid.</p> <p>Cyfarfodydd Uwch Noddwr â Chyfarwyddwr Cyffredinol y Swyddfa Gartref.</p>		
<p>X Gallai diffyg eglurder ynghylch proses gaffael newydd y Swyddfa Gartref achosi oedi a allai, ynghyd â diffyg sicrwydd ynghylch cyllidebau yn y dyfodol a/neu amcangyfrifon anghywir neu gostau annisgwyl yn y dyfodol, olygu bod prosiect y System Rheoli Achosion (CMS) yn rhedeg y tu hwnt i'w chyllideb wreiddiol a dyddiad gorffen cynlluniedig, a fyddai yn ei dro yn golygu y gellid ohirio cyflwyno a gweithredu'r CMS newydd. Byddai unrhyw oedi yn golygu gwthio mwy o waith a chostau i mewn i flwyddyn ariannol 2023/24.</p>	<p>Gweithio'n agos gyda'r HO drwy gydol y broses gaffael.</p> <p>Gweithio'n agos gyda'r HO drwy gydol y broses gaffael.</p> <p>Bydd cyflwyno darganfyddiad 8 wythnos yn sicrhau bod gan y cyflenwr a'r IOPC syniad llawer cliriach o gostau, cyfnodau cyflawni ac amseriadau'r rhain.</p>	Cymedrol	
<p>Y Mae diffyg hyder mewn plismona yn cael effaith ganlyniadol ar yr IOPC a goblygiadau ar</p>	<p>Cynllun ymgysylltu â rhanddeiliaid.</p>	Gwyliadwrus	

Disgrifiad y Risg	Prif Ffurf o Liniaru	Archwaeth	Tuedd Risg
gyfer newidiadau i'r system gwynion ehangach.	<p>Aseiad adolygu Swyddfa'r Cabinet wedi'i ddiweddarau.</p> <p>Ymateb i Adroddiad Casey.</p>		
<p>Z Effaith gronns ar gapasiti Adolygiad Swyddfa'r Cabinet, goblygiadau posibl o ran llywodraethu a strwythurol, arweinyddiaeth interim, a chyllideb dynn.</p>	<p>Deialog agored â'r Swyddfa Gartref â'r nod o ddod â risg o fewn archwaeth / targed.</p> <p>Cyfathrebu bwrdd parhaus a chyingor gan Gyfarwyddwyr Anweithredol</p> <p>Rheoli adolygiad Swyddfa'r Cabinet.</p>	Gofalus	
<p>A1 Staff yr IOPC yn cymryd camau diwydiannol, mae gweithredu diwydiannol yn effeithio ar gyflenwi gwasanaethau (neu mae gweithredu diwydiannol sector cyhoeddus ehangach a allai effeithio'n anuniongyrchol ar ein darpariaeth).</p>	<p>Dylai pythefnos o rybudd sydd ei angen ar gyfer gweithredu diwydiannol fod yn ddigon i drefnu yswiriant ar gyfer prinder hysbys.</p> <p>Cyfarfodydd rheolaidd â'r Swyddfa Gartref i drafod materion yn ymwneud â streic gan gynnwys cyfathrebu.</p> <p>Adolygodd y Bwrdd Rheoli Gweithrediadau gydnerthedd mewnol i baratoi ar gyfer streic fewnol yn yr IOPC.</p>	Gofalus	

Mae'r tabl canlynol yn dangos y 15 risg sy'n weddill ar ein cofrestr risg strategol ar ddiwedd y flwyddyn (mae'r llythyrau'n ymwneud â'r tabl uchod) ac yn dangos effaith y camau lliniaru ar y risgiau hynny.

Effaith	Uchel lawn	18	20	21	24	25
	Uchel	12	16	M X 19	N V 22	23
	Canolig	Q 10	11	P R S U W 14	H T Y Z 15	17
	Isel	3	5	A1 8	9	13
	Isel lawn	1	2	4	6	7
		Isel lawn	Isel	Canolig	Uchel	Uchel lawn
Tebygolrwydd						

Allwedd

Mae'r llythrennau yn ymwneud â'r risgiau a restrir yn y tabl sy'n dechrau ar dudalen 23. Mae'r ffigurau italig yn cynrychioli'r sgôr sy'n pennu safle risg yn y grid.

Tebygolrwydd (risg yn digwydd)	
Uchel lawn	Mae'r risg bron yn sicr o ddigwydd (mwy nag 80% o siawns)
Uchel	Mae'r risg yn fwy tebygol o ddigwydd na pheidio (rhwng 51% ac 80% o siawns)
Canolig	Mae'r risg yn weddol debygol o ddigwydd (rhwng 21% ac 50% o siawns)

Isel	Mae'r risg yn annhebygol ond nid yn amhosibl o ddigwydd (rhwng 6% ac 20% o siawns)
Isel lawn	Mae'r risg yn annhebygol iawn o ddigwydd (<5% siawns)
Effaith (Os yw'r risg yn digwydd)	
Uchel lawn	Effaith drychinebus ar yr amcan sy'n ei wneud yn anghyflawnadwy.
Uchel	Effaith sylweddol ar yr amcan; gan ei gwneud yn eithriadol o anodd a/neu ddrud i'w gyflawni.
Canolig	Effaith materol ar yr amcan; gan ei wneud yn gyraeddadwy ond gydag anhawster cymedrol a/neu gost ychwanegol.
Isel	Effaith fach ond amlwg ar yr amcan; ei wneud yn gyflawnadwy gyda rhywfaint o ymdrech/cost fach ychwanegol.
Isel lawn	Effaith ddibwys ar gyflawni'r amcan.

Dadansoddi perfformiad

Rydym wedi cyhoeddi ein Cynllun Strategol 2022-27 a bob blwyddyn rydym yn cyhoeddi cynllun busnes blynyddol. Mae'r adran hon yn disgrifio ein cynnydd yn erbyn y blaenoriaethau a nodir yn ein Cynllun Busnes 2022/23.

Amcan: ymwybyddiaeth a hyder

Pobl yn gwybod am y system gwynion a'u bod yn hyderus wrth ei defnyddio.

Yr hyn rydym yn gobeithio'i gyflawni

1. Ymddiriedir yn system gwynion yr heddlu i fynd i'r afael â phryderon yn briodol.
2. Mae'r rhai sydd â llai o hyder mewn plismona yn fodlon ac yn gallu defnyddio'r system gwynion i godi eu pryderon.
3. Mae trefniadau ar waith (fel gwybodaeth, arweiniad a chymorth) sy'n ei gwneud hi'n hawdd gwneud cwyn.
4. Mae deall pryderon cymunedol wedi siapio'r gwaith a wnawn.

Mesur cynnydd yn erbyn ein nodau

Gwnaethom anelu i:

Gynyddu ymwybyddiaeth o'r IOPC gan 10% (fel y mesurir gan ein traciwr canfyddiadau'r cyhoedd).

Yn 2021/22, dywedodd ymchwil wrthym fod 55% o ymatebwyr wedi dweud eu bod wedi clywed am yr IOPC, cynnydd ar y 49% a gofnodwyd yn 2020/21. Mae ymwybyddiaeth wedi cynyddu am ail flwyddyn yn olynol yn 2022/23 gyda 62% o ymatebwyr yn dweud eu bod wedi clywed am yr IOPC, er bod hyn yn is na'n targed o 65%. Ymatebodd cyfanswm o 8,029 o bobl i'r ymchwil.

Gwnaethom hefyd fonitro ac ymateb i:

Gyfran y bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a menywod sy'n hyderus bod yr heddlu'n ymdrin â chwynion yn deg.

Mae hyder pobl ifanc yn yr heddlu i ymdrin â chwynion yn deg wedi aros ar 37% - yr un lefel â 2021/22. Roedd yr ifanc yn draddodiadol yn grŵp hyder isel, ond

mae lefelau hyder ymhlith demograffeg eraill wedi disgyn i lefelau tebyg, sy'n golygu nad yw'r ifanc bellach yn anghysondeb o'r fath. Mae'r ffigur hyder cyffredinol ar gyfer 2022/23 wedi gostwng am yr ail flwyddyn yn olynol, 34% (2698) o gymharu â 41% yn 2021/22 a 49% yn 2020/21.

Mae hyder menywod yn yr heddlu sy'n delio â chwynion yn deg yn 2022/23 ar 31% sy'n cynrychioli gostyngiad mawr o'r 40% a gofnodwyd yn 2021/22. Mae'r ffigur hwn hefyd yn is na hyder cyffredinol dynion, sef 36% ar gyfer 2022/23. Roedd hyder y rhai o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig yn 34% yn 2022/23 sy'n gyson yn fras â'r 33% a gofnodwyd yn 2021/22.

Cyfran y cwynion gan yr heddlu a wneir gan bobl o gefndiroedd lleiafrifoedd ethnig, pobl ifanc a menywod.

Yn 2022/23 gwnaed 13% o gwynion yr heddlu gan bobl o gefndir ethnig lleiafrifol, o gymharu â 12% y flwyddyn flaenorol. Pobl ifanc 17 oed neu iau oedd yn cyfrif am 2% o gwynion yn 2022/23, gan godi i 7% ar gyfer pobl 23 oed neu iau. Yn y flwyddyn flaenorol y ffigyrau oedd 1% ar gyfer rhai dan 17 oed, a 7% ar gyfer rhai dan 23 oed. Gwnaethpwyd 41% o gwynion yr heddlu gan fenywod yn 2022/23 (heb newid ers y flwyddyn flaenorol).

Cesglir y ffigurau hyn gan heddluoedd am y cwynion y maent yn ymdrin â nhw.

Argymhellir bod yn ofalus wrth edrych ar y dadansoddiad yn ôl ethnigrwydd, oedran a rhyw oherwydd bylchau sylweddol yn y broses o gofnodi data demograffig.

Codi ymwybyddiaeth o'r IOPC

Mae'r cyfryngau yn gyfrwng pwysig ar gyfer codi ymwybyddiaeth o'r IOPC a'r system gwynion. Yn 2022/23 fe wnaethom gyhoeddi 212 o ddatganiadau rhagweithiol i'r cyfryngau am ein hymchwiliadau, gwaith thematig ac adroddiadau, ac ymdriniwyd â 2,004 o ymholiadau gan y cyfryngau.

Mae ein gwefan yn parhau i fod yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am ein gwaith, ac yn cynnig llwybr hawdd ei gyrchu ar gyfer gwneud cwyn. Mae'r wefan yn cynnwys gwybodaeth am ein perfformiad ein hunain a chanlyniadau system gwynion yr heddlu.

Heblaw bod rhesymau eithriadol, rydym yn cyhoeddi pob adroddiad ymchwiliad neu grynoded ymchwiliad ar ein gwefan. Yn ystod y flwyddyn derbyniodd ein gwefan 226,835 o ymweliadau unigryw â thudalennau.

Mae cyfryngau cymdeithasol yn sianel gynyddol i ni ymgysylltu â'n cynulleidfaoedd. Ar ddiwedd mis Mawrth 2023 roedd gennym ni 29,927 o ddilynwyr Trydar, 4,558 ar LinkedIn a 356 ar Instagram.

Gweithio gyda rhanddeiliaid cymunedol

Eleni rydym wedi cynnal nifer o sesiynau ymwybyddiaeth ar raddfa fawr yn llwyddiannus â sefydliadau cenedlaethol a chymunedol i godi ymwybyddiaeth o'r IOPC a system gwynion yr heddlu.

Ym mis Mehefin 2022, fe wnaethom hwyluso gweithdy gyda Heddlu De Cymru ac aelodau o'r gymuned o Gaerdydd, Grangetown a Butetown yn dilyn pryderon ynghylch y defnydd o rym ac uwchgyfeirio. Darparodd y gweithdy fan diogel i aelodau'r gymuned a swyddogion rannu eu profiadau. Daeth Heddlu De Cymru â hyfforddwr diogelwch gyda nhw hefyd i ddangos gwahanol agweddau ar hyfforddiant swyddogion, gan alluogi aelodau'r gymuned i gael dealltwriaeth gliriach o'r hyfforddiant y mae swyddogion yn derbyn mewn perthynas â dad-ddwysáu a defnyddio grym. Mae llawer o aelodau'r gymuned bellach yn ymwneud â datblygu gwelliannau plismona arfaethedig.

Mae'r IOPC wedi parhau i weithio ar y cyd â HMICFRS a'r Coleg Plismona ar ymchwilio i gwynion difrifol. Mae'r system gwynion difrifol yn caniatáu i sefydliadau dynodedig godi materion ar ran y cyhoedd ynghylch patrymau neu dueddiadau niweidiol mewn plismona.

Eleni, mae'r tri sefydliad wedi parhau â'n hymchwiliad i gwyn ddifrifol am niwed a achosir gan achosion o stopio a chwilio 'heb amheuaeth' a chraffu annigonol ar bwerau stopio a chwilio. Ar ddiwedd 2022, fe wnaethom ddechrau

ymchwiliad cwyn ddifrifol newydd ynghylch ymateb yr heddlu i stelcio. Mae'r IOPC yn arwain yr ymchwiliad hwn ar y cyd.

Eleni cwblhawyd ein hymchwiliad ar y cyd i gŵyn ddifrifol am fethiannau i fynd i'r afael â cham-drin domestig a gyflawnir gan yr heddlu. Canfu'r ymchwiliad hwn 'ddiffygion systemig' yn y ffordd y mae rhai heddluoedd yn delio â honiadau o gam-drin domestig yn erbyn eu swyddogion a'u staff eu hunain. Gwnaethom argymhellion i Brif Gwnstabiliaid, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd a'r Swyddfa Gartref – roedd y rhain yn canolbwyntio ar gamau gweithredu i wella mesurau diogelu, monitro a chymorth effeithiol i ddioddefwyr/goroeswyr lle gwneir honiadau o gam-drin domestig yn erbyn swyddogion a staff yr heddlu. Mae canfyddiadau'r ymchwiliad wedi cyfrannu at y sgwrs genedlaethol gyfredol ynghylch ymateb yr heddlu i VAWG ac wedi llunio ein gwaith thematig VAWG ein hunain ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Fe wnaethom hefyd gwblhau'r ymchwiliad ar y cyd i gŵyn ddifrifol am ymateb yr heddlu i ddioddefwyr/goroeswyr cam-drin rhywiol sydd o gefndir ethnig lleiafrifol ac a allai fod mewn perygl o gael eu cam-drin ar sail anrhydedd. Roedd argymhellion yr ymchwiliad hwn yn canolbwyntio ar wella dealltwriaeth o risgiau cam-drin ar sail anrhydedd a chofnodi a monitro data ethnigrwydd yn effeithiol. Derbyniwyd yr argymhellion gan bob heddlu a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd.

Gweithio gydag adolygiadau ac ymholiadau mawr

Nid yw'r IOPC yn gweithio mewn gwactod, ac ni allwn wneud gwelliannau i blismona ar ein pennau ein hunain. Rydym yn gweithio'n agos gydag asiantaethau eraill, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi, y Gwasanaethau Tân ac Achub, y Coleg Plismona a chomisiynwyr heddlu a throsedd; a defnyddiwn dystiolaeth o'n gwaith i gefnogi adolygiadau ac ymchwiliadau annibynnol i blismona. Er enghraifft:

- Roedd adolygiad y Farwnes Casey o ddiwylliant a safonau'r Heddlu Metropolitan yn tynnu ar ein hymchwiliadau, gan gynnwys ein canfyddiadau Ymgyrch Hotton ar negeseuon cyfryngau cymdeithasol hiliol, rhywiaethol a homoffobig a rennir ymhlith swyddogion sydd wedi'u lleoli'n bennaf yng ngorsaf heddlu Charing Cross.
- Rydym yn cefnogi Ymchwiliad y Gwir Anrhydeddus Fonesig Elish Angiolini QC, sy'n canolbwyntio ar yrfa, ymddygiad a hanes Wayne Couzens yn yr heddlu. Yn dilyn dedfrydu'r cyn heddwes David Carrick ym mis Chwefror 2023, mae Ymchwiliad Angiolini hefyd yn archwilio achos Carrick i sefydlu dealltwriaeth o'i yrfa a'i ymddygiad blaenorol. Bydd yr Ymchwiliad yn mynd i'r afael â materion ehangach a godwyd gan y ddau achos mewn perthynas â phlismona ac amddiffyn menywod. Rydym yn gweithio gyda thîm

Ymchwiliad Angiolini a fydd yn ystyried canfyddiadau ein hymchwiliadau yn ymwneud â Couzens a Carrick, a'n gwaith thematig ehangach ar VAWG.

- Cyhoeddwyd ein hymateb i adolygiad y Swyddfa Gartref o'r broses o ddiswyddo swyddogion heddlu, lle cynigiom symud i fodel 'addasrwydd i ymarfer'.
- Rhoddodd ein Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro a Chyfarwyddwr Strategaeth ac Effaith dystiolaeth i Ymchwiliad y Pwyllgor Materion Cartref ar flaenoriaethau plismona. Roedd y dystiolaeth yn cynnwys gwybodaeth am ein strategaeth newydd, y gwaith rydym yn ei wneud i fynd ar drywydd yr uwch-gŵyn i Gam-drin Domestig a Gyflawnir gan yr Heddlu, ein gwaith thematig ar gyfer 2023/24, a'n mewnwelediad i system ymddygiad yr heddlu.
- Dechreuodd adolygiad gan Swyddfa'r Cabinet o'r IOPC ym mis Mawrth 2023. Mae adolygiadau Swyddfa'r Cabinet yn brosesau arferol y mae pob corff hyd braich yn ddarostyngedig iddynt, fel arfer bob tair blynedd. Roedd ein un ni yn hwyr ac fe wnaethom groesawu ei gychwyn. Rydym yn cefnogi'r tîm adolygu, a gadeirir gan Dr Gillian Fairfield. Disgwyliwn i'r adolygiad ddod i ben yn yr hydref.

Cylchgrawn Learning the Lessons

Mae ein cylchgronau Learning the Lessons yn cynorthwyo heddluoedd i wella polisi ac arfer yr heddlu. Mae pob rhifyn yn cynnwys cyfres o astudiaethau achos byr, dienw. Mae astudiaethau achos yn gofyn cwestiynau myfyriol i swyddogion a staff rheng flaen, a llunwyr polisi a rheolwyr ym maes plismona, ac fe'u cynlluniwyd i ddadbwytho cyfleoedd dysgu allweddol i ddarllenwyr.

Er mwyn helpu i roi cyd-destun i faterion allweddol a archwiliwyd yn yr astudiaethau achos, ac i archwilio materion a chyfleoedd newydd ar gyfer dysgu, mae pob rhifyn o'r cylchgrawn hefyd yn cynnwys amrywiaeth o erthyglau a ysgrifennir gan randdeiliaid allweddol sy'n gweithio yn y maes thematig perthnasol. Mae erthyglau'n amrywio o archwilio mentrau arfer da lleol, i rannu canllawiau cenedlaethol a gofyn i ddarllenwyr fyfyrion ar eu gwybodaeth, polisïau a hyfforddiant yr heddlu eu hunain.

Fe wnaethom gyhoeddi dau rifyn o Learning the Lessons yn 2022/23.

Ym mis Mai 2022, fe wnaethom gyhoeddi Learning the Lessons 40, y cyntaf i ganolbwyntio ar gam-drin safle at ddiben rhywiol (APSP). Cefnogwyd y mater hwn gan amrywiaeth o randdeiliaid, gan gynnwys arweinydd Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu (NPCC) ar gamddefnyddio swydd a Rheolwr Safonau Plismona Moeseg, Uniondeb a Safonau Proffesiynol y Coleg Plismona. Roedd yn cynnwys 10 astudiaeth achos, ac erthyglau ar:

- waith yr IOPC ar APSP
- y darlun cudd-wybodaeth cenedlaethol
- strategaeth APSP yr NPCC
- arfer da, gan gynnwys ymgorffori ymddygiadau moesegol mewn plismona
- arweiniad ar gynnal ffiniau proffesiynol
- darparu cynlluniau cadetiaid heddlu gwirfoddol yn ddiogel
- mynd i'r afael â defnydd amhriodol o gyfryngau cymdeithasol
- system ddisgyblu'r heddlu
- Gweithgarwch arolygu APSP

Ym mis Tachwedd 2022, fe wnaethom gyhoeddi Learning the Lessons 41, y cyntaf i ganolbwyntio ar drin galwadau. Cefnogwyd y mater hwn gan randdeiliaid gan gynnwys arweinydd yr NPCC ar gyfer rheoli cyswllt a chadeirydd NPCC y Grŵp Plismona Pobl Coll Cenedlaethol. Roedd yn cynnwys 10 astudiaeth achos, ac erthyglau ar:

- waith yr IOPC ar yr Ateb Tawel
- rolau'r rhai sy'n delio â galwadau ac anfonwyr
- codi safonau rheoli cyswllt mewn plismona
- ymateb fideo cyflym i alwyr sy'n adrodd am gam-drin domestig
- ystafelloedd rheoli'r heddlu a phobl sydd ar goll
- data perfformiad galwadau 999 y Swyddfa Gartref
- herio rhagfarn a stereoteipiau
- arloesi digidol
- gwiriadau diogel ac iach

Rydym yn ceisio mewnbwn gan randdeiliaid ar y cylchgrawn i roi adborth ar ddrafftiau sy'n cael eu datblygu, awgrymu erthyglau, ac i nodi cyfleoedd i rannu'r cylchgrawn yn ehangach. Mae rhanddeiliaid yr ymgynghorwn â nhw yn cynrychioli'r meysydd plismona a gwmpesir yn y mater, y byd academiaidd, a grwpiau cymunedol a gwirfoddol, ac fe'u gwahoddir i roi adborth ar gynnwys sy'n berthnasol i'w meysydd arbenigedd. Rydym hefyd yn ymgynghori â'r Coleg Plismona, Arolygiaeth Cwnstabiliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi, y Swyddfa Gartref, Cyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu, Ffederasiwn yr Heddlu a Chymdeithas Uwcharolygwyr yr Heddlu.

Dywedodd ymatebion cyfun i'r ddau arolwg adborth cylchgrawn wrthym:

- Teimlai 98% o ymatebwyr (56) fod y cylchgronau yn arf defnyddiol i ysgogi newid ym mholisi ac arferion yr heddlu
- Teimlai 98% o'r ymatebwyr (56) fod y cylchgronau'n rhoi gwybodaeth ddefnyddiol iddynt i ategu'r wybodaeth a gafwyd o hyfforddiant, sesiynau briffio neu brofiad ymarferol
- Teimlai 100% o ymatebwyr (62) fod y cwestiynau myfyriol wedi eu helpu i nodi dysgu allweddol yn yr achosion dan sylw

- Dywedodd 100% o'r ymatebwyr (28) y byddent yn ystyried gwneud newidiadau i bolisi, canllawiau neu hyfforddiant y maent yn gyfrifol amdanynt er mwyn adlewyrchu'r hyn a ddysgwyd o'r cylchgronau

[Mae holl rifynnau Learning the Lessons ar gael ar ein gwefan.](#)

Gweithio gyda phobl ifanc a'r Panel Ieuenctid

Yn 2022/23 parhaodd y Panel Ieuenctid i weithio ochr yn ochr â staff yr IOPC i gyflawni eu hargymhellion o adroddiad Panel Ieuenctid 2021. Roedd y gwaith hwn yn cynnwys 27 o sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda nhw, a swyddogion heddlu.

Roedd ffocws cynyddol ar weithdai ymgysylltu â'r heddlu, gyda sesiynau'n cael eu darparu gyda chwe gwasanaeth heddlu ledled Lloegr a Chymru. Mae'r sesiynau hyn wedi bod yn llwyddiant; gwella dealltwriaeth yr heddlu o bobl ifanc, eu problemau, eu barn ar blismona a'r effaith y mae'n ei gael arnynt. Yn ogystal, bu'r sesiwn yn helpu'r bobl ifanc i gael gwell dealltwriaeth o'r broses feddwl a safbwyntiau swyddogion heddlu sy'n gwasanaethu.

Cynhaliodd y Panel Ieuenctid nifer o gyfarfodydd â staff yr IOPC, gan gynnwys trafod achosion proffil uchel a gwneud argymhellion ar gyfer newidiadau a gwelliannau yng ngwasanaeth yr heddlu. Gwnaeth y Panel argymhellion mewn perthynas ag ymchwiliad Plentyn Q, a chafodd llawer ohonynt eu cynnwys yn argymhellion dysgu'r IOPC a gyhoeddwyd yn ystod haf 2022.

Cymerodd y Panel Ieuenctid ran hefyd yn y bwrdd crwn noeth-chwiliad plant, lle buont yn cyfarfod â rhanddeiliaid plismona statudol. Siaradodd y Panel am bwysigrwydd atebolrwydd - yn enwedig mewn perthynas â gweithredu argymhellion a wnaed gan yr IOPC.

Ymgynghorwyd â'r Panel, ac roedd yn ganolog i'r gwaith o ddatblygu strategaeth bum mlynedd newydd yr IOPC.

Y flwyddyn ariannol hon helpodd y Panel Ieuenctid i ddarparu hyfforddiant gwahaniaethu ar sail hil yr IOPC ar gyfer y rhai sy'n gwneud penderfyniadau. Fe wnaethant rannu eu profiad bywyd a rhoi mewnwelediad newydd i aelodau staff sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau allweddol ar ymchwiliadau'r IOPC.

Cynlluniodd a chyflwynodd y Panel Ieuenctid eu harolwg pobl ifanc blynyddol cyntaf mewn cydweithrediad â thimau ymchwil, cyfathrebu ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yr IOPC. Casglodd yr arolwg farn bron i 2,000 o bobl ifanc 13-25 oed a chyhoeddwyd y canfyddiadau ym mis Hydref 2022.

Daethpwyd â mewnwelediadau o'r arolwg hwn, ynghyd â thystiolaeth o ymgysylltiad y Panel Ieuenctid â staff yr IOPC, pobl ifanc, swyddogion heddlu, a

gweithwyr proffesiynol, i gyd at ei gilydd i wneud argymhellion i'r IOPC a'r heddlu mewn cyflwyniad ym mis Mawrth 2023.

Yr argymhellion ar gyfer yr IOPC oedd:

- Dylai'r IOPC lansio menter sy'n galluogi sefydliadau dibynadwy i helpu pobl ifanc i gwyno. Dylai sefydliadau y gellir ymddiried ynddynt gynnwys ysgolion, colegau a sefydliadau ieuencid. Dylid rhoi offer i'r sefydliadau hyn i helpu i gyflwyno'r gŵyn ar gyfer pobl ifanc yn unigol ac mewn grwpiau.
- Dylai'r IOPC wthio am newid i arferion plismona ar draws Lloegr a Chymru, fel bod yr hawl i gwyno yn dod yn rhan annatod o arfer gorfodol.
- Dylai'r IOPC barhau i fuddsoddi yn addysg ac ymwybyddiaeth pobl ifanc o'r system gwynion. Yn ogystal, dylai'r IOPC ymgysylltu mwy â rhieni a theuluoedd.
- Dylai'r IOPC wthio am newid deddfwriaethol i'r system gwynion, fel ei fod yn diwallu anghenion pobl ifanc.

Dyma argymhellion y Panel Ieuencid ar gyfer yr heddlu:

- Dylai heddluoedd fuddsoddi'n gyson mewn hyfforddiant ac addysg ar hil, rhyw, LHDTG+, anabled a phobl ifanc mewn gofal.
- Dylai pob heddlu wreiddio ffocws ar ryngweithio cadarnhaol bob dydd â phobl ifanc.
- Dylai'r heddlu roi blaenoriaeth i greu dull sy'n seiliedig ar werthoedd wrth recriwtio swyddogion newydd.
- Dylai gwasanaethau heddlu hyrwyddo canlyniadau gweladwy ar gyfer camymddwyn.

Ein Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Allanol (ESRG)

Mae ein ESRG yn cynnwys rhanddeiliaid statudol ac anstatudol allanol, megis cynrychiolwyr o elusennau a sefydliadau ymgyrchu, sefydliadau plismona a'r Swyddfa Gartref. Mae'r grŵp yn darparu her ac adborth adeiladol ar ein perfformiad a'n prosiectau allweddol, yn gweithredu fel seinfwrdd anffurfiol i drafod darnau penodol o waith a themâu i helpu i wella arferion plismona.

Cynhaliodd y grŵp dri chyfarfod ar-lein eleni, â phresenoldeb rhagorol ym mhob un. Drwy gydol y flwyddyn, cafodd y grŵp ddiweddariadau ar ein cwynion difrifol a'n gwaith thematig Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG). Bu rhanddeiliaid yn trafod ac yn rhannu eu barn ar reoli a sicrhau ansawdd

gweithredol a sut y gallai gwasanaeth eiriolaeth ar gyfer system gwynion yr heddlu edrych. Fe wnaethom hefyd groesawu siaradwyr gwadd o'r Swyddfa Gartref a'r Coleg Plismona i gyflwyno eitem ar fynd i'r afael â hyder y cyhoedd trwy ymateb system a Goruchwyliaeth IOPC.

Ein gwaith yng Nghymru

Mae'r IOPC yn gweithio ledled Cymru gyda'r un cyfrifoldebau dros heddluoedd Lloegr a Chymru. Ymddeolodd Catrin Evans, ein Cyfarwyddwr Cymru, ym mis Rhagfyr 2022. Mae David Ford nawr yn darparu'r arweinyddiaeth ar gyfer swyddfa Caerdydd ac yn parhau â'n gwaith ymgysylltu rheolaidd â'r pedwar heddlu yng Nghymru a'r sector plismona ehangach, gan gynnwys comisiynwyr heddlu a throsedd (PCCs), Arolygiaeth Cwnstabiliaeth, Gwasanaethau Tân ac Achub (HMICFRS) a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Mae ein tîm goruchwyllo yn parhau i weithio'n agos gyda heddluoedd ledled Cymru, i'w cynorthwyo i wella'r modd y caiff cwynion eu trin. Mae'r tîm wedi bod yn gweithio ar brosiect sy'n edrych ar adolygiadau yr ymdrinnir â nhw gan gyrff plismona lleol (LPBs). Ei nod yw archwilio'r prosesau y mae Byrddau Partneriaeth Lleol yn eu defnyddio i gynnal eu hadolygiadau, yn ogystal ag adolygu'r canlyniadau a gyrhaeddwyd. Rydym yn defnyddio'r dystiolaeth a gafwyd i rannu arfer gorau a chanllawiau i'r holl adolygwyr cwynion.

Fel enghraifft o'n gwaith i helpu i fynd i'r afael â hyder y cyhoedd, mewn partneriaeth â heddlu yng Nghymru, cynhaliom weithdy adferol ar ddefnydd yr heddlu o rym yn cynnwys aelodau o'r gymuned a swyddogion a staff yr heddlu. Roedd y digwyddiad yn gyfle adeiladol i gyfranogwyr rannu eu syniadau, eu profiadau a'u pryderon, ac i ddysgu mwy am yr hyfforddiant a'r pwerau sydd ar gael i'r heddlu. Arweiniodd y gweithdy at drafodaethau ychwanegol am y ffordd orau i'r heddlu ryngweithio â grwpiau penodol. Bu ein Panel Ieuencid yn rhan o ddigwyddiad gyda swyddogion heddlu yng Nghymru ynghylch stopio a chwilio.

Fel rhan o'n nod i godi ymwybyddiaeth o'r IOPC ymhlith grwpiau lleiafrifol anoddach i'w cyrraedd, buom yn gweithio gyda heddlu yng Nghymru ac achwynydd trawsrywiol i helpu i ddysgu o'n hymchwiliad i bryderon yr unigolyn am y modd yr ymdriniodd yr heddlu pan oeddent wedi adrodd am droseddau a digwyddiadau casineb trawsffobig.

Rydym yn parhau i ymgysylltu ag Aelodau'r Senedd, gan gynnwys Jane Hutt, Gweinidog Llywodraeth Cymru dros Gyfiawnder Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y portffolio plismona, ac ag Aelodau Seneddol a chynghorwyr lleol i egluro ein rôl a phwysleisio pwysigrwydd ein goruchwyliaeth annibynnol o system gwynion yr heddlu. Mae gweithgarwch ymgysylltu mwy penodol hefyd wedi'i gynnal â chynrychiolwyr gwleidyddol yn ystod ymchwiliadau proffil uchel.

Rydym wedi parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, ac i gyflawni ein hymrwymiaidau ynghylch y Gymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 a Mesur y Gymraeg 2011. I'r perwyl hwn, rydym wedi llwyddo i benodi Rheolwr Datblygu'r Gymraeg a fydd yn gyfrifol am oruchwylio ein cydymffurfiaeth barhaus â'r safonau ac am sicrhau ein bod yn darparu gwasanaeth da i'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg, yn ogystal â rhoi cyfle i aelodau staff sy'n siarad Cymraeg i ddefnyddio eu dewis iaith yn y gweithle.

Defnydd o'n llinell adrodd

Rydym yn gweithredu llinell adrodd i swyddogion a staff yr heddlu adrodd am bryderon ynghylch camwedd yn eu gweithle. Mae ar gyfer sefyllfaoedd lle mae camwedd yn datgelu, neu'n awgrymu, bod trosedd wedi'i chyflawni, neu lle mae tystiolaeth o ymddygiad a fyddai'n cyfiawnhau camau disgyblu. Mae'r Coleg Plismona hefyd yn cynhyrchu canllawiau ar adrodd am bryderon.

Yn 2022/23 cysylltwyd â'n llinell adrodd 98 o weithiau o gymharu â 33 o weithiau yn ystod 2021/22. Roedd mwyafrif y pryderon a godwyd yn ymwneud â naill ai llygredd, gwahaniaethu, neu fethiant yr Adran Safonau Proffesiynol (PSD) i ymchwilio i gŵyn. Mae gennym nifer o opsiynau ar gyfer delio â galwadau i'n llinell adrodd. Mae'r camau a gymerwn yn dibynnu ar ddifrifoldeb y pryderon a godir, ond mae'n rhaid i ni gael caniatâd y galwr cyn trosglwyddo unrhyw wybodaeth i heddlu.

Pan fydd rhywun yn cysylltu â'n llinell adrodd, rydym yn asesu'r wybodaeth a ddarperir ganddynt. Roedd y rhan fwyaf o'r adroddiadau a gawsom yn 2022/23 yn addas i'r heddlu perthnasol ymdrin â nhw.

Datgeliadau budd y cyhoedd

Yn ôl y gyfraith mae'n ofynnol i ni gyhoeddi gwybodaeth am ddatgeliadau cymwys. Mae datgeliad cymhwysol yn disgrifio sefyllfa lle mae swyddog heddlu neu aelod o staff yn trosglwyddo gwybodaeth sydd, yn eu barn nhw, er budd y cyhoedd, bod swyddog heddlu neu aelod arall o staff yn gwneud, neu'n debygol o wneud, rhywbeth o'i le neu'n droseddol. Gallwch [ddarllen mwy am ddatgeliadau cymwys yma](#).

Eitem	Gwybodaeth am 2021/22
Nifer y datgeliadau cymwys	39
Nifer y datgeliadau cymhwysol lle cymerwyd camau ychwanegol gennym	39

<p>Crynodeb o'r camau a gymerwyd</p>	<p>Ar gyfer 27 datgeliad, gofynnwyd am ganiatâd i anfon yr wybodaeth berthnasol a ddarparwyd at yr heddluoedd.</p> <p>Trosglwyddwyd deuddeg datgeliad i'n Huned Cudd-wybodaeth. Asesodd yr uned a bu'n cysylltu â thimau eraill ynghylch a ddylid cymryd unrhyw gamau.</p> <p>Ni wnaeth yr un o'r datgeliadau arwain atom yn cynnal ymchwiliad annibynnol.</p>
<p>Crynodeb o effaith y datgeliadau hyn ar ein gallu i gyflawni ein swyddogaethau neu gyflawni ein hamcanion</p>	<p>Dim effaith</p>

Amcan: perfformiad

Sefydliad sy'n darparu perfformiad uchel

Yr hyn rydym yn gobeithio'i gyflawni

1. Mae uwch arweinwyr yn gweithredu yn unol â'n gwerthoedd ac mae ganddynt gynllun clir ar gyfer y dyfodol.
2. Mae'r IOPC yn lle gwych i weithio i'n pobl.
3. Rydym yn datblygu galluoedd yn y dyfodol a fydd yn galluogi perfformiad uchel.
4. Byddwn yn gwneud defnydd deallus o wybodaeth a data.
5. Byddwn yn defnyddio ein hadnoddau mewn ffordd gost-effeithiol a chynaliadwy.

Mesur cynnydd yn erbyn ein nodau

Gwnaethom anelu at:

Gyflawni sgôr ymgysylltu â staff o 69% (fel y mesurwyd gan ein harolwg staff blynyddol).

Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom greu cynlluniau gweithredu o ganlyniad i'n harolwg pobl 2022. Roedd gwaith maes ar gyfer hyn wedi'i wneud ym mis Mawrth 2022 ac adroddwyd arno y llynedd. Daethom i'r casgliad, er mwyn galluogi cyfarwyddiaethau i gwblhau gwaith ar y cynlluniau gweithredu, y dylid cynnal gwaith maes ar gyfer yr Arolwg Pobl nesaf ym mis Hydref 2023. Felly ni allwn adrodd yn erbyn y targed hwn.

Sicrhau bod 80% o'n hymchwilyr, sydd wedi bod yn eu swyddi am o leiaf 24 mis, yn cyflawni achrediad.

Mae 92.5% o ymchwilyr sydd wedi bod yn eu swyddi am o leiaf 24 mis wedi cyflawni achrediad, sy'n fwy na'n targed o 80%.

Mae ymchwilyr sydd newydd eu penodi yn parhau i weithio'n galed i ennill statws achrededig. Mae ein rhaglen hyfforddi ymchwilyr achrededig annibynnol yn briodol heriol, gan adlewyrchu amrywiaeth cymhlethdod ein gwaith ymchwiliol.

Gwella cyfran ein pobl, gan gynnwys rheolwyr ac arweinwyr, o gefndir lleiafrifoedd ethnig tuag at gynrychiolaeth sy'n cyfateb i ddemograffeg ardaloedd trefol (fel y'i mesurwyd gan ddata cyfrifiad 2021).

Mae 16.7% o'n pobl o gefndir ethnig lleiafrifol, o'i gymharu â'n targed o 18%.

Rydym yn parhau i weithio'n galed i wella amrywiaeth ein gweithlu gan gynnwys trwy ddefnyddio gweithredu cadarnhaol yn gyfreithlon. Rydym yn cydnabod bod hwn yn ddyhead hirdymor oherwydd ein trosiant cymharol isel. O ganlyniad, rydym hefyd yn blaenoriaethu gwell cymhwysedd diwylliannol ar gyfer y gweithlu presennol, gan weithio mewn partneriaeth â'n rhwydweithiau rhagorol o gydweithwyr.

Mae gennym Reolwr Cyflawni Cydraddoldeb newydd sy'n gweithio ar recriwtio ochr yn ochr â'n tîm adnoddau dynol. Mae ein hysbysebion swyddi yn cael eu dwyn i sylw ymgeiswyr posibl o gefndir Du, Asiaidd neu leiafrifoedd ethnig (er bod y broses asesu yr un fath ar gyfer pob ymgeisydd).

Ein gwaith yn 2022/23

Ein pobl

Lles

Roedd ein harolwg pobl 2022 yn cydnabod bod cyrhaeddiad ac amrywiaeth ein darpariaethau lles yn cael eu gwerthfawrogi gan gydweithwyr. Oherwydd natur ein gwaith mae lles yn parhau i fod yn ffocws. Eleni fe wnaethom gyflwyno cwmselwyr LHDTTC+ i gynorthwyo cydweithwyr sy'n ymchwilio i droseddau casineb ac ar gyfer ein cydweithwyr LHDTTC+ yn gyffredinol.

Fe wnaethom hefyd gwblhau treial o wasanaeth newydd ar gyfer cydweithwyr y mae gofyn iddynt edrych ar ddeunyddiau trallodus fel rhan o'u swydd. Gwnaethom edrych ar effeithiolrwydd ymyriadau rheolaidd i leihau effaith y gwaith hwn ar yr aelod tîm. Buom yn canolbwyntio'n fawr ar orweithio yn 2022/23, gan gynnal gweithdai a sesiynau dysgu i helpu cydweithwyr i adnabod yr arwyddion rhybuddio a chymryd camau priodol.

Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

Nod ein hail raglen interniaeth (Aspiring Professionals) oedd denu cronfa amrywiol o bobl i ymgymryd â lleoliad gwaith cyflogedig am bedair wythnos. Roeddem yn falch iawn o groesawu derbyniad gwych, pob un ohonynt yn edrych ymlaen at y posibilrwydd o ymgeisio am rolau yn yr IOPC.

Gwerthuswyd ein rhaglen ôl-fentora gychwynnol a'n rhaglen gynghreiriaid eleni ac mae'r ddau wedi dod yn fentrau hirdymor yn dilyn cymeradwyo ein

strategaeth a'n cynllun cydraddoldeb yn llwyddiannus. Mae ein rhwydweithiau cydweithwyr yn mynd o nerth i nerth gyda'n rhwydwaith Pride/LGBTQ+ yn arwain diwrnod rhwydwaith hynod o effeithiol yn 2022.

Polisi Parchu a Gwybod y Llinell

Llynedd lansiodd ein polisi parch a'r rhaglen ddysgu bum mlynedd gysylltiedig 'Gwybod y Llinell', gan ganolbwyntio ar sut i herio sylwadau ac ymddygiad amhriodol yn y gweithle (yn fewnol ac yn allanol).

Eleni canolbwyntiodd yr ymgyrch ar rywiaeth. Cwblhaodd mwy na 95% o gydweithwyr y dysgu a helpodd bawb i ddeall ac adnabod effaith rhywiaeth yn y gweithle. Rhoddodd yr ymgyrch gyngor syml ar herio neu adrodd am ymddygiad amhriodol yn fewnol ac yn allanol.

Er bod ein harolwg pobl diwethaf wedi nodi gostyngiad arall mewn canfyddiadau o ymddygiad amhriodol ac aflonyddu, mae hwn yn faes lle rydym yn parhau i ganolbwyntio ar ddim goddefgarwch.

Datblygu arweinyddiaeth

Yn ystod y flwyddyn mynychodd pob arweinydd IOPC ddigwyddiad datblygu arweinyddiaeth a gweithio ar gynllun datblygu arweinyddiaeth wedi'i deilwra'n unigol. Roedd y rhain yn seiliedig ar adborth manwl gan gydweithwyr a chymheiriaid ac amrediad o ymarferion a arsylwyd. Mae hyn yn cynorthwyo ein gwaith i wreiddio Siarter Arweinyddiaeth yr IOPC

Yn Rhagfyr fe wnaethom lansio rhaglen ddysgu gyfunol bwrpasol ar gyfer holl reolwyr newydd yr IOPC, gan ddefnyddio cymysgedd o gynnwys digidol a byw. Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar faterion hollbwysig i reolwyr yn yr IOPC megis rheoli perfformiad, lles staff, newid ac arwain trwy werthoedd yr IOPC.

Gweithio hybrid

Yn ystod y flwyddyn, cymeradwywyd ein polisi gweithio hybrid yn seiliedig ar fframwaith anghenion busnes sy'n caniatáu i gydweithwyr gyfuno gweithio gartref ac o swyddfa. Nid oedd unrhyw dystiolaeth bod lefel yr hyblygrwydd, a ddatblygwyd yn ystod y pandemig, wedi niweidio cynhyrchiant. Datgelodd arolygon cydweithwyr a grwpiau ffocws fod gwell hyblygrwydd wedi gwella tueddiad cydweithwyr i aros gyda'r sefydliad

Y gweithlu ymchwiliol

Ar ddechrau'r flwyddyn fe wnaethom gynnal ymchwil gyda'n gweithlu Ymchwilwyr Arweiniol i ddeall achosion athreuliad uwch na'r arfer, yn enwedig yn Llundain a De Ddwyrain Lloegr. Roedd nifer o achosion, gan gynnwys secondio cydweithwyr i raglenni gwaith amrywiol o fewn Gweithrediadau a phenderfyniad hanesyddol i hyfforddi llai o ymchwilwyr. Roedd hefyd yn amlwg

fod cyflog ymchwilyr wedi disgyn y tu ôl i rolau cyfatebol mewn rhannau eraill o'r sector cyhoeddus.

Cyflwynwyd amrediad o fentrau gan gynnwys cyflwyno rôl uwch ar gyfer ymchwilyr arweiniol profiadol. Roeddem hefyd yn bryderus am lwybr gyrfa'r ymchwilydd i'n Huned Gwrth-lygredd. Roeddem fel arfer wedi recriwtio'n allanol, ond mae rhaglen ddatblygu newydd yn galluogi cydweithwyr o ymchwiliadau rhanbarthol i gael mynediad i'r maes gyrfa arbenigol hwn.

Roedd 2022/23 yn flwyddyn brysur o ran recriwtio, yn enwedig ar gyfer ymchwiliadau, wrth i ni groesawu mwy na 70 o gydweithwyr newydd i'n rhaglenni hyfforddi ymchwilyr.

Trawsnewid ein TGCh

Bydd rhai o'r prosiectau sy'n ymwneud â'n strategaeth newydd yn rhychwantu mwy na blwyddyn, ond cwblhawyd sawl un yn 2022/23.

Enillodd yr IOPC achrediad Cyber Essentials Plus, gan roi llinell sylfaen glir ac archwiliedig i'r sefydliad o'n hamddiffyniadau seiber presennol. Mae'r safonau ar gyfer yr achrediad hwn yn cael eu gosod gan y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol, sy'n rhan o Bencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth (GCHQ).

Cyflwynwyd System Perthynas â Rhanddeiliaid, gan ddisodli technoleg hŷn a gosod y sylfeini ar gyfer gwell cyfathrebu â rhanddeiliaid yr IOPC.

Fe wnaethom ryddhau fersiwn gychwynnol o'n Warws Data Menter, a fydd yn ein galluogi i ddod â ffynonellau data lluosog at ei gilydd at ddibenion dadansoddi ac adrodd. Bydd hyn yn rhoi llwyfan cadarn i ni ar gyfer datblygu yn y dyfodol.

Lansiwyd nifer o gymwysiadau Microsoft 365 i'r busnes, er mwyn moderneiddio ein hamgylchedd gwaith a'n dull o reoli gwybodaeth.

Yn olaf, rydym yn falch o fod wedi recriwtio'r aelod cyntaf o'n tîm llywodraethu data newydd, ac mae recriwtio ychwanegol yn parhau.

Cwynion amdanom ni

Mae llawer o bobl sy'n rhyngweithio â ni yn delio â digwyddiadau sy'n achosi straen, sy'n golygu bod ein staff yn aml yn gweithredu mewn amgylchiadau anodd. Er gwaetha'n hymdrechion gorau, rydym yn cydnabod bod pethau'n mynd o'u lle weithiau. Er mwyn rheoli hyn, mae gennym weithdrefn gwynion.

Yn ystod 2022/23 fe wnaethom dderbyn cyfanswm o 352 gwynion o gymharu â 284 o gwynion llynedd. Mae hyn yn cynnwys tair cwyn yn erbyn ein

Cyfarwyddwr Cyffredinol (DG). Gwnaethom ymdrin â 322 o gwynion o fewn 20 diwrnod gwaith a'n hamser ymateb cyfartalog oedd 11 diwrnod gwaith. Fe wnaethom gadarnhau 98 o gwynion ac roedd 2 ymchwiliad i gŵyn ar fynd o hyd ar ddiwedd y flwyddyn.

Mae ein tîm Cwynion ac Adborth yn ymdrin â chwynion amdanom yn unol â'n Polisi Cwynion ac Adborth. Mae cwynion am ein gwasanaeth yn cael eu hasesu o dan y polisi hwn a, lle bo'n briodol, yn cael eu hanfon ymlaen at y rheolwr(wyr) llinell perthnasol. Gofynnir i'r rheolwr adolygu'r gŵyn ac ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith.

Pan fyddwn yn asesu bod cwyn yn ddigon difrifol, rydym yn ymchwilio iddi yn unol â'n Polisi Disgyblu a Diswyddo. Yna caiff y canlyniad ei adolygu gan yr uwch reolwr priodol sy'n penderfynu ar y camau gweithredu mwyaf addas.

Pan fyddwn yn nodi gwersi a ddysgwyd o gwynion, rydym yn rhannu hyn yn fewnol i helpu i lunio a gwella ein gwasanaeth. Lle mae'r gŵyn yn ymwneud â'n Safonau Gwasanaeth ac y gallwn wneud yn well, rydym yn gwneud cofnod ac yn cymryd y camau priodol.

Ymdrinnir â chwynion yn erbyn y Cyfarwyddwr Cyffredinol, yr Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol (SID) a chyfarwyddwyr anweithredol (NEDs) o dan ein Polisi Gwneud Cwynion am Gyfarwyddwr Cyffredinol, Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol a Chyfarwyddwyr Anweithredol yr IOPC. Rheolir y cwynion hyn gan Bennaeth y Swyddfa Breifat, sy'n neilltuo unigolyn priodol i ymdrin â'r gŵyn, yn unol â'r polisi.

Yn ystod 2022/23 cawsom dair cwyn o dan y polisi hwn. Roedd y rhain yn ymwneud â thri yn erbyn y DG. Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn erbyn yr NEDs na'r SID. Mae hyn yn cymharu â naw cwyn o dan y polisi hwn yn y flwyddyn flaenorol (saith yn erbyn y Cyfarwyddwr Cyffredinol, un yn erbyn y NEDs ac un yn erbyn y SID). Roedd cwynion 2022/23 yn ymwneud â materion nad oedd gan y DG awdurdodaeth drostynt, a honiad didystiolaeth o gamymddwyn drwy ganiatáu i staff yr IOPC dorri *Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011*. O ganlyniad, ni chadarnhawyd y tair cwyn. Gwnaethom ymdrin ag un gŵyn o fewn 20 diwrnod gwaith a'n hamser ymateb cyfartalog oedd 25 diwrnod.

Adroddiad cynaliadwyedd

Mae'r adran hon yn nodi effaith bresennol yr IOPC ar yr amgylchedd gan ystyried allyriadau nwyon tŷ gwydr, lleihau a rheoli gwastraff, defnydd dŵr, a chaffael cynaliadwy. Mae'r wybodaeth hon yn bodloni gofynion Canllawiau Trysorlys EM 2022/23, Canllawiau Adrodd ar Gynaliadwyedd.

Nid oes cynllun gweithredu bioamrywiaeth gan nad yw hyn yn berthnasol i'n swyddogaethau. Nid yw adroddiad blynyddol Ymrwymadau Gwyrddu'r Llywodraeth a gyhoeddwyd gan DEFRA yn datgelu ffigurau manwl ar gyfer yr IOPC ac felly nid ydym wedi gallu cysoni'r adroddiad blynyddol hwnnw â'r ffigurau cyfnod blaenorol a ddangosir isod.

Dychwelyd i'r swyddfa, ar ôl pandemig

Yn ystod y flwyddyn 2022/23 rydym wedi parhau i wreiddio ein harferion gwaith hybrid ledled ein swyddfeydd lle mae staff yn mynychu'r swyddfa ar sail 'angen busnes' ac rydym wedi gweld mwy o ddeiliadaeth swyddfa wrth i ni ddychwelyd i arferion busnes fel arfer ar ôl diwedd y cyfnod pandemig.

Rydym wedi parhau i adolygu a gwella cywirdeb y data cynaliadwyedd a ddarparwyd ar draws ein hystâd sydd wedi cyfrannu at amrywiadau yn rhai o'n data a byddem yn amlygu'r canlynol:

- Mae'r defnydd o drydan wedi gostwng o 21/22 oherwydd gostyngiadau yn y gofod swyddfa a gwelliannau mewn adeiladu systemau mecanyddol a thrydanol yn rhai o'n hadeiladau.
- Mae'r defnydd o nwy a dŵr wedi cynyddu o ganlyniad i well casglu data a mwy o ddefnydd o staff yn ein swyddfeydd.
- Mae ffigurau allyriadau teithio wedi cynyddu – yn rhannol oherwydd gwell prosesau casglu data (er enghraifft, rydym nawr yn cynnwys ffigurau ar gyfer llogi ceir a milltiroedd tacsï wedi'u harchebu o flaen llaw) ond hefyd oherwydd cynnydd mewn teithio'n gyffredinol ar draws y sefydliad.
- Er gwaethaf nifer o warediadau WEE o offer TG diangen neu sydd wedi torri trwy gydol y flwyddyn, bu gostyngiad bach yn ein ffigurau gwastraff. Yn ogystal, mae cywirdeb y data a adroddwyd yn ein swyddfa yn Canary Wharf wedi'i wella drwy gyflwyno cyflenwr gwaredu gwastraff cyfrinachol newydd sydd wedi'i gontractio i bwysu'r gwastraff wrth ei gasglu (yn hytrach nag adrodd ar amcangyfrifon).
- Mae peiriant oeri newydd wedi'i osod yn ein swyddfa yn Warrington ac mae gwaredu nwy fflworin o'r system segur wedi'i gynnwys yn ein hadroddiad.

Allyriadau nwyon tŷ gwydr (tCo2e)	2020/21	2021/22	2022/23
Cwmpas allyriadau gros 1	153	106	174
Cwmpas allyriadau gros 2	861	204	189
Cwmpas allyriadau gros 3	126	60	91
Cyfanswm allyriadau	1140	370	454

Canllaw i fathau o allyriadau:

- Daw allyriadau Cwmpas 1 o ffynonellau y mae'r IOPC yn berchen arnynt neu'n eu rheoli, megis cerbydau a boeleri.
- Daw allyriadau Cwmpas 2 o ynni a ddefnyddir gan yr IOPC, ond a brynwyd gan gyflenwyr allanol, megis trydan.
- Mae allyriadau Cwmpas 3 yn ymwneud â ddŵr a ddefnyddiwyd, papur a brynwyd a theithio busnes swyddogol (gan gynnwys teithiau awyr rhyngwladol sydd o fewn yr IOPC yn ddibwys).

Defnydd nwy	2020/21	2021/22	2022/23
Oriau cilowat	999,183	285,307	348,929

Cilogramau o wastraff	2020/21	2021/22	2022/23
Wedi'i anfon i safle tirlenwi	40	-	-
Ailgylchu	6,906	21,685	18,409
Lloggi	-	707	673
Adfer Ynni Lloggi	-	4,583	5,890
Cyfanswm gwastraff	6,946	26,975	24,972

Defnydd o ddŵr	2020/21	2021/22	2022/23
Metrau ciwbig a ddefnyddiwyd	8,236	2,062	2,781
Gwariant ar y defnydd o ddŵr	£12,437	£5,047	£5,524

Gwariant ar ynni a gwaredu gwastraff	2020/21	2021/22	2022/23
Ynni a brynwyd, gan gynnwys teithio	£417,952	£373,739	£690,696
Costau tirlenwi	n/a	n/a	n/a

Costau ailgylchu	£4,498	£8,449	£34,516
Costau Llosgi	-	-	-

Nid oes gennym fynediad at gostau llosgi, gan eu bod wedi'u cynnwys mewn taliadau landlordiaid.

Papur wedi'i brynu	2020/21	2021/22	2022/23
Bocsys A4	143	154	68
Bocsys A3	2	4	1

Canran o gerbydau wedi'u categorieddio fel allyriadau isel iawn.	2020/21	2021/22	2022/23
Ceir fflyd	-	-	-
Ceir llogi	-	-	-

Prynwyd ein fflyd o geir cyn mis Mawrth 2021 ac felly nid ydynt yn bodloni'r safonau allyriadau isel iawn diweddaraf. Fodd bynnag, mae 43% o'n ceir fflyd yn gerbydau hybrid a thrwy ein darparwr gwasanaeth, cynllun EcoPoint cerdyn tanwydd Allstar, mae coed yn cael eu plannu ar sail y defnydd o danwydd. Eleni rydym wedi gwrthbwysu 382,500 cilo o CO₂ drwy'r cynllun hwn.

Adeiladu cynaliadwy	2020/21	2021/22	2022/23
Cost	n/a	n/a	-

Caffael cynaliadwy

Ein polisi caffael cynaliadwy yw sicrhau ein bod yn bodloni ein hanghenion am nwyddau, gwasanaethau, gwaith a chyfleustodau mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ar sail oes gyfan. Wrth hyn rydym yn golygu creu buddion nid yn unig i'r IOPC, ond hefyd i gymdeithas a'r economi, tra'n lleihau difrod i'r amgylchedd.

Camau a gymerwyd yn ystod 2022/23 i wella perfformiad cynaliadwyedd yr IOPC

Fel rhan o'n gwaith Ystadau rydym yn parhau i asesu ein swyddfeydd ar gyfer cyfleoedd gwella posibl yn unol â Net Sero ac yn fwy diweddar rydym wedi cwblhau Arolygon Carbon Isel yn ein swyddfeydd yn Wakefield a Sale.

Mae system oeri adeilad 22 oed yn Warrington wedi'i ddisodli gan system newydd a fydd yn gwella effeithlonrwydd ynni'r adeilad, yn yr un modd mae'r landlord wedi gosod system aerdymheru newydd yn ein swyddfa yn Birmingham, sy'n caniatáu gwell rheolaethau ar osodiadau a thymheredd ac ati.

Yn Warrington mae'r holl oleuadau (gan gynnwys rhai brys) wedi'u disodli gan oleuadau LED.


Yn ein swyddfa yng Nghaerdydd, mae'r landlord wedi gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar y safle i bob tenant eu defnyddio ac rydym yn parhau i adolygu sut y gallwn osod tebyg yn ein swyddfa yn Birmingham.

Mae natur ein gwaith ymchwiliol yn golygu mai anaml y ceir dewis arall yn lle defnyddio cerbyd a gwyddom eu bod yn cyfrannu at ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

Ein strategaeth ar gyfer y dyfodol

Rydym wedi ymrwmo i leihau ein heffaith ar yr amgylchedd yn unol ag Ymrwymïadau Gwyrddu'r Llywodraeth (GGC) a byddwn yn parhau â'n hymdrechion i gyfyngu ar ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr.

Ein prif ddangosydd perfformiad allweddol ar gyfer cynaliadwyedd yw cadw'n unol ag Ymrwymïadau Gwyrddu'r Llywodraeth ac adrodd ar y lefelau a osodwyd gan Ganllawiau Trysorlys EM. Ein nod yw cadw ein lefel o Co2 a gynhyrchir fesul cyflogai ar ei lefel bresennol neu ei leihau.



Tom Whiting

Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro
26 Ionawr 2024

Adran 2: Adroddiad atebolrwydd

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Esbonnir rôl y Bwrdd Unedol, y Pwyllgorau a'r Bwrdd Rheoli yn y datganiad Llywodraethu mewn rhan arall o'r adroddiad hwn.

Y Bwrdd Unedol

Mae aelodau'r Bwrdd Unedol yn ystod 2022/23 i'w gweld yn y tabl isod.

Enw	Teitl	Nodiadau
Claire Bassett	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Gweithrediadau	Gadawodd 31 ^{ain} o Fai 2022
Miranda Biddle	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau	
Deborah Bowman ¹	Cyfarwyddwyr Anweithredol	
Katherine Cashell	Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith	
Christine Elliott	Cyfarwyddwyr Anweithredol	
Catherine Jervis	Cyfarwyddwyr Anweithredol	
Michael Lockwood	Cyfarwyddwr Cyffredinol	Gadawodd 2 Rhagfyr 2022
William Matthews	Cyfarwyddwyr Anweithredol	
Rommel Moseley	Cyfarwyddwyr Anweithredol	
Julia Mulligan	Uwch Gyfarwyddwr Annibynnol	
Amanda Rowe	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau	

¹ Dyddiad olaf gwasanaeth Deborah Bowman oedd 25 Ebrill 2023.

Tom Whiting ²	Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro	
--------------------------	----------------------------------	--

Y Bwrdd Rheoli

Mae aelodau'r Bwrdd Unedol yn ystod 2022/23 i'w gweld yn y tabl isod.

Enw	Teitl	Nodiadau
Claire Bassett	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Gweithrediadau	Gadawodd 31o Fai 2022
Miranda Biddle	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau	
Liz Booth	Cyfarwyddwr, Pobl	
Katherine Cashell	Cyfarwyddwr, Strategaeth ac Effaith	
David Emery	Cwnsler Cyffredinol	
Michael Lockwood	Cyfarwyddwr Cyffredinol	Gadawodd 2 Rhagfyr 2022
Amanda Rowe	Cyfarwyddwr, Gweithrediadau	
Tom Whiting	Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro ³ Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol	

Cofrestr buddiannau

Mae cofrestr â manylion am gyfarwyddiaethau cwmni neu fuddiannau arwyddocaol eraill sydd gan aelodau'r Bwrdd Unedol a holl Gyfarwyddwyr yr IOPC ar gael ar ein gwefan. Gellir ei chael yn ysgrifenedig gan Ysgrifennydd Llywodraethiant yr IOPC yn 10 South Colonnade, Llundain, E14 4PU.

Rhyddid gwybodaeth a diogelu data

Mae'r IOPC yn cydymffurfio â Deddf Rhyddid Gwybodaeth (FOI) 2000, y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol, a Deddf Diogelu Data 2018.

² Penodwyd Tom Whiting yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro ar 4 Rhagfyr 2022.

³ Penodwyd Tom Whiting yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro ar 4 Rhagfyr 2022.

Mae gennym dîm hawliau gwybodaeth sefydledig, sef y pwynt cyswllt canolog ar gyfer prosesu pob cais am wybodaeth. Mae'r tîm yn sicrhau bod pob cais yn cael ei brosesu yn unol â rhwymedigaethau statudol cyfredol, polisïau, a gweithdrefnau mewnol. Mae'r tîm hefyd yn rhoi cyngor, arweiniad a chymorth i staff a rheolwyr ynghylch pob agwedd ar waith Rhyddid Gwybodaeth a diogelu data.

Mae'r tablau isod yn dangos y tueddiadau ym mherfformiad yr IOPC yn erbyn y terfynau amser statudol.

Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth	2022/23	2021/22	2020/21
Nifer a gwblhawyd	248	227	226
Wedi cwrdd â'r terfyn amser statudol	92%	91%	93%

Colledion data a sicrwydd gwybodaeth

Perchnogion Asedau Gwybodaeth yr IOPC sy'n gyfrifol am reoli a gweithredu asedau yn unol â'n polisïau ac am sicrhau bod rheolaethau ar waith i reoli risgiau'n briodol. Mae meysydd busnes yn ymchwilio i ddigwyddiadau sy'n ymwneud â data sy'n ymwneud â cholli, dwyn neu ddatgelu'n amhriodol ein gwybodaeth. Mae'r adroddiadau digwyddiad yn cael eu hadolygu gan y tîm diogelu data, sy'n penderfynu a ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer adrodd i'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO). Mae'r Uwch Berchennog Risg Gwybodaeth yn cael ei friffio'n rheolaidd ar y materion hyn ac ar y risgiau y mae angen mynd i'r afael â hwy trwy reolaethau ychwanegol.

Mae'r tablau isod yn dangos y tueddiadau ym mherfformiad yr IOPC.

Ceisiadau am wybodaeth	2022/23	2021/22	2020/21
Nifer a gwblhawyd	169	211	229
Wedi cwrdd â'r terfyn amser statudol	90%	85%	81%

Digwyddiadau data	2022/23	2021/22	2020/21
Nifer y digwyddiadau a adroddwyd i'r ICO	9	3	3
Angen gweithredu rheoleiddiol	-	-	-

Rhoddion elusennol

Trefnodd ein staff ddigwyddiadau codi arian i gefnogi amrediad o elusennau. Gwnaeth staff hefyd roddion personol i elusennau oherwydd rhoddion a dderbyniwyd yn ystod 2022/23. Cyhoeddir y rhain yn y gofrestr Rhoddion a Lletygarwch sydd [ar gael ar ein gwefan](#).

Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu


O dan baragraff 17(1) o Atodlen 2 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002, mae'n ofynnol i'r IOPC baratoi ar gyfer pob blwyddyn ariannol ddatganiad o gyfrifon ar y ffurf ac ar y sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Mae'r cyfrifon yn cael eu paratoi ar sail cronïadau ac mae'n rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa'r IOPC a'i incwm a gwariant, y Datganiad o Sefyllfa Ariannol, a'r llif arian ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r Swyddog Cyfrifo gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth ac yn benodol i:

- ddilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol, â chaniatâd y Trysorlys, gan gynnwys y gofynion cyfrifo a datgelu perthnasol, a defnyddio polisïau cyfrifo addas yn gyson;
- wneud dyfarniadau ac amcangyfrifon ar sail resymol;
- ddatgan a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys fel y'u nodir yn Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wyriadau perthnasol yn y datganiadau ariannol;
- baratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes byw; a
- chadarnhau bod yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn eu cyfanrwydd yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy a'u bod yn cymryd cyfrifoldeb personol am yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon a'r dyfarniadau sydd eu hangen i benderfynu ei fod yn deg, yn gytbwys ac yn ddealladwy.

Ar gyfer y flwyddyn dan sylw, dynododd y Swyddfa Gartref fi, yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, yn Swyddog Cyfrifo'r IOPC. Mae cyfrifoldebau Swyddog Cyfrifo, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r cyllid cyhoeddus y mae'r Swyddog Cyfrifo yn atebol amdano, am gadw cofnodion cywir ac am ddiogelu asedau'r IOPC wedi'u nodi yn Managing Public Money a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.

Fel y Swyddog Cyfrifo, rwyf wedi cymryd yr holl gamau y dylwn fod wedi'u cymryd i wneud fy hun yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i sefydlu bod archwilwyr yr IOPC yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Hyd y gwn i, nid oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw'r archwilwyr yn ymwybodol ohoni.



Tom Whiting
Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro
26 Ionawr 2024

Datganiad llywodraethu personol y Swyddog Cyfrifo ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023

Mae'r Datganiad Llywodraethu hwn yn ymwneud â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC). Cefais fy mhenodi'n Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro (DG) yr IOPC ar 4 Rhagfyr 2022 a fi yw ei Swyddog Cyfrifyddu. Roeddwn yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol drwy gydol 2021/22 a hyd at 3 Rhagfyr 2022. Cefais drosglwyddiad gan fy rhagflaenydd, Michael Lockwood, yn ogystal â sesiynau briffio gan Gyfarwyddwyr Gweithredol, a oedd yn cynnwys y sicrwydd priodol bod y system o reolaethau mewnol yn gadarn ac yn effeithiol cyn i mi gael fy mhenodi'n Swyddog Cyfrifo. Cadarnhaf hefyd fy mod wedi dilyn yr hyfforddiant perthnasol fel Swyddog Cyfrifo gydag atebolrwydd cyhoeddus.

Rwyf hefyd yn cadw fy rôl fel Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol, Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol ar hyn o bryd.

Fframwaith llywodraethiant

Mae'r fframwaith llywodraethiant yn cynnwys y systemau a'r prosesau a ddefnyddir i gyfarwyddo a rheoli'r sefydliad. Mae'n galluogi'r Bwrdd Unedol fel y corff llywodraethu i gyflawni ei swyddogaethau statudol:

- rhoi trefniadau priodol ar waith ar gyfer llywodraethu da a rheolaeth ariannol (i annog defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau)
- pennu a hyrwyddo nodau a gwerthoedd strategol yr IOPC
- darparu cymorth a chynghor i mi fel y Gyfarwyddwr Cyffredinol wrth gyflawni fy swyddogaethau
- monitro ac adolygu cyflawni swyddogaethau o'r fath.

Mae'r fframwaith yn fy nghynorthwyo fel y Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro a'r Bwrdd Unedol i baratoi strategaeth ar y cyd ar gyfer cyflawni ein priod swyddogaethau, a adolygir yn flynyddol. Y mae hefyd yn cynnwys Cod Ymarfer a baratowyd ar y cyd. Mae hyn yn mynd i'r afael â'r berthynas rhwng fy rôl i a'r Bwrdd Unedol, sy'n gorfod adlewyrchu'r egwyddor bod y Gyfarwyddwr Cyffredinol yn gweithredu'n annibynnol wrth wneud penderfyniadau mewn perthynas â chyflawni ei swyddogaethau.


Cynlluniwyd y system lywodraethu, rheolaeth fewnol a rheoli risg i reoli yn hytrach na dileu'r risg o fethu â chyflawni polisiau, nodau ac amcanion. Ni all, felly, ond darparu sicrwydd uchel, yn hytrach na sicrwydd llwyr, o effeithiolrwydd. Mae'r systemau y manylir arnynt yn y datganiad hwn wedi bod yn eu lle ar gyfer y flwyddyn dan sylw a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon.

Rwy'n gweithredu yn unol â Rheolau Sefydlog yr IOPC ac rwy'n atebol i Weinidogion ac i'r Senedd. Mae naill ai fy rhagflaenydd neu fi wedi cael cyfarfodydd â'r Ysgrifennydd Cartref a'r Gweinidog Gwladol dros Blismona a'r Gwasanaeth Tân drwy gydol y flwyddyn hyd yma. Adolygwyd effeithiolrwydd y sefydliad yn rheolaidd yn ystod y cyfarfodydd hyn. Sefydlwyd cyfarfodydd dwyochrog ag Uwch Noddwr y Swyddfa Gartref, a chyfarfodydd chwarterol â'r Uned Nawdd i drafod materion strategol, cyllidebol a gweithredol. Ni thrafodir unrhyw faterion a allai achosi risg i annibyniaeth y sefydliad wrth wneud penderfyniadau gweithredol.

Mae fframwaith rheolaeth fewnol y sefydliad yn seiliedig ar adolygiad o wybodaeth reoli reolaidd, gweithdrefnau gweinyddol, gan gynnwys gwahanu dyletswyddau, a system o ddirprwyo ac atebolrwydd. Fe'i cynllunir i reoli risgiau i gyflawni amcanion yn effeithlon ac yn ddarbodus.

Cefnogwyd y Bwrdd Unedol gan ddau Bwyllgor, y ddau'n cael eu cadeirio gan gyfarwyddwr anweithredol (NED). Dangosir y strwythur llywodraethu a oedd yn gweithredu yn y cyfnod a gwmpesir gan y datganiad hwn yn ffigur 1 ac fe disgrifir yn ffigur 2.

Ffigur 1



Ffigur 2

Y Bwrdd Unedol

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
<p>Michael Lockwood (DG) – hyd at 2 Rhagfyr 2022</p> <p>Tom Whiting Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro o 4 Rhagfyr 2022</p>	<p>Aelodau: DG, Pob un o'r 6 NED (cyfarwyddwyr anweithredol), Un o'r Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, yn ei dro Dirprwy DG (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol), Cyfarwyddwr Strategaeth ac Effaith.</p> <p>Yn bresennol: Cwnsler Cyffredinol, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Grŵp y Swyddfa Breifat, Ysgrifennydd Llywodraethiant.</p>	<p>Mae'r Bwrdd Unedol yn gyfrifol am gytuno ar strategaethau a chynlluniau a phennu'r dyraniad adnoddau. Mae cyfarfodydd y Bwrdd Unedol yn galluogi adolygiad rheolaidd o gynlluniau strategol ac adrodd yn erbyn eu cyflawniad. Mae'r Bwrdd Unedol hefyd yn adolygu o bryd i'w gilydd yr heriau mewnol ac allanol sy'n wynebu'r sefydliad a sut orau y gallai gwrdd â'r heriau hynny. Mae eitemau sefydlog ar ein perfformiad a'n sefyllfa ariannol.</p>

Pwyllgor Archwilio ac Asesiad Risg

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
<p>Catherine Jervis (NED)</p>	<p>Aelodau: 3 aelod NED. Catherine Jervis, Bill Matthews a Christine Elliott.</p> <p>Yn bresennol: DG, Dirprwy DG (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol), Un o'r Cyfarwyddwyr Gweithrediadau, Pennaeth Cyllid, Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth (GIAA) a'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO). Archwilio Allanol (BDO ac Azets) a Nawdd y Swyddfa Gartref (fel arsylwr). Cyfarwyddwyr a staff perthnasol eraill yn ôl yr</p>	<p>Mae'r ARAC yn cynorthwyo'r sefydliad a'r Swyddog Cyfrifo yn eu cyfrifoldebau am faterion risg, rheolaeth a llywodraethiant, a sicrwydd cysylltiedig. Mae'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon ar ran y Bwrdd Unedol.</p>

	angen, gan gynnwys yr Ysgrifennydd Llywodraethu.	
--	--	--

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Deborah Bowman (NED)	<p>Aelodau: 3 aelod NED (Deborah Bowman, Rommel Mosley & Julia Mulligan).</p> <p>Yn bresennol: DG, Dirprwy DG (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol), Cyfarwyddwr, Pobl, Un o'r Cyfarwyddwyr Gweithrediadau Ysgrifennydd Llywodraethiant.</p>	<p>Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn cytuno ar ran y Bwrdd ar y strategaeth tâl a gwobrau a chylch gwaith cyflog blynyddol y staff ac yn cytuno ar y cylch gwaith cyflog a gyflwynir i'r Ysgrifennydd Gwladol i'w gymeradwyo. Mae'r Pwyllgor hefyd yn ystyried ac yn cynghori ar gynigion y Cyfarwyddwr Cyffredinol ynghylch dyfarniadau dilyniant cyflog i bob cyfarwyddwr ac yn gwneud argymhellion ar archwiliad cyflog cyfartal blynyddol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn craffu ar y Strategaeth Pobl, materion lechyd a Diogelwch, effeithiolrwydd yr Arolwg Staff, unrhyw newidiadau a fyddai'n cael effaith fawr ar gynllunio'r gweithlu a chynlluniau i ddatblygu diwylliant sy'n seiliedig ar werthoedd.</p>

Y Bwrdd Rheoli

Cadeirydd	Presenoldeb	Rôl
Michael Lockwood (DG) – hyd at 02 Rhagfyr 2022	Aelodau: DG, Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Strategaeth & Gwasanaethau Corfforaethol, Cyfarwyddwr S&I, Cyfarwyddwr Pobl, Cwnsler Cyffredinol, a dau Gyfarwyddwr Gweithrediadau.	Mae'r Bwrdd Rheoli yn gyfrifol am gyflawni busnes y sefydliad yn weithredol. Mae'n cyfarfod yn ffurfiol bob mis gyda chyfarfodydd pwynt cyffwrdd yn fwy aml ddwywaith yr wythnos. Mae'n derbyn adroddiadau rheolaidd ar gyllid, perfformiad, cynllunio busnes a risg, i lywio ei benderfyniadau.
Tom Whiting Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro o 04 Rhagfyr 2022	Yn Bresennol: Pennaeth Cyllid (yn fisol, nid yn wythnosol), Pennaeth Cyfathrebu (yn wythnosol, nid yn fisol), a Grŵp Pennaeth y Swyddfa Breifat.	

Sylwch Yn ogystal ag amserlen ffurfiol y cyfarfodydd, galwyd sawl cyfarfod ychwanegol yn dilyn ymddiswyddiad Michael Lockwood i gytuno ar drefniadau dros dro gan gynnwys fy mhenodi fy hun yn Ddirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro.

Uchafbwyntiau gweithgareddau Pwyllgor y Bwrdd

Rôl y pwyllgorau yw cynorthwyo'r Bwrdd Unedol yn ei gyfrifoldebau dros faterion risg, rheolaeth, a llywodraethiant. Cyflawnir hyn trwy adolygu a monitro'r sicrwydd a roddir dros y meysydd hyn a chadarnhau dibynadwyedd a chywirdeb y rhain. Mae'r meysydd a adolygwyd gan y pwyllgorau yn ystod y flwyddyn hyd yma yn cynnwys y canlynol;

Pwyllgor Archwilio ac Aseiad Risg

- Risg strategol
- Gweithgarwch Archwilio Mewnol a monitro argymhellion
- Adolygu'r Cynllun Archwilio Mewnol
- Adnoddau
- Cwynion am yr IOPC
- Diweddariadau achos cyfreithiol
- Dirprwyo a datganiadau ariannol

- Defnydd o'r polisi mynegi pryderon Polisi Lleisio Pryderon
- Strategaeth TGCh
- Diweddariadau Rhaglen TGCh a Seiberddiogelwch
- Cynnydd ar Safonau Gweithredol y Llywodraeth
- Twyll a Cholledion
- Cwynion difrifol
- Plymio'n ddwfn – Risg Gorfforaethol a Gweithredol
- Fframwaith Rheoli Perfformiad
- Strategaeth Ystadau

Pwyllgor Pobl a Diwylliant

- Strategaeth Pobl
- Strategaeth & Pholisi EDI (Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad)
- Fframwaith sicrwydd gweithlu
- Adolygiad Arolwg Staff
- Aelodaeth Stonewall
- Bwlch cyflog rhwng y Rhywiau ac Ethnigrwydd
- Cadw Ymchwilydd Arweiniol
- Polisi, cyfrifoldeb & threfniadau lechyd a Diogelwch
- Plymio'n Ddwfn – Trosiant – Cadw'r Prif Ymchwilydd
- Datganiad Gwrth-hiliol
- Cynllun Gweithredu Arolwg Staff yr IOPC
- Briffio Nawr a Nesaf

Mae pob pwyllgor yn gwerthuso ei waith ac yn cynhyrchu adroddiad effeithiolrwydd blynyddol.

Perfformiad y Bwrdd

Gan weithio gyda phartner allanol, ymgwymerodd y Bwrdd â darn o waith datblygu â ffocws a ddechreuodd ym mis Chwefror 2022 ac yn dilyn hynny cynullodd grŵp gorchwyl a gorffen yn cynnwys rhai o'i aelodau i archwilio opsiynau a gwneud argymhellion yn ôl i'r Bwrdd llawn. Diben y dull hwn oedd sicrhau y gallai ymgorffori ei ddysgu o ganlyniad i'r broses a nodi camau gweithredu diriaethol mewn pryd. Gwnaeth y grŵp gorchwyl a gorffen saith argymhelliad, a derbyniwyd pob un ohonynt. Roedd y rhain yn cynnwys, er enghraifft, creu cylch gorchwyl ar gyfer y Bwrdd, i gyd-fynd â'r Rheolau Sefydlog a'r Cod Ymarfer presennol yn ogystal â rhoi mwy o sicrwydd bod ein gwerthoedd yn llywio ein gwaith.

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, trefnwyd bod agendâu a phapurau cyfarfodydd ar gael cyn cyfarfodydd. Roedd papurau'n darparu digon o wybodaeth a thystiolaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau cadarn, gan gynnwys cyfeiriad at risg, ariannol, cyfreithiol, rhanddeiliaid allanol, ac unrhyw oblygiadau amrywiaeth a nodwyd.

Ansawdd y data a ddefnyddir gan y Bwrdd

Roedd cyfarfodydd Bwrdd yr IOPC yn ymdrin ag amrywiaeth o bynciau i gynorthwyo rhedeg y sefydliad a chyflawni ein hamcanion, megis perfformiad, adnoddau, ac adrodd ar risg, ynghyd â diweddariadau gan is-bwyllgorau. Darparodd y swyddfa weithredol wasanaeth ysgrifenyddol cynhwysfawr i'r bwrdd a'i is-bwyllgorau i sicrhau bod y bwrdd a'i weithgareddau yn cael eu gweinyddu'n effeithiol ac yn effeithlon. Rhoddwyd papurau bwrdd o ansawdd uchel i'r bwrdd cyn pob cyfarfod i'w helpu i wneud penderfyniadau gwybodus.

Mae Ffigur 3 yn dangos presenoldeb Cyfarwyddwyr Gweithredol ac Anweithredol yng nghyfarfodydd y Bwrdd Unedol a Phwyllgorau.

Ffigur 3 - Presenoldeb y Bwrdd Unedol a Phwyllgorau

Enw	Rôl	Y Bwrdd Unedol	ARAC	Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Michael Lockwood	Cyfarwyddwr Cyffredinol	7/7		
Catherine Jervis	Cyfarwyddwyr Anweithredol	11/11	3/4	
Bill Matthews	Cyfarwyddwyr Anweithredol	9/11	3/4	
Deborah Bowman	Cyfarwyddwyr Anweithredol	7/11		3/3
Christine Elliott	Cyfarwyddwyr Anweithredol	11/11	4/4	
Rommel Moseley	Cyfarwyddwyr Anweithredol	11/11		3/3
Julia Mulligan	Cyfarwyddwyr Anweithredol	11/11		3/3
Kathie Cashell	Cyfarwyddwr	11/11		
Tom Whiting	Dirprwy Gyfarwyddwr Cyffredinol (Strategaeth a Gwasanaethau Corfforaethol)	10/11		

Enw	Rôl	Y Bwrdd Unedol	ARAC	Pwyllgor Pobl a Diwylliant
Miranda Biddle* (Arsylwr Hydref-Rhagfyr)	Cyfarwyddwr	10/11		
Amanda Rowe* (Arsylwr Ebrill-Medi)	Cyfarwyddwr	11/11		

Mae Ffigur 3 yn manylu ar bresenoldeb aelodau. Mae'r ardaloedd llwyd yn dangos nad yw'r unigolyn a enwir yn aelod o'r pwyllgor rhestredig, ond ei fod yn mynychu yn ei rôl Weithredol. Mynychodd Michael Lockwood bob cyfarfod o ARAC a'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant yn rhinwedd ei swydd fel Cyfarwyddwr Cyffredinol.

* Mynychodd Miranda Biddle ac Amanda Rowe bob cyfarfod, ond dim ond un ohonynt oedd yn bresennol fel sylwedydd ym mhob cyfarfod.

Gwrthdaro buddiannau

Mae Polisi Gwrthdaro Buddiannau'r IOPC yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl staff ddatgan unrhyw wrthdaro posibl wrth iddynt godi (sylwch fod ein Cyfarwyddwyr Anweithredol yn ddarostyngedig i God Ymddygiad Swyddfa'r Cabinet). Yn ogystal, mae staff ymchwilio yn cael eu hatal rhag gweithio ar ymchwiliadau lle mae ganddynt ddi-ddordebau blaenorol. Ystyrir bod ein Polisi Gwrthdaro Buddiannau yn gymesur â'r risg canfyddedig i'n didueddrwydd.

Mae'n ofynnol i aelodau Bwrdd yr IOPC ddatgan unrhyw fuddiannau personol neu fusnes a allai ddylanwadu ar eu barn, neu y gellir eu gweld, wrth gyflawni eu dyletswyddau yn barhaus ac o flaen cyfarfodydd os yw'n briodol. Mae eitem sefydlog ar agenda cyfarfodydd y Bwrdd a Phwyllgorau yn gwneud darpariaeth i fynychwyr ddatgan unrhyw fuddiannau o'r fath. Gwnaed datganiadau gan aelodau yn ystod y flwyddyn yn unol â'r gweithdrefnau hyn a chymerwyd camau priodol i reoli gwrthdaro buddiannau.

Cyhoeddir y gofrestr buddiannau ar gyfer aelodau'r Bwrdd Unedol, y Cwnsler Cyffredinol, Cyfarwyddwr Cymru, a Chyfarwyddwyr Rhanbarthol ar-lein.

Adroddiad llywodraethu corfforaethol

Rwyf wedi adolygu'r Cod Llywodraethu Corfforaethol sydd ar waith ar gyfer adrannau llywodraeth ganolog. Er ei fod wedi'i gyfeirio at adrannau gweinidogol yn hytrach na chyrrff cyhoeddus anadrannol, mae'r Cod yn darparu arfer gorau ar drefniadau llywodraethu corfforaethol. Lle ystyrir eu bod yn berthnasol, mae'r sefydliad wedi cydymffurfio ag egwyddorion y cod.

Strategaeth a diwylliant

Yn 2022 lansiodd ein hail Gynllun Strategol, o'r enw 'Meithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona'. Mae'n nodi ein gweledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r strategaeth ar gyfer ei chyflawni, gan egluro ein blaenoriaethau a'r hyn y gobeithiwn ei gyflawni ym mhob un o'r meysydd hynny. Mae hefyd yn nodi'r camau y byddwn yn eu cymryd dros y blynyddoedd i ddod a sut y byddwn yn mesur llwyddiant. Mae'n gynllun uchelgeisiol gyda'n nod dros y blynyddoedd i ddod i feithrin ymddiriedaeth a hyder mewn plismona trwy arolygiaeth gadarn, annibynnol. Gwnaed gwaith helaeth i gyfleu ein strategaeth newydd i uwch arweinwyr, rhanddeiliaid allanol a staff gan gynnwys ym mhob digwyddiad staff.

Yn ogystal, rydym wedi datblygu cynllun ariannol tymor canolig i sicrhau bod y strategaeth yn fforddiadwy ar ôl ystyried yr arbedion effeithlonrwydd a'r arbedion angenrheidiol i fuddsoddi yn yr amcanion strategol ac mae gwaith wedi parhau drwy'r flwyddyn i adolygu'r cynllun a sicrhau bod y strategaeth yn fforddiadwy.

Amlygodd ein harolwg staff diwethaf, a gynhaliwyd ym mis Mawrth 2022, nad oedd dealltwriaeth o'n strategaeth mor uchel ag yr hoffem, a arweiniodd at gyfathrebu helaeth ar draws y sefydliad â'r nod o gynyddu lefel y ddealltwriaeth. Mae ein sgôr ymgysylltu â staff cyffredinol yn dda ar 67 y cant, a sgôr ymdeimlad o gynhwysiad a thriniaeth deg ar 86 y cant, gydag 84 y cant o staff hefyd yn cytuno bod y sefydliad yn gweithredu yn unol â'n Cod Ymddygiad. Mae saith deg wyth y cant o staff yn teimlo y gallant godi llais os ydynt yn pryderu am unrhyw ymddygiad amhriodol yn y gweithle.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod ein strategaeth newydd yn ei gwneud yn ofynnol i ni gydweithio'n fwy effeithiol a bod gennym fwy o waith i'w wneud o hyd i sicrhau bod hyn yn digwydd. Agwedd allweddol ar hyn yw arweinyddiaeth y sefydliad ac i gynorthwyo hyn rydym wedi datblygu Rhaglen Datblygu Rheolwyr Newydd ar gyfer rheolwyr sydd newydd gael dyrchafiad neu reolwyr sydd wedi'u recriwtio. Yn ogystal, mae ein Rhwydwaith Arweinyddiaeth Corfforaethol sy'n cynnwys holl uwch arweinwyr yr IOPC yn cyfarfod yn rheolaidd, ac mae'r agenda wedi cynnwys nifer o ddigwyddiadau hyfforddi sy'n canolbwyntio ar gyflawni strategaeth a newid ynghyd â Chanolfan Datblygu Arweinyddiaeth.

Materion

Roedd trosiant staff yn sefydlog, bu gostyngiad bach ar gyfer cydweithwyr ymchwiliol yn dilyn blwyddyn heriol y llynedd. Roedd ein strategaethau denu talent yn llwyddiannus ar y cyfan, er bod rhai swyddi yn ein swyddogaeth TGCh yn arbennig o heriol a bod y farchnad ar gyfer cydweithwyr uwch ac arbenigwyr pwnc yn dynnach. Roedd canlyniadau ein harolwg pobl yn dangos cynnydd sylweddol ychwanegol yn ein mynegai ymgysylltu â staff ac yn dangos darlun morâl yn gwella yn y rhan fwyaf o feysydd er bod rhywfaint o amrywiadau

rhanbarthol ac adrannol. Roeddem yn arbennig o falch bod 93% o gydweithwyr yn teimlo bod ganddynt y sgiliau i wneud eu gwaith yn effeithiol tra bod 94% yn teimlo eu bod yn ymddiried ynnddynt i wneud eu gwaith.

Rydym yn parhau i fonitro tair her strategol wrth gyflawni ein strategaeth gorfforaethol a chynlluniau busnes blynyddol. Mae'r rhain yn gyflawnadwyedd effeithiol, fforddiadwyedd a galw a chymhlethdod ein gwaith gweithredol.

Mae gwaith wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn i ddatblygu ein hymateb i gyflawni'r newid sy'n ofynnol ar gyfer ein strategaeth a chafodd ei gymeradwyo gan y Bwrdd Unedol ym mis Chwefror. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno Bwrdd Cyflawni Newid newydd i oruchwylio'r gweithgarwch newid allweddol sydd ei angen i gyflawni'r strategaeth. Cynhelir cyfarfod cyntaf y Bwrdd ym mis Ebrill. Fe wnaethom hefyd nodi'r angen am allu ychwanegol i gyflawni'r newidiadau hynny yn y ffordd orau a sicrhau bod buddion yn cael eu gwireddu'n llawn. Rydym yn gwneud gwaith ychwanegol i gryfhau yn y maes hwnnw drwy gysylltu ag ALBs eraill (cyrff hyd braich) i ddeall arfer da a datblygu dull sefydliadol o reoli newid.

Mae materion yn ymwneud ag ymddiriedaeth a hyder yn yr heddlu a system gwynion yr heddlu wedi parhau trwy gydol y flwyddyn ac wedi cael eu codi yn ein Harolygon Canfyddiadau Cyhoeddus (PPT) ac arolygon rhanddeiliaid. Mae hyn yn debygol o fod oherwydd achosion proffil uchel o gamymddwyn yr heddlu, yn ogystal ag adolygiadau fel adroddiad fetio HMICFRS a gwaith y Farwnes Casey sydd wedi effeithio ar y canlyniadau hyn. Bydd Strategaeth Gyfathrebu ac Ymgysylltu newydd yn ceisio mynd i'r afael â hyn drwy godi ymwybyddiaeth o'r IOPC a gwell sefyllfa o ran egluro ein hannibyniaeth, ein rôl, ac effaith ein gwaith.

Mae galw a chymhlethdod ein gwaith gweithredol wedi cynyddu, gan roi mwy o bwysau ar Weithrediadau. Rydym yn parhau i ddisgwyl cynnydd mewn atgyfeiriadau oherwydd sylw sylweddol yn y cyfryngau ar ymddygiad yr heddlu. Mae perfformiad ymchwiliadau wedi gorffen y flwyddyn â pherfformiad uwchlaw'r targed ar gyfer ymchwiliadau craidd yn cael ei gwblhau mewn 12 mis (89%) a 6 mis (38%). Hefyd, mae cynnydd da wedi'i wneud ar gwblhau adolygiadau o dan y targed o 150 diwrnod gwaith i 119 diwrnod gwaith. Mae hyn oherwydd gwaith yn y Cynllun Trawsnewid Gweithrediadau Cenedlaethol (NOTP) sy'n parhau i wella perfformiad yn ôl i'r targed gwreiddiol. Mae'r gwaith hwn ar y trywydd iawn ar hyn o bryd i gyflwyno'r buddion a ragwelir a rheoli'r galw cynyddol. Mae'r prosiect arall i reoli'r galw a gwella ein gwasanaeth o'r rhaglen Gwella Cyflawniad Gweithredol (IOD) wedi gweld oedi wrth gychwyn sydd wedi rhoi pwysau ar yr amserlen i ryddhau effeithlonrwydd a chefnogi Gweithrediadau i reoli pwysau galw a chapasiti. Fodd bynnag, byddwn yn datblygu hyn ymhellach yn 2023/24.

Mae Adolygiad Annibynnol wedi cychwyn, fel rhan o Raglen Adolygu Swyddfa'r Cabinet. Mae hwn yn adolygiad cyfnodol i edrych ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y sefydliad a bydd yn cael ei gwblhau yn 2023/24.

Mae cyfeiriadau at ein huned asesu wedi parhau i gynyddu dros y flwyddyn ddiwethaf ac maent ar y lefel uchaf erioed. Yn ôl y disgwyl, ac fel yr adroddwyd yn flaenorol, mae'n ymddangos bod hyn oherwydd y sylw sylweddol yn y cyfryngau ar gamymddwyn rhywiol yr heddlu a materion hyder y cyhoedd ehangach yn dilyn cyhoeddi adroddiad Casey ac adroddiadau HMICFRS.

Mae nifer o atgyfeiriadau a dderbyniwyd gan yr IOPC yn ymwneud â honiadau o ymosodiadau rhywiol difrifol, ymddygiad amhriodol, a chamddefnyddio swydd gyhoeddus ond nid yw pob atgyfeiriad o'r fath yn arwain at ymchwiliad annibynnol gan yr IOPC. Rydym wedi ystyried y dull sefydliadol o ymdrin â chyfeiriadau o'r fath fel rhan o'n strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched (VAWG).

Mewn Gwaith Achos, mae niferoedd adolygiadau yn parhau i gynyddu, ond yn ystod chwarter olaf 2022/23, fe wnaethom gwblhau mwy o adolygiadau nag a gawsom, ac mae cynnydd yn cael ei wneud o fewn y Cynllun Trawsnewid Gweithrediadau Cenedlaethol o ran lleihau'r ôl-groniad o achosion.

Mewn ymchwiliadau craidd rydym yn gweld cymhlethdod cynyddol yn ein gwaith, yn enwedig ymchwiliadau troseddol/ymddygiad oherwydd proffil yr atgyfeiriadau a dderbyniwyd. Er gwaethaf hyn rhagorwyd ar ein targedau amseroldeb. Ein targed ar gyfer cwblhau ymchwiliadau craidd o fewn 12 mis oedd 85% a chyflawnwyd 89%; am chwe mis y targed oedd 33% a chyflawnwyd 38%.

Nodwyd gennym yn flaenorol heriau o ran adnoddau mewn ymchwiliadau, yn arbennig, yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr oherwydd trosiant uchel. Fodd bynnag, yn dilyn ymgyrchoedd recriwtio allanol mae'r problemau adnoddau hyn wedi lleddfu wrth i gydweithwyr newydd ymuno â'r sefydliad.

Rydym yn parhau i weld cynnydd mewn oedi ar gyfer ymchwiliadau ar y cam 'ar ôl yr adroddiad terfynol' a briodolir i rannau eraill o'r system, megis cwestau ac achosion troseddol sydd heb eu penderfynu. Yn ogystal, mae oedi wrth gwblhau achosion camymddwyn mewn rhai heddluoedd yn parhau i fod yn broblem.

Fframwaith sicrwydd ac asesiad risg

Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys yr elfennau canlynol:

- dynodi risg strwythuredig yn gysylltiedig ag amcanion busnes
- asesu a rheoli risgiau sylweddol
- monitro ac effeithiolrwydd y fframwaith sicrwydd
- adolygu a monitro allanol

Mae'r broses sicrwydd wedi'i chynllunio i sicrhau y gallwn fodloni ein hunain bod y trefniadau priodol yn eu lle ar gyfer rheoli risg a sicrhau system gadarn o reolaeth fewnol sy'n weithredol ac yn effeithiol. Mae ein fframwaith sicrwydd yn cynnwys cylch busnes blynyddol sy'n pennu amcanion clir ar gyfer y sefydliad ac yn nodi'r risgiau i'w cyflawni.

Er mwyn rheoli fforddiadwyedd ein cynllun busnes a'n strategaeth yn well, rydym wedi datblygu Cynllun Ariannol Tymor Canolig 3 blynedd sydd wedi nodi gweithgarwch i fynd i'r afael â phwysau cyllidebol yn y dyfodol. O dan bob amcan rydym yn olrhain arbedion effeithlonrwydd i sicrhau y gallwn ryddhau'r buddsoddiad angenrheidiol i ddechrau prosiectau newydd allweddol yn 2024/25 a byw o fewn y gyllideb. Ar hyn o bryd mae ein Datrysiad Rheoli Achos corfforaethol newydd a fydd yn symleiddio'r broses o reoli ein gwaith gweithredol, ein rhaglen i wella'r modd yr ydym yn cynnal ymchwiliadau a'n hymchwiliad Hillsborough yn peri risgiau i brydlondeb cyflawni a allai effeithio ar yr arbedion effeithlonrwydd a nodwyd ac felly arbedion. Rydym wrthi'n rheoli'r rhain drwy ein cynlluniau ar gyfer 2023/24.

Mae ein proses Cynllunio Busnes wedi gosod ein huchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn 2023/24 wedi'u cydbwysu yn erbyn yr adnoddau sydd ar gael i reoli newid ochr yn ochr â'n busnes fel arfer gyda chyllideb lai a nodir yn y Cynllun Ariannol tymor canolig. Mae'r rhain yn gymysgedd o waith effeithlonrwydd, diogelu cyflawniad gweithredol ac ymateb i faterion sy'n effeithio ar hyder y cyhoedd.

Mae fframwaith rheoli risg y sefydliad yn ceisio sicrhau bod risgiau sy'n ymwneud â chyflawni ein hamcanion yn cael eu nodi, eu monitro a'u rheoli. Asesir risgiau ar sail eu heffaith a'u tebygolrwydd gan ddefnyddio graddfa y cytunwyd arni gan y Bwrdd Unedol. Cedwir cofrestr risg strategol, ac mae gan bob blaenoriaeth strategol gofrestr risg weithredol. Mae risgiau a gweithgarwch lliniarol perthnasol yn cael eu nodi a'u hadrodd i'r Bwrdd Rheoli, ARAC a'r Bwrdd Unedol, yn unol â chylchoedd adrodd y sefydliad. Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod yr archwaeth risg yn cael ei adlewyrchu'n briodol mewn gweithgarwch rheoli risg a chaiff ei adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli ac ARAC.

Rydym yn parhau i weithio tuag at gydymffurfio â chyfres o Safonau Gweithredol y Llywodraeth. Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol ar ddechrau'r

flwyddyn ac eto ymhen chwe mis yn erbyn gofynion pob safon berthnasol i asesu ein lefel gyfredol o gydymffurfiaeth a nodi lle mae angen gwaith i gydymffurfio â'r eitemau gorfodol. Mae canlyniadau'r adolygiadau hyn yn cael eu cyfleu i ARAC.

Cynhelir adolygiad o'n rheolaethau gan archwilwyr mewnol ac allanol i adlewyrchu eu priod gyfrifoldebau. Amlygwyd unrhyw faterion arwyddocaol i'r Bwrdd Unedol.

Archwilio mewnol

Darperir gwasanaethau archwilio mewnol gan y GIAA dan Femorandwm Cydddealltwriaeth â'r Swyddfa Gartref.

Mae Archwilio Mewnol yn ein cynorthwyo i wella gweithdrefnau a rheolaethau yn barhaus. Cytunir ar gamau gweithredu mewn ymateb i argymhellion, a byddwn yn dilyn y rhain i sicrhau eu bod yn cael eu gweithredu. Darparwyd adroddiad monitro ar weithrediad yr argymhellion i bob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r canfyddiadau allweddol o'r adroddiad archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn a'n hymatebion rheolwyr.

Ffigur 4

Archwilio	Canfyddiadau allweddol	Ymateb rheolwyr
Cynllunio Parhad Busnes (BCP)	Er mwyn gwella trefniadau rheoli parhad busnes, mae BCP corfforaethol wedi'i roi ar waith. Nod yr IOPC yw sicrhau agwedd gyson at barhad busnes ar draws y sefydliad.	Derbyniwyd tri argymhelliad, a dylai pob un gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023/24.
Rheoli Fflyd	I gydnabod bod gwendidau yn y fframwaith rheoli, gofynnodd yr IOPC i GIAA archwilio ei drefniadau rheoli fflyd a darparu argymhellion ar gyfer gwelliannau. Nodwyd pedwar achos sylfaenol o fethiant rheoli, sydd wedi arwain at reoli a monitro'r fflyd yn aneffeithiol, gan arwain at werth gwael am arian.	Derbyniwyd pedwar argymhelliad, a dylai pob un gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023/24.

Archwilio	Canfyddiadau allweddol	Ymateb rheolwyr
Ffyrdd o Weithio yn y Dyfodol (FWOW)	Mae dull yr IOPC o ddylunio a chyflawni ei fodel FWOW wedi bod yn gynhwysfawr o ran ystyried anghenion staff a chynnwys ffactorau allweddol amrywiol ac felly dim ond un argymhelliad a wnaed.	Cafodd un argymhelliad ei wneud a'i dderbyn ac mae wedi'i roi ar waith.
Rheoli Contract TGCh	Yn gyffredinol, mae gwendidau sylweddol yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth sy'n ymwneud â Rheoli Contractau TGCh, i'r graddau y gallai fod neu y gallai ddod yn annigonol ac aneffeithiol a allai olygu nad yw cyflenwyr yn cadw at eu rhwymedigaethau cytundebol nac yn darparu gwerth am arian i'r IOPC.	Gwnaethpwyd pedwar argymhelliad ar ddeg, mae pob un ond dau wedi'u cwblhau a dylai'r rhain ddod i ben erbyn diwedd 2023.
Rheoli Perfformiad (Gweithrediadau)	Nodwyd rhai meysydd o arfer da, gan gynnwys trefniadau llywodraethu effeithiol o weithrediadau i lefelau strategol a ffocws cryf ar welliant parhaus. Fodd bynnag, canfuwyd nifer o rwystrau i reoli perfformiad effeithiol a allai arwain at ddefnydd aneffeithiol o gapasiti a gallu, gan arwain at oedi wrth gwblhau ymchwiliadau.	Derbyniwyd chwech argymhelliad, a dylai pob un gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023/24.
Rheoli'r Gweithlu	Nododd yr archwiliad nifer o feysydd lle dylai'r IOPC fod yn fwy rhagweithiol i fynd i'r afael â gwendidau yn y trefniadau presennol.	Derbyniwyd wyth argymhelliad, a dylai pob un gael ei gwblhau erbyn diwedd 2023/24.

Iechyd a diogelwch

Mae ystyriaethau Iechyd a Diogelwch yn parhau i fod yn ffactor allweddol mewn unrhyw benderfyniadau, nid yn unig o ran cadw ein staff yn ddiogel yn y gwaith ond hefyd ystyried lles meddyliol ac ariannol staff.

Yn ystod 2022, arhosodd iechyd a diogelwch yn hollbwysig yn ein hymateb i'r bygythiad o'r amrywiad Omicron newydd a'r canllawiau sy'n newid yn gyflym a gyhoeddwyd gan y llywodraeth a chyrrff iechyd cyhoeddus. Roeddem yn gallu ailddedrau ein gweithgor Covid-19, a oedd mewn sefyllfa dda i ymateb i newidiadau macro a micro a gwneud argymhellion ar sut rydym yn cadw at y canllawiau wrth gadw ein pobl yn ddiogel a pharhau i ddarparu'r lefelau gwasanaeth disgwylidig i'r cyhoedd.

Cyflwynwyd gweithio Hybrid sydd nawr wedi dod yn rhan o ddiwylliant gwaith arferol yr IOPC. Fel rhan o'r newid mewn trefniadau gweithio, rydym wedi addasu ein hasesiadau DSE (Offer Sgrin Arddangos) a pholisïau cysylltiedig allweddol eraill i ystyried gweithio o gartref ac i sicrhau y gellir cyflawni hyn heb gyflwyno unrhyw risgiau ychwanegol i iechyd, diogelwch, a lles ein gweithwyr. Roedd hyn yn cynnwys cael gwell dealltwriaeth o arferion gweithio diogel, caffael offer a gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cyflwyno a chyflawni ceisiadau am offer.

Er bod ein hadborth cychwynnol yn cadarnhau bod ein trefniadau gwaith hybrid yn rhoi gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith i gydweithwyr, rydym wedi cydnabod, mewn rhai achosion, y gall cydweithwyr deimlo'n fwy ynysig wrth weithio o gartref. Mae lles ein staff nawr yn flaenoriaeth gorfforaethol allweddol ac o'r ganlyniad, mae'r IOPC wedi cyflwyno sawl menter ers hynny i gynorthwyo cydweithwyr a all fod yn teimlo'n ynysig. Rydym wedi cyflwyno hyfforddiant lles ac iechyd meddwl fel rhan o'n rhaglen sefydlu gorfforaethol a pheycyn cymorth rheolwyr newydd, ochr yn ochr â'n darpariaeth hyfforddiant barhaus mewn perthynas ag iechyd a diogelwch a diogelwch tân.

Rydym yn parhau â'n hymrwymiad i adolygu ein harferion gwaith hybrid a mentrau eraill i gadw ein staff yn ddiogel ac yn iach. Rydym yn parhau i weithredu ein system rheoli iechyd a diogelwch gan gynnwys adolygiadau o asesiadau risg, ymchwiliadau i ddamweiniau a chynnal gwiriadau diogelwch gan gynnwys gwiriadau diogelwch tân, archwiliadau adeiladau a gwiriadau o offer cymorth cyntaf. Rydym hefyd yn parhau i fonitro presenoldeb yn ein swyddfeydd i sicrhau bod ein darpariaeth cymorth cyntaf a gweithdrefnau gwacáu mewn tân yn parhau i fod yn briodol ar gyfer presenoldeb llai o bobl mewn ymateb i weithio hybrid.

Mae gwaith wedi'i wneud i ymgorffori cynnwys iechyd a diogelwch yn y Llawlyfr Gweithrediadau a hyrwyddo'r defnydd o ddyfeisiadau diogelwch personol, ac asesu risg. Mae'r swyddogaeth Lles wedi'i gwahanu oddi wrth y swyddogaeth Iechyd a Diogelwch i sicrhau'r lefel ofynnol o ffocws a sylw yn y ddau faes.

Effeithiolrwydd y Polisi Mynegi Pryderon


Codwyd dau bryder yn ystod y flwyddyn hyd yma ac ymdriniwyd â nhw yn unol â gofynion y polisi Mynegi Pryderon. Mae'r ddau eto i'w cwblhau.

Swyddog Cyfrifo

Fel y Swyddog Cyfrifo, mae gennyf gyfrifoldeb personol am gynnal system gadarn o lywodraethu, rheolaeth fewnol, a rheoli risg i gefnogi'r gwaith o gyflawni ein swyddogaethau o dan *Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002* a deddfwriaeth berthnasol arall, tra'n diogelu arian cyhoeddus ac asedau sefydliadol.

Caiff fy adolygiad ei lywio'n rhannol gan waith ein harchwilwyr mewnol, a gwblhaodd gynllun archwilio mewnol blynyddol yn canolbwyntio ar lywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheoli. Gwnaethant roi barn gyfyngedig a ddiffinnir fel y canlynol: Mae gwendidau sylweddol yn y fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth fel y gallai fod neu y gallai ddod yn annigonol ac yn aneffeithiol.

Er bod y farn hon yn siomedig, mae'n rhannol o ganlyniad i'n defnydd o'n perthynas aeddfed â'n Harchwilwyr Mewnol wrth ofyn yn benodol iddynt edrych ar feysydd o'r sefydliad lle roeddem yn ystyried y gellid gwella ein rheolaethau. Mae'r adolygiadau hynny wedi ein helpu i nodi'r newidiadau mwyaf priodol i'w gwneud a byddant yn caniatáu i ni barhau i wneud gwelliannau ychwanegol wrth i ni roi cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â nhw.



Tom Whiting

Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro
26 Ionawr 2024

Adroddiad tâl a staff

Polisi tâl

Nod yr IOPC yw darparu pecynnau cydnabyddiaeth cystadleuol i recriwtio a chadw staff o galibr priodol. Rydym yn gweithredu system graddfa a gefnogir gan gynllun gwerthuso swyddi dadansoddol. Mae angen cymeradwyaeth ffurfiol gan ein Pwyllgor Pobl a Diwylliant ar gyfer unrhyw newidiadau i'n polisi tâl neu gylch gwaith cyflog.

Rydym yn ddarostyngedig i ganllawiau tâl y Gwasanaeth Sifil a gynhrychir gan Swyddfa'r Cabinet a Thrysorlys EM ac yn cyflwyno cylch gwaith cyflog blynyddol i'r Swyddfa Gartref, sydd o fewn y canllawiau hynny.

Mae cydnabyddiaeth ariannol cyfarwyddwyr ar gyfer y flwyddyn gyfredol a'r dyfodol yn cydymffurfio â gwaith ac argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch.

Contractau gwasanaeth

Ar 2 Rhagfyr 2022 ymddiswyddodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol Michael Lockwood. Ar 4 Rhagfyr 2022 penodwyd Tom Whiting yn Gyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, fel y darperir ar ei gyfer yn Neddf Plismona a Throseddau 2017 ar argymhelliad yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Adran Gartref.

Y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro sy'n penodi cyfarwyddwyr. Fel arfer nid oes gan eu contractau unrhyw gyfnod penodol a gellir eu terfynu â hyd at dri mis o rybudd gan yr IOPC. Byddai terfynu cyfarwyddwyr yn gynnar, ac eithrio am gamymddwyn, yn arwain at yr unigolyn yn cael iawndal fel y nodir yng Nghynllun Iawndal y Gwasanaeth Sifil.

Data ymgysylltu â staff

Nid yw'r IOPC yn gymwys i gymryd rhan yn Arolwg Pobl y Gwasanaeth Sifil. Datblygwyd mesurau amgen i'w defnyddio o 2021/22.

Pobl ag anableddau

Mae'r IOPC yn rhoi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am gyflogaeth gan bobl ag anableddau, lle mae natur y gyflogaeth yn gwneud hyn yn briodol. Rydym hefyd wedi ymrwmo i alluogi unrhyw aelod o staff a allai ddod yn anabl yn ystod eu cyfnod cyflogaeth i barhau yn eu rôl.

Cydraddoldeb, amrywiaeth, a chynhwysiad (EDI)

Mae'r Gyfarwyddiaeth Pobl yn atebol am yr agenda cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiad (EDI). Mae'r Pwyllgor Pobl a Diwylliant, a arweinir gan gyfarwyddwr anweithredol, yn llywodraethu perfformiad EDI, ac yn monitro ac yn herio data'r gweithlu. Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol yn cadeirio ein grŵp staff Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiad, sy'n cyfarfod bob chwarter.

Mae gennym chwech rhwydwaith staff. Cefnogir pob un gan uwch reolwr ac maent yn cyfarfod yn rheolaidd. Mae'r rhwydweithiau'n canolbwyntio ar bob un o'r naw nodwedd warchoddedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â siaradwyr Cymraeg. Mae'r rhwydweithiau'n ymwneud â phob agwedd ar ein busnes.

Mae ein gwybodaeth bwllch cyflog rhwng y rhywiau ar gael ar ein gwefan.

Data trosiant staff

Yn ystod 2022/23 roedd canran trosiant yn 10.1% (2021/22: 11%), sydd ychydig yn uwch na'n hamrediad targed o 7% i 10%. Nid yw'r data yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol a rolau tymor byr eraill.

Data absenoldeb salwch

Yn ystod 2022/23, cafodd ein staff 4.7 diwrnod o absenoldeb salwch ar gyfartaledd. Mae hyn yn debyg i gyfartaledd o 3.7 diwrnod yn 2021/22. Mae effaith cyfyngiadau COVID a chynnydd mewn gweithio hybrid wedi lleihau salwch a adroddwyd o gymharu â chanlyniadau cyn-COVID. Rydym wedi ymrwmo i iechyd a lles ein staff ac mae polisi absenoldeb salwch cynhwysfawr yn ei le. Rydym yn darparu Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol a Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

Cyfansoddiad staff

Mae'r IOPC wedi ymrwmo i sicrhau y gall pob cydweithiwr gyrraedd ei botensial llawn yn y sefydliad. Rydym yn monitro amrywiaeth y sefydliad trwy ddata Adnoddau Dynol ac adborth gan ein Cyngor Staff a rhwydweithiau staff.

Mae'r tabl isod yn rhoi cyfansoddiad staff yn ôl rhyw ar 31 Mawrth 2023 o gymharu â'r flwyddyn flaenorol a ddangosir mewn cromfachau. Mae data arall ar gyfansoddiad staff ar gael ar ein gwefan.

Nifer ar 31 Mawrth	Gwrywaidd	Benywaidd	Cyfanswm
Cyfarwyddwyr*	9 (10)	13 (11)	22 (21)
Staff	385 (374)	650 (622)	1035 (996)
Cyfanswm	394 (384)	663 (633)	1,057 (1,017)

**Mae'r cyfarwyddwyr ar 31 Mawrth 2023 yn cynnwys y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro, 15 gradd 1 SCS a 6 chyfarwyddwr anweithredol. Mae'r cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol wedi'i gynnwys yn nata 2021/22.*

lawndal ar ymddeoliad cynnar neu golli swydd

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dim (2021/22: dim).

Taliadau i gyn-gyfarwyddwyr

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dim (2021/22: dim).

Niferoedd uwch-staff y gwasanaeth sifil yn ôl band ar 31 Mawrth

Band	2022/23	2021/22
SCS 2	1.0	2.0
SCS 1	15.0	12.0
Cyfanswm	16.0	14.0

Mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro wedi'i gynnwys yn nata 2022/23. Roedd y cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol yn un o benodiadau'r Goron ac nid yw wedi'i gynnwys yn nata 2021/22 yn y tabl uchod.

Datgeliad cyflog teg

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Yn y flwyddyn adrodd, y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn yr IOPC oedd y cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol, Michael Lockwood. Ei dâl bandiedig cyfwerth ag amser llawn yn 2022/23 oedd £175,000 - £180,000. Yn y flwyddyn ariannol flaenorol, cyfarwyddwr yr IOPC â'r cyflog uchaf oedd y cyn-Gyfarwyddwr Cyffredinol a'i gyflog bandiedig cyfwerth ag amser llawn oedd £175,000 - £180,000 heb gynnwys taliad gwyliau blynyddol a werthwyd o £10,000-£15,000. Nid oedd cynnydd yn ei gyflog o'r flwyddyn flaenorol.

Yn y flwyddyn adrodd, y tâl cyfartalog mewn perthynas â gweithwyr yr IOPC a gymerwyd oedd £39,440 (2021/22: £39,405), sef cynnydd o 0.09%. Mae'r wybodaeth am y gymhareb tâl yn y tabl isod:

Band	2022/23	2021/22 ⁴
Tâl ⁵ a buddion y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf £	177,500	177,500
25 ^{ain} canradd tâl a buddion £	31,110	30,032
Cymhareb 25 ^{ain} canradd	5.7	5.9
Tâl a buddion canradd canolrifol £	36,890	34,451
Cymhareb canolrif	4.8	5.2
75 ^{ain} canradd tâl a buddion £	43,261	42,680
Cymhareb 75 ^{ain} canradd	4.1	4.2

Mae polisiâu tâl a gwobrwyo'r IOPC yn dilyn canllawiau Swyddfa'r Cabinet, ac felly credwn fod y gymhareb ganolrifol ar gyfer y flwyddyn yn gyson â'r polisiâu cyflog, gwobrwyo a chamu ymlaen ar gyfer ein gweithwyr yn eu cyfarwydd. Mae'r newidiadau mewn cymarebau canraddol yn ganlyniad i ddyfarniadau cyflog i staff ac ailraddio rhai rolau yn y ganradd ganolrif.

Pennir tâl y Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro a chyfarwyddwyr anweithredol gan y Swyddfa Gartref. Mae'r tâl ar gyfer staff gan gynnwys graddau SCS wedi'i gysylltu'n uniongyrchol ag amrediadau gwerthuso swyddi. Mae tâl cyfwerth ag amser llawn yn yr ystod £19,000 i £177,500 (2021/22: £17,000 i £177,500).

Mae lwfans pwysoli Llundain o £4,527 (2021/22: £4,438) yn berthnasol i staff a phrentisiaid sydd wedi'u lleoli yn ein swyddfeydd yn Llundain a Croydon. Nid

⁴ Mae'r ffigurau a adroddwyd ar gyfer 2021/22 wedi'u hailddatgan er mwyn eu cymharu'n well â dileu symiau gwyliau blynyddol a werthwyd a gynhwyswyd yn flaenorol

⁵ Cyflog a lwfansau yw'r ffigurau a adroddwyd yn unig oherwydd na thalwyd unrhyw fuddion i'r cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf nac i unrhyw weithwyr eraill

oes gan amrediadau cyflog bwyntiau asgwrn cefn wedi'u cydgyfeirio â nhw. Pennir cyflogau ar gyfradd sbot a phennir dilyniant cyflog blynyddol gan godiadau canrannol y cytunir arnynt bob blwyddyn. Mae'r rhan fwyaf o amrediadau cyflog yn cael eu hailbriso bob blwyddyn. Y dyddiad ailbriso nesaf yw 1 Gorffennaf 2023.

Pecynnau ymadael

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Dangosir data cymharol (mewn cromfachau) ar gyfer 2021/22.

Band cost pecyn gadael	Nifer y diswyddiadau gorfodol	Nifer y gwyradau eraill y cytunwyd arnynt	Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael yn ôl band cost
<£10,000	- (-)	- (-)	- (-)
£10,000 - £25,000	- (-)	- (-)	- (-)
£25,001 - £50,000	- (-)	- (1)	- (1)
£50,001 - £100,000	- (-)	1 (2)	1 (2)
£100,001 - £150,000	- (-)	- (-)	- (-)
Cyfanswm nifer y pecynnau ymadael fesul math (cyfanswm y gost)	- (-)	1 (3)	1 (3)
Cyfanswm y gost (2022/23) yn £000	-	95	95
Cyfanswm y gost (2021/22) yn £000	-	199	199

Talwyd costau diswyddo a chostau ymadael eraill yn unol â darpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil, cynllun statudol a wnaed o dan Ddeddf Blwydd-dal 1972. Datgelir costau ymadael yn llawn yn y flwyddyn ymadael. Lle mae'r IOPC wedi cytuno ar ymddeoliadau cynnar, telir y costau ychwanegol gan yr IOPC ac nid gan gynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Telir costau ymddeoliad oherwydd afiechyd gan y cynllun pensiwn ac nid ydynt wedi eu cynnwys yn y tabl.

Niferoedd a chostau staff

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Mae'r tabl canlynol yn dangos nifer cyfartalog y staff cyfwerth ag amser llawn a gyflogwyd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol, sy'n parhau 12 mis fel arfer. Mae staff eraill yn cynnwys pobl sydd wedi'u secondio i'r sefydliad a llafur wrth gefn.

Nifer cyfartalog y staff (FTE)	2022/23	2021/22
Parhaol	994	958
Arall	7	7
Cyfanswm	1,001	965

Mae'r tabl canlynol yn dangos cost y staff a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn. Mae staff parhaol yn cynnwys staff ar gontractau cyfnod penodol, sy'n parhau 12 mis fel arfer. Mae staff eraill yn cynnwys gweithwyr dros dro a staff sydd wedi'u secondio i'r sefydliad. Mae'r costau ar ôl adennill mewn perthynas â secondiadau allanol.

Costau staff £'000	2022/23	2022/23	2022/23	2021/22
	Staff parhaol	Arall	Cyfanswm	Cyfanswm
Cyflogau a thaliadau	39,623	621	40,244	38,713
Cost nawdd cymdeithasol	4,301	-	4,301	4,013
Cyfraniadau pensiwn	10,236	-	10,236	9,628
Is-gyfanswm	54,160	621	54,781	52,354
Llai: adenillion mewn perthynas â secondiadau allanol	(414)	-	(414)	(437)
Costau net yr holl staff eraill	53,746	621	54,367	51,917

Gwariant ar ymgynghoriaeth

Nid oedd unrhyw wariant ar ymgynghoriaeth yn ystod 2022/23 (2021/22: dim).

Llafur amodol

Mae'r IOPC yn cyflogi llafur wrth gefn yn unol â phroses reoli gadarn a osodwyd gan y Swyddfa Gartref. Adroddir ar wariant bob mis i'r Bwrdd Rheoli er mwyn craffu ac adolygu. Mae'r llafur wrth gefn a ddefnyddiwyd ar gyfer ein hymchwiliad Hillsborough wedi lleihau gan ein bod ar gam gwahanol o'r ymchwiliad.

Cost llafur amodol	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Hillsborough	33	108
Cyfarwyddiaethau eraill	588	291
Cyfanswm	621	399

Penodiadau oddi ar y gyflogres

Ni thalwyd unrhyw un o gyfarwyddwyr yr IOPC trwy daliadau i gwmni cyfyngedig neu drydydd parti yn lle cyflog. Telir yr holl gyfarwyddwyr drwy gyflogres yr IOPC.

Mae'r tablau hyn yn dangos nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres am £245 neu fwy y dydd.

Ymrwymadau gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2023, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.	Nifer
Math o benodiadau	
Penodiadau sydd wedi bodoli ers llai na blwyddyn ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd	-

Ymrwymiadau gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel ar 31 Mawrth 2023, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.	Nifer
Math o benodiadau	
Penodiadau sydd wedi bodoli ers rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd	-
Penodiadau sydd wedi bodoli ers lpedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd	1
Penodiadau oddi ar y gyflogres	1

Pob gweithiwr oddi ar y gyflogres â chyflog uchel a gyflogwyd ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2022, gan ennill £245 y diwrnod neu fwy.	Nifer
Nifer yr ymrwymiadau newydd, neu'r rhai a gyrhaeddodd chwe mis o hyd, rhwng 1 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022	
O'r rhain...	
Ddim yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	-
Nifer y penderfynwyd ei fod o fewn cwmpas IR35	-
Nifer y penderfynwyd eu bod y tu allan i gwmpas IR35	1
Nifer y penodiadau a ailaseswyd at ddibenion cydymffurfio neu sicrwydd yn ystod y flwyddyn	-
O'r rhain: nifer o benodiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-
Nifer y penodiadau lle'r oedd y statws yn destun dadl o dan ddarpariaethau yn y ddeddfwriaeth oddi ar y gyflogres	-
O'r rhain: nifer o benodiadau a welodd newid i statws IR35 yn dilyn adolygiad	-

Ar gyfer unrhyw benodiadau oddi ar y gyflogres gan aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion sydd â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023	Nifer
Nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres o aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol	-
Nifer yr unigolion ar gyflogres neu oddi ar gyflogres a gafodd eu hystyried yn "aelodau bwrdd", a/neu'n "uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol	14

Gwybodaeth amser cyfleuster undeb llafur

Tabl 1: swyddogion undeb perthnasol	Nifer
Nifer y gweithwyr a oedd yn swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol	
15	15

Tabl 2: canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	Nifer
Canran yr amser	
0	1,042
1 – 50	15
51 – 99	-
100	-

Tabl 3: canran yr amser a dreuliwyd ar amser cyfleuster	£'000
Cyfanswm cost amser cyfleuster	107
Cyfanswm y bil i'w dalu	54,160
Canran yr amser a dreuliwyd ar amser y cyfleuster	0.20%

Wedi'i gyfrifo fel: $(\text{cyfanswm cost amser cyfleuster} \div \text{cyfanswm bil cyflog}) \times 100$

Tabl 4: gweithgareddau undeb llafur taledig	£'000
Yr amser a dreulir ar weithgareddau undeb llafur cyflogedig fel canran o gyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl	-

Wedi'i gyfrifo fel: $(\text{cyfanswm yr oriau a dreuliwyd ar weithgareddau undeb llafur taledig gan swyddogion undeb perthnasol yn ystod y cyfnod perthnasol} \div \text{cyfanswm yr oriau amser cyfleuster â thâl}) \times 100$

Ffigur cyfanswm tâl ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer blwyddyn adrodd 2022/23

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Cyfarwyddwyr anweithredol	Cyflog	Buddion mewn nwyddau⁶	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Deborah Bowman ⁷	5-10	-	-	5-10
Christine Elliott	5-10	-	-	5-10
Catherine Jervis	5-10	-	-	5-10
William Matthews	5-10	2.8	-	10-15
Rommel Moseley	5-10	0.1	-	5-10
Julia Mulligan	10-15	5.9	-	15-20

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys ar gyfer buddion bonws na pensiwn

⁶ Mae buddion mewn nwyddau yn ymwneud â theithio a threuliau a dalwyd gan yr IOPC am deithio i Canary Wharf

⁷ Dyddiad olaf gwasanaeth Deborah Bowman oedd 25 Ebrill 2023.

Ffigur cyfanswm tâl ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol ar gyfer y flwyddyn adrodd flaenorol 2021/22

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Cyfarwyddwyr anweithredol	Cyflog ⁸	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Deborah Bowman ⁹	5-10	-	-	5-10
Christine Elliott	5-10	-	-	5-10
Catherine Jervis	5-10	-	-	5-10
William Matthews	5-10	-	-	5-10
Rommel Moseley	5-10	-	-	5-10
Julia Mulligan ¹⁰	5-10 (5-10)	-	-	5-10 (5-10)
Geoffrey Podger ¹¹	0-5 (5-10)	-	-	0-5 (5-10)

Nid yw cyfarwyddwyr anweithredol yn gymwys ar gyfer buddion bonws na phensiwn

⁸ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

⁹ Dyddiad olaf gwasanaeth Deborah Bowman oedd 25 Ebrill 2023.

¹⁰ Dechreuodd 07 Mai 2021

¹¹ Gadawodd 07 Mai 2021

Ffigur cyfanswm tâl sengl ar gyfer uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn adrodd 2022/23

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Cyflog ¹²	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Claire Bassett ¹³	30-35 (135-140)	-	9	40-45 (145-150)
Miranda Biddle	110-115	-	43	150-155
Liz Booth	100-105	-	40	140-145
Katherine Cashell	110-115	-	44	155-160
David Emery	100-105	-	13	110-115
Michael Lockwood ¹⁴	140-145 (175-180)	-	-	140-145 (175-180)
Amanda Rowe	110-115	-	70	180-185
Tom Whiting	140-145	-	54	195-200

Mae gwir werthoedd Claire Bassett a Michael Lockwood yn cynnwys taliad am eu gwyliau heb eu cymryd ar ddyddiadau eu hymddiswyddiad o £10,000 - £15,000 a £25,000-£30,000 yn y drefn honno.

¹² Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

¹³ Gadawodd 31 Mai 2022

¹⁴ Ymddiswyddodd Michael Lockwood ar 2 Rhagfyr 2022.

Ffigur cyfanswm tâl sengl ar gyfer uwch reolwyr ar gyfer y flwyddyn adrodd flaenorol 2021/22

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Cyflog ¹⁵	Buddion mewn nwyddau	Buddion pensiwn	Cyfanswm Tâl
	£'000	£'000	£'000	£'000
Claire Bassett	135-140	-	53	185-190
Liz Booth	100-105	-	39	135-140
Katherine Cashell	110-115	-	43	150-155
David Emery	95-100	-	27	125-130
Michael Lockwood ¹⁶	185-190	-	-	185-190
Tom Whiting	135-140	-	53	185-190

Mae'r gwerthoedd ar gyfer Michael Lockwood yn cynnwys taliadau am ei wyliau heb ei gymryd ar ddiwedd y flwyddyn wyliau rhwng £10,000 a £15,000. Ac eithrio'r taliadau hyn cyfanswm ei gydnabyddiaeth oedd £175,000 - £180,000.

Taliadau bonws

Nid yw taliadau bonws yn daladwy i'r Cyfarwyddwr Cyffredinol nac uwch reolwyr eraill yr IOPC.

Taliadau a wneir i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil

Yn ystod 2022/23 ni chafodd taliadau eu gwneud i gyfarwyddwyr o dan gynllun iawndal y gwasanaeth sifil. Nid oedd unrhyw daliadau yn 2021/22.

¹⁵ Mae'r ffigurau mewn cromfachau yn gyfwerth â blwyddyn gyfan.

¹⁶ Ymddiswyddodd Michael Lockwood ar 2 Rhagfyr 2022.

Buddion mewn nwyddau

Mae cyfarwyddwyr anweithredol ac uwch reolwyr yn teithio'n rheolaidd i amrywiol swyddfeydd yr IOPC i gyflawni eu dyletswyddau. Lle, oherwydd natur y tasgau sy'n cael eu perfformio ac amllder y teithio, mae'r rhain yn cael eu hystyried yn weithle parhaol, yna mae cost teithio yn fudd trethadwy mewn nwyddau. Bydd hyn yn cynnwys treth ar gost teithio.

Buddion pensiwn

Mae rhai cyn-gomisiynwyr a staff a wasanaethodd fel aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) yn cymryd rhan mewn cynllun pensiwn 'yn fras trwy gyfatebiaeth' (BBA) fel dewis amgen i aelodaeth cynllun pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Mae'r IOPC yn gyfrifol am gyllido buddion pensiwn yn y dyfodol. Mae'r rhain yn cael eu disgrifio ymhellach yn Nodyn 3.1 y Datganiadau Ariannol

Yn ystod y cyfnod dan sylw, roedd y cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol, a'r holl staff yn gymwys i fod yn aelodau o gynllun pensiwn Prif Wasanaeth Sifil. Fodd bynnag, nid oedd y cyn Gyfarwyddwr Cyffredinol yn aelod yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae'r tablau isod yn darparu manylion o'r buddion pensiwn i uwch reolwyr.

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae buddion pensiwn yn cael eu darparu trwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Ers 1 Ebrill 2015, cafodd cynllun pensiwn newydd ei gyflwyno i weision sifil – y Cynllun Pensiwn i Weision Sifil ac Eraill neu **alpha**. Mae hyn yn darparu buddion ar sail cyfartaledd gyrfa ag oed pensiwn arferol yn gydradd ag Oedran Pensiwn Gwlad yr aelod (neu 65 os yn uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd pob gwas sifil a oedd newydd ei benodi a mwyafrif y rhai a oedd eisoes mewn gwasanaeth ag **alpha**. Cyn hyn, roedd gweision sifil yn cymryd rhan ym Mhrif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) Mae gan y PCSPS bedair adran: tair yn darparu buddion ar sail cyflog terfynol (**classic, premium neu classic plus**) sydd ag oedran pensiwn arferol o 60; ac un yn darparu buddion ar sail gyrfa gyfan (**nuvos**) sydd ag oedran pensiwn arferol o 65.

Nid yw'r trefniadau statudol hyn wedi cael eu cyllido a thelir cost buddion gan arian y bleidleisir arno gan y Senedd bob blwyddyn. Mae pensiynau sy'n daladwy o dan **classic, premium, classic plus, nuvos** ac **alpha** yn cael eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth cynyddu pensiynau. Arhosodd aelodau presennol o'r PCSPS oedd o fewn deng mlynedd o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rheini oedd rhwng deng mlynedd a 13 blynedd a 5 mis o'u hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbryd rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Oherwydd bod y Llywodraeth yn bwriadu dileu gwahaniaethu a nodwyd gan y

llysoedd yn y ffordd y cyflwynwyd diwygiadau pensiwn 2015 ar gyfer rhai aelodau, efallai y bydd gan aelodau cymwys sydd â gwasanaeth perthnasol rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2022 hawl i fuddion pensiwn gwahanol mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw (a gallai hyn effeithio ar y Gwerthoedd Trosglwyddo Cyfwerth ag Arian Parod a ddangosir yn yr adroddiad hwn – gweler isod). Bydd pob aelod sy'n newid i **alpha** yn cael eu buddion PCSPS 'wedi'u bancio', a'r rheini sydd â buddion cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael y buddion hynny yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan adawant **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS ac **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol eu buddion yn y ddau gynllun.) Gall aelodau sy'n ymuno o Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddion diffiniedig priodol neu bensiwn cyfraniad diffiniedig (prynu arian) â chyfrif pensiwn **partneriaeth** cyfraniad cyflogwr).

Mae cyfraniadau cyflogai yn gysylltiedig i gyflog ac yn amrywio rhwng 4.6% a 8.05% ar gyfer aelodau **classic**, **premium**, **classic plus**, **nuvos** ac **alpha**. Mae buddion yn **classic** yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae cyfandaliad cyfwerth â thair blynedd pensiwn cychwynnol yn daladwy ar ymddeol. Ar gyfer **premium** mae buddion yn cronni ar raddfa o 1/60fed o'r enillion pensiynadwy terfynol am bob blwyddyn o wasanaeth. Yn wahanol i **classic**, nid oes cyfandaliad awtomatig. Mae **Classic plus** yn ei hanfod yn hybrid, gyda buddion am wasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras megis ar gyfer **classic** a buddion am wasanaeth o Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo megis yn premium. Yn **nuvos**, mae aelodau yn adeiladu pensiwn yn seiliedig ar eu henillion pensiynadwy yn ystod eu cyfnod aelodaeth o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth), mae'r cyfrif pensiwn a enillir gan yr aelod yn cael ei gredydu â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn gynllun honno ac mae'r pensiwn cronedig yn cael ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth cynnydd pensiynau. Mae buddion yn **alpha** yn adeiladu mewn ffordd debyg i **nuvos**, heblaw fod y gyfradd gronni yn 2.32%. Ym mhob achos, mae aelodau'n gallu dewis ildio (cyfnewid) pensiwn am gyfandaliad hyd at y terfynau a amlinellir gan y *Ddeddf Cyllid 2004*.

Mae'r cyfrif pensiwn partneriaeth yn drefniant pensiwn cyfraniad diffiniedig galwedigaethol sy'n rhan o'r Legal & General Mastertrust. Mae'r cyflogwr yn gwneud cyfraniad sylfaenol rhwng 8% a 14.75% (yn dibynnu ar oedran yr aelod). Nid oes rhaid i'r gweithiwr gyfrannu, ond lle maen nhw'n gwneud cyfraniadau, bydd y cyflogwr yn gwneud cyfraniadau cyfatebol i'r rhain hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ogystal â chyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.5% ychwanegol o gyflog pensiynadwy i gwmpasu'r gost o warchodaeth buddion wedi'i ddarparu'n ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad salwch).

Y pensiwn cronedig a ddyfynnir yw'r pensiwn mae gan yr aelod hawl i'w dderbyn pan fyddent yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl peidio bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os ydynt eisioes wedi cyrraedd, neu dros, oedran pensiwn. Oedran pensiwn yw 60 i aelodau **classic**, **premium** a **classic plus**, 65 i aelodau **nuvos**, a'r uchaf allan o 65 neu oedran pensiwn gwlad i aelodau **alpha**. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnir ar gyfer swyddogion yn dangos pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu **alpha** – fel y bo'n briodol. Lle mae gan y swyddog fuddion yn y PCSPS yn ogystal ag **alpha**, y ffigur a ddyfynnir yw gwerth cyfunol ei fuddion yn y ddau gynllun, ond sylwch y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o oedrannau gwahanol.)

Mae rhagor o fanylion am drefniadau'r pensiwn Gwasanaeth Sifil i'w gweld ar wefan [Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil](#)

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw gwerth cyfalaf a aseswyd gan actiwari buddion y cynllun pensiwn a gronnwyd gan aelod ar adeg benodol. Y buddion sy'n cael eu prisio yw buddion cronedig yr aelod ac unrhyw bensiwn cymar dibynnol sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad sy'n cael ei wneud gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu buddion pensiwn mewn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn dewis trosglwyddo'r buddion a gronnwyd yn y cynllun blaenorol. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn cyfeirio at y buddion mae'r unigolyn wedi'u cronni o ganlyniad i'w aelodaeth gyfan o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd uwch y mae'r datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau'n cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall, y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maen nhw hefyd yn cynnwys unrhyw fuddion pensiwn ychwanegol a gronnir o ganlyniad i brynu buddion pensiwn ychwanegol ar ei gost/chost ei hun. Mae CETVau yn cael eu cyfrifo yn unol â'r Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) (Gwelliant) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw ostyngiad gwirioneddol neu bosibl i fuddion yn deillio o Dreth Lwfans Oes, a all fod yn ddyledus pan gymerir buddion pensiwn.

Cyfrifir ffigurau CETV gan ddefnyddio'r canllawiau ar gyfraddau disgownt ar gyfer cyfrifo cyfraddau cyfraniadau pensiwn gwasanaeth cyhoeddus heb eu hariannu a oedd yn bodoli ar 31 Mawrth 2023. Cyhoeddodd Trysorlys EM ganllawiau wedi'u diweddarau ar 27 Ebrill 2023; bydd y canllawiau hyn yn cael eu defnyddio wrth gyfrifo ffigurau CETV 2023-24.

Gwir gynnydd mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV sy'n cael ei gyllido gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiynau cronedig oherwydd chwyddiant, cyfraniadau sy'n cael eu talu gan y gweithiwr (gan gynnwys gwerth unrhyw fuddion a drosglwyddir o unrhyw gynllun neu drefniant pensiwn arall) ac mae'n defnyddio ffactorau priso marchnad cyffredin ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Uwch reolwyr	Pensiwn cronedig	Gwir gynnydd	CETV	CETV	Gwir gynnydd
	ar oedran pensiwn ar 31/3/23	mewn pensiwn ar oedran pensiwn	ar 31 Mawrth 2023	ar 31 Mawrth 2022	mewn CETV
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
Claire Bassett <i>Gadawodd</i> <i>31/05/2022</i>	35-40	0-2.5	447	433	4
Liz Booth	10-15	0-2.5	172	129	28
Miranda Biddle	15-20	2.5-5	242	201	24
Katherine Cashell	30-35	2.5-5	358	312	21
David Emery	35-40	0-2.5	516	465	-2 ¹⁷
Amanda Rowe	55-60 115-120 (cyfandaliad)	2.-5-5 2.5-5 (cyfandaliad)	1,076	919	50
Tom Whiting	10-15	2.5-5	157	114	27

¹⁷ Gan ystyried chwyddiant, mae'r CETV a ariennir gan y cyflogwr wedi gostwng mewn termau real.

Adroddiad atebolrwydd Seneddol

Archwilwyr

Mae trefniadau ar gyfer archwiliad allanol yn cael eu darparu o dan baragraff 17 (2) o Atodlen 2 i Ddeddf Diwygio'r Heddlu 2002. Mae hyn yn gofyn i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol (C&AG) i archwilio, ardystio ac adrodd ar ddatganiad y cyfrifon, ac i osod copïau ohono (ynghyd â'i adroddiad) o flaen dau dŷ'r Senedd. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol (NAO) yn cynnal yr archwiliad ar ran y C&AG.

Y ffioedd ar gyfer y gwasanaethau hyn ar gyfer 2022/23 oedd £63,520. Yn 2021/22 y ffi archwilio oedd £55,300. Ni wnaeth y Swyddfa Archwilio Genedlaethol unrhyw waith nad oedd yn waith archwilio.

Mae gwasanaethau archwilio mewnol yn cael eu darparu o dan gontract gan Asiantaeth Archwilio Mewnol y Llywodraeth.

Rheoleidd-dra gwariant

Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.

Nid oes materion rheoleidd-dra i'w hadrodd.

Colledion a thaliadau arbennig

Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.

Cyfanswm y colledion a thaliadau arbennig a wnaed o dan y trothwy sy'n gofyn am adrodd. (2021/22: islaw'r trothwy)

Anrhegion

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Ni chafodd anrhegion eu rhoi. (2021/22: dim.)

Ffioedd a chostau

Mae'r tabl hwn wedi cael ei archwilio.

Derbyniodd yr IOPC incwm gan HMRC am waith ar atgyfeirio a gyflawnwyd o dan adran 28 o Ddeddf Comisiynwyr Cyllid a Thollau 2005. Cafodd incwm ei dderbyn gan Orfodaeth Mewnffido ar gyfer gwaith a wnaed i adolygu

cyfeiriadau priodol. Amcan ariannol yr IOPC ar gyfer incwm o gyrff llywodraeth eraill yw adfer cost llawn yn unol â Chanllaw Ffioedd a Chostau'r Trysorlys. Cafodd yr amcan ariannol hwn ei gyflawni. Darperir y dadansoddiad isod at ddibenion ffioedd a chostau ac nid at ddibenion IFRS 8 fel y cyfarwyddir gan y FReM.


Ffioedd a chostau	2022/23 Incwm £'000	2022/23 Costau £'000	2022/23 (Diffyg) £'000	2021/22 Incwm £'000	2021/22 Costau £'000	2020/21 (Diffyg) £'000
Incwm CThEF	45	45	-	47	(47)	-
Gorfodaeth Mewnfudo	3	3	-	10	(10)	-
Incwm o weithgareddau	48	48	-	57	(57)	-
Incwm amrywiol	16	16	-	48	(48)	-
Incwm arall	16	16	-	48	(48)	-
Cyfanswm	64	64	-	105	(105)	-

Rhwymedigaethau amodol o bell

Mae'r adran hon wedi'i harchwilio.

Mae gan yr IOPC rwymedigaethau wrth gefn o bell mewn perthynas â hawliadau cyfreithiol yn erbyn yr IOPC. Nid yw llawer o'r hawliadau wedi'u manylu'n ddigonol i alluogi'r IOPC i amcangyfrif y rhwymedigaeth lawn pe bai'r hawliadau'n llwyddiannus. Gwerth hawliadau penodol ar gyfer 2022/23 yw £2,000.

(2021/22: dim).



Tom Whiting
Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro
26 Ionawr 2024

Adran 3:

Datganiadau ariannol

Datganiad o wariant net cynhwysfawr am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023	Nodyn	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Refeniw o gontractau â chwsmeriaid		64	105
Cyfanswm incwm gweithredol		64	105
Costau staff	4	(54,367)	(51,917)
Prynu nwyddau a gwasanaethau	4	(13,443)	(15,245)
Costau dibrisiant ac amorteiddiad	4	(4,914)	(3,409)
Enillion ar waredu asedau anghyfredol	4	4	45
Gwrthdroadau darpariaeth (cost) a gweddiill sydd ddim yn arian parod	4	144	(8)
Cyfanswm gwariant gweithredu		(72,576)	(70,534)
Gwariant net am y flwyddyn		(72,512)	(70,429)
Gwariant net cynhwysfawr arall			
Eitemau na fydd yn cael eu hailddosbarthu i wariant gweithredu net			
Enillion (colled) actiwaraidd ar rwymedigaethau cynllun pensiwn	3.1	770	(158)
Cyfanswm gwariant net cynhwysfawr am y flwyddyn		(71,742)	(70,587)

Mae'r canlyniadau ar gyfer y flwyddyn yn deillio o weithrediadau parhaus yr IOPC.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 152 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023	Nodyn	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Asedau anghyfredol			
Eiddo, peirianwaith a chyfarpar	5	5,364	6,313
Asedau anniriaethol	6	3,726	3,333
Asedau hawl i ddefnyddio	12	12,824	-
Cyfanswm asedau anghyfredol		21,914	9,646
Asedau cyfredol			
Masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	1,151	1,193
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod	8	6,603	8,420
Cyfanswm asedau cyfredol		7,754	9,613
Cyfanswm asedau		29,668	19,259
Rhwymedigaethau cyfredol			
Darpariaethau	11	(96)	(95)
Rhwymedigaethau prydles	12	(2,157)	-
Masnach a symiau taladwy eraill	10	(8,319)	(9,808)
Cyfanswm rhwymedigaethau cyfredol		(10,572)	(9,903)
Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol		19,096	9,356
Rhwymedigaethau anghyfredol			
Darpariaethau	11	(2,970)	(2,976)
Rhwymedigaethau prydles	12	(11,449)	-
Rhwymedigaethau pensiwn	3.1	(1,730)	(2,587)
Masnach a symiau taladwy eraill	10	-	(104)
Cyfanswm rhwymedigaethau anghyfredol		(16,149)	(5,667)
Cyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau		2,947	3,689
Ecwiti ac arian wrth gefn arall trethdalwr			
Arian wrth gefn cyffredinol		4,677	6,276
Pensiwn wrth gefn		(1,730)	(2,587)
Cyfanswm ecwiti		2,947	3,689

Thomas Whiting

Tom Whiting

Cyfarwyddwr Cyffredinol Dros Dro
26 Ionawr 2024

Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 152 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad llifau arian ar gyfer y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023	Nodyn	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Llifau arian o weithgareddau gweithredu			
Gwariant net am y flwyddyn		(72,512)	(70,429)
Addasiad ar gyfer rhai nad ydynt yn arian parod	4	4,766	3,372
Addasiad ar gyfer llog prydles	4	137	-
(Cynnydd)/gostyngiad mewn masnach a symiau derbyniadwy eraill	9	(129)	575
(Gostyngiad)/cynnydd mewn masnach a symiau taladwy eraill	10	(1,237)	383
Gostyngiad mewn rhwymedigaethau eraill	10	(104)	(85)
Buddion pensiwn a dalwyd	3.1	(126)	(71)
All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu		(69,205)	(66,255)
Llifau arian o weithgareddau buddsoddi			
Prynu eiddo, peirianwaith, a chyfarpar	5	(669)	(2,180)
Prynu asedau anniriaethol	6	(1,264)	(1,075)
Elw o waredu asedau		5	114
All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi		(1,928)	(3,141)
Llifau arian o weithgareddau cyllido			
Grantiau o'r Swyddfa Gartref		71,000	72,000
Taliadau am rwymedigaethau prydles		(1,547)	-
Taliadau am log prydles	4	(137)	-
Llifau arian net o weithgareddau cyllido		69,316	72,000
(Gostyngiad)/cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn y cyfnod	8	(1,817)	2,603

Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddechrau y cyfnod	8	8,420	5,817
Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod ar ddiwedd y cyfnod		6,603	8,420

Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 152 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr am y flwyddyn yn dod i ben 31 Mawrth 2023	Nodyn	Arian wrth gefn cyffredino I £'000	Pensiwn wrth gefn £'000	Cyfanswm arian wrth gefn £'000
Balans ar 31 Mawrth 2021		4,746	(2,470)	2,276
Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2021/22				
Grant o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd ar gyfer gwariant refeniw	16	68,744	-	68,744
Grant o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf	16	3,256	-	3,256
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		(41)	41	-
Gwariant net am y flwyddyn		(70,429)	-	(70,429)
Colled actiwaraid yn y flwyddyn		-	(158)	(158)
Balans ar 31 Mawrth 2022		6,276	(2,587)	3,689

Newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer 2022/23	Nodyn	Arian wrth gefn cyffredino I £'000	Pensiwn wrth gefn £'000	Cyfanswm arian wrth gefn £'000
Grant o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd ar gyfer gwariant refeniw	16	69,067	-	69,067

Grant o'r Swyddfa Gartref a dderbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf	16	1,933	-	1,933
Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd wrth gefn		(87)	87	-
Gwariant net am y flwyddyn		(72,512)	-	(72,512)
Enillion actwaraidd yn y flwyddyn		-	770	770
Balans ar 31 Mawrth 2023		4,677	(1,730)	2,947

Mae'r gronfa bensiwn wrth gefn yn cynrychioli rhwymedigaethau ar gyfer pensiynau a ddisgrifir yn nodyn 3. Mae'r nodiadau ar dudalennau 128 i 152 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Nodiadau i'r cyfrifon

1 Datganiad o bolisiau cyfrifo

Mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi yn unol â Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth 2022/23 (FReM) a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifo a gynhwysir yn y FReM yn cynhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS) fel y haddesir neu y dehonglir ar gyfer cyd-destun y sector cyhoeddus.

Lle mae'r FReM yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifo, mae'r polisi cyfrifo sy'n cael ei ddyfarnu i fod y mwyaf priodol i amgylchiadau'r IOPC at ddiben rhoi golwg gwir a theg wedi cael ei ddewis. Mae'r polisiau a fabwysiadwyd gan yr IOPC yn cael eu disgrifio isod. Maen nhw wedi cael eu cymhwyso'n gyson wrth ddelio ag eitemau sy'n cael eu hystyried yn berthnasol i'r cyfrifon.

Mae'r datganiadau ariannol yn cael eu cyflwyno mewn Sterling ac mae'r holl werthoedd yn cael eu talgrynnu i'r mil o bunnoedd agosaf (£'000).

1.1 Confensiynau cyfrifo

Mae'r cyfrifon hyn wedi cael eu paratoi ar sail croniadau o dan y confensiwn cost hanesyddol ar gyfer ailbriso eiddo, peirianwaith a chyfarpar ac asedau anniriaethol, ac eithrio lle mae cost hanesyddol dibrisiedig yn cael ei ddefnyddio fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol mewn defnydd presennol ar gyfer asedau oes fer neu werth isel.

1.2 Busnes hyfyw

Mae gweithgareddau'r IOPC yn cael eu cyllido'n bennaf gan y Swyddfa Gartref. Mae grant mewn cymorth ar gyfer 2023/24, gan gymryd y swm gofynnol i ateb rhwymedigaethau'r IOPC sy'n syrthio o fewn y flwyddyn i ystyriaeth, wedi cael ei gynnwys eisoes yn amcangyfrifon cyflenwi'r Swyddfa Gartref am y flwyddyn honno. Mae'r rhain wedi cael eu cymeradwyo gan y Senedd. Nid oes rheswm i gredu na fydd y Swyddfa Gartref yn derbyn nawdd a chymeradwyaeth seneddol yn y dyfodol. Mae hi, felly, wedi cael ei hystyried yn briodol i fabwysiadu sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

1.3 Grant mewn cymorth

Mae grant a dderbynnir mewn cymorth yn cael ei ddefnyddio i gyllido gweithgareddau a gwariant sy'n cefnogi amcanion statudol yr IOPC. Rhoddir cyfrif amdano trwy gronfeydd wrth gefn.

1.4 Eiddo, peirianwaith a chyfarpar

Mae eiddo, peirianwaith a chyfarpar (PPE) yn cael eu cydnabod ar gost ac wedi hynny ar werth presennol mewn defnydd sy'n bodoli llai dibrisiant a diffyg.

Mae cost yn cynnwys y swm o arian parod a delir i gaffael yr asedau ac mae'n cynnwys unrhyw gost yn uniongyrchol briodoladwy i wneud yr ased yn abl i gael ei gweithredu fel y bwriedir. Y trothwy cyfalafu ar wariant ar PPE yw £5,000.

Nid yw'r IOPC yn berchen ar unrhyw eiddo. Mae'r holl beirianwaith a chyfarpar yn cael eu hadolygu'n flynyddol am ddiffyg ac mae'n cael ei gario ar werth presennol mewn defnydd sy'n bodoli. Mae'r IOPC wedi dewis mabwysiadu cost hanesyddol dibrisiedig fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol mewn defnydd presennol ar gyfer asedau PPE oes fer neu werth isel.

Mae gwariant ar addasu adeiladau wedi'i gyllido gan lesiau gweithredol yn cael eu cyfalafu fel ased anghyfredol os yw'r gwaith yn ychwanegu gwerth at yr adeilad. Mae cost addasu adeiladau yn gallu cynnwys costau dodrefn a chyfarpar newydd sy'n costio llai na £5,000 yn unigol lle mae'r Swyddog Cyfrifo yn ei hystyried yn fwy priodol i gyfalafu'r costau. Bydd costau newid dodrefn a chyfarpar yn y dyfodol yn cael eu cyllido o'r gyllideb adnoddau ar yr amod fod y costau o dan y trothwy cyfalafu ar adeg y newid.

1.5 Asedau anniriaethol

Mae asedau anniriaethol yn cael eu mesur ar gydnabyddiaeth gychwynnol ar gost ac wedi hynny ar werth cyfredol mewn defnydd presennol llai amorteiddiad ac amhariad. Mae asedau anniriaethol a gynhyrchir yn fewnol, gan eithrio costau datblygu wedi'u cyfalafu, ddim wedi cael eu cyfalafu ac mae gwariant yn cael ei gydnabod yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr yn y flwyddyn y cafodd y gwariant ei greu ynddi.

Mae gwariant ar asedau anniriaethol sy'n drwyddedau meddalwedd, a'r costau cysylltiedig o weithredu wedi'i gyfalafu lle mae'r gost yn £5,000 neu fwy.

Ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol mae'r asedau anniriaethol yn cael eu hasesu ar gyfer lleihad ac mae'r cyfnod a'r dull amorteiddio hefyd yn cael eu hadolygu. Mae'r IOPC wedi dewis mabwysiadu cost hanesyddol amorteiddiedig fel dirprwy ar gyfer gwerth cyfredol mewn defnydd presennol ar gyfer asedau oes fer neu werth isel.

1.6 Dibrisiant ac amorteiddiad

Mae dibrisiant neu amorteiddiad yn cael ei gynnig ar bob ased anghyfredol mewn defnydd ar sail llinell syth i ddiddymu'r gost neu werth dros oes ddefnyddiol yr ased fel ganlyn:

Math o ased.....	Oes defnyddiol
Dodrefn.....	Hyd y brydles neu oes ddefnyddiol a ragwelir
Cerbydau.....	8 mlynedd
Technoleg Gwybodaeth.	3 i 5 o flynyddoedd
Asedau anniriaethol.....	5 mlynedd neu oes ddefnyddiol a ragwelir

1.7 Pensiynau

a) Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil

Mae pensiynau i fod i gael eu darparu fel arfer gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS), sy'n cael ei ddisgrifio'n fwy yn yr adroddiad talu a staff. Mae datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS yn ei gyfanrwydd. Mae cyfraniadau pensiwn cyflogwyr yn cael eu cyfrifo ar sail croniadau. Mae rhwymedigaethau'n gorwedd â'r PCSPS ac nid yr IOPC.

b) Yn fras trwy gydweddiad

Yn achos rhai cyn-aelodau o Awdurdod Cwynion yr Heddlu, mae pensiynau'n cael eu darparu trwy drefniant pensiwn yn Fras trwy Gydweddiad. Yn yr achosion hyn, mae cost flynyddol cyfraniad y pensiwn yn cael ei gydnabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr. Mae symiau sy'n gysylltiedig â newidiadau ym mhriadiad actiwaraid rhwymedigaethau cynllun yn cael eu haddasu trwy'r Datganiad o Newidiadau mewn Ecwiti Trethdalwyr. Mae rhwymedigaethau ar gyfer y cynllun Yn Fras trwy Gydweddiad yn gorwedd â'r IOPC. Mae'r rhain yn cael eu cydnabod yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn yn cydymffurfio'n llawn ag IAS 19: Buddion Gweithwyr.

1.8 Costau staff

Yn unol ag IAS 19 Buddion Gweithwyr, mae'r IOPC yn cydnabod y costau disgwylidig o fuddion gweithwyr tymor byr ar ffurf absenoldebau y telir amdanynt, fel y canlynol:

(a) yn achos crynhoi absenoldebau y telir amdanynt, pan fydd y gweithwyr yn cyflwyno gwasanaeth sy'n cynyddu eu hawl i absenoldebau y telir amdanynt yn y dyfodol; a

(b) yn achos absenoldebau y telir amdanynt sydd ddim yn crynhoi, pan fydd yr absenoldebau'n digwydd.

Mae iawndal yn seiliedig ar dâl gwyliau cytundebol yn unig ac mae'n eithrio gwyliau hyblyg a grynhoir.

1.9 Darpariaethau

Yn unol â IAS 37, mae darpariaethau'n cael eu datgelu yn y Datganiad Sefyllfa Ariannol ar gyfer rhwymedigaethau cyfreithiol neu adeiladol mewn bodolaeth ar ddiwedd y cyfnod adrodd os yw swm y taliad i dalu am y rhwymedigaeth yn debygol ac y gellir ei amcangyfrif yn ddibynadwy. Mae'r swm a gydnabyddir mewn darpariaethau yn ystyried yr adnoddau sydd eu hangen i dalu am rhwymedigaethau talu yn y dyfodol.

Mae mesuriad yn seiliedig ar y swm talu â'r tebygolrwydd uchaf neu os yw'r tebygolrwyddau yn gyfartal, yna gan ddefnyddio gwerth disgwylidig y symiau talu. Nid yw llifau arian disgwylidig yn cael eu disgowntio gan na fyddai'r effaith yn berthnasol. I'r graddau bod hawliau adferiad yn bodoli o fewn ystyr IAS 37, mae'n nhw'n cael eu hystyried fel rhwymedigaeth ar wahân os yw eu gwireddiad yn sicr i bob pwrpas.

1.10 Treth ar Werth

Mae'r IOPC wedi cael ei gofrestru ar gyfer TAW ond mae'n gallu adennill TAW ar bryniadau wrth ymgymryd â gweithgareddau anstatudol yn unig. Mae unrhyw dreth adenilladwy yn cael ei chredydu i'r Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr.

1.11 Treth gorfforaeth

Mae'r IOPC wedi cofrestru ar gyfer treth gorfforaeth fel rhan o grŵp treth gorfforaeth y Swyddfa Gartref.

1.12 Prydlesi

Rhoddodd yr IOPC IFRS 16 ar waith ar 1 Ebrill 2022. Mae Prydlesi IFRS16 yn disodli Prydlesi IAS 17 ac yn weithredol am gyfnodau sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2022. Mae IFRS 16 yn darparu model cyfrifyddu prydleswr sengl ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i lesddeiliad gydnabod asedau a rhwymedigaethau

ar gyfer lesioedd sy'n para dros 12 mis, gan ddileu'r driniaeth bresennol oddi ar y fantolen o brydlesi gweithredu o dan IAS 17.

Effaith y safon newydd

Roedd effaith cymhwyso IFRS 16 ar yr IOPC fel ganlyn:

Effaith SOFP IFRS 16 ar 1 Ebrill 2022	£000's
Asedau hawl i ddefnyddio a grëwyd 1 Ebrill 2022	15,073
Addasiad ar gyfer rhagdaliadau a chroniadau presennol (Net)	81
Cydnabyddiaeth rhwymedigaeth les 01 Ebrill 2022	(15,154)

Effeithiau SoCNE IFRS 16 yn 2022/23	£000's
Dibrisiant	2,249
Gwariant llog	137
TAW anadferadwy	173
Taliadau rhent sail IAS 17	(2,154)
Cynnydd mewn gwariant net	405

Mae rhagor o ddatgeliadau meintiol i'w gweld yn nodyn 12.

1.14 Safonau dan sylw, ond heb ddod i rym eto

Mae safonau newydd sy'n cael eu cyhoeddi ond nad ydynt yn effeithiol eto yn cynnwys IFRS 17 *Contractau Yswiriant*, neu newidiadau eraill na fydd yn cael unrhyw effaith ar yr IOPC.

1.15 Safonau newydd sy'n cael eu mabwysiadu

Rhoddodd yr IOPC IFRS 16 ar waith ar 1 Ebrill 2022. Ni fabwysiadwyd unrhyw safonau eraill.

1.16 Dyfarniadau cyfrifyddu critigol a ffynonellau allweddol o ansicrwydd amcangyfrif

Mae paratoi datganiadau ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i reolwyr wneud amcangyfrifon a thybiaethau sy'n effeithio ar y symiau o asedau a

rhwymedigaethau a adroddir, datgeliadau o asedau a rhwymedigaethau wrth gefn a'r symiau incwm a gwariant a adroddir yn ystod y cyfnod. Gallai'r canlyniadau gwirioneddol fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hyn. Ceir gwybodaeth am y dyfarniadau a'r amcangyfrifon hyn isod.

Rhwymedigaethau pensiwn BBA Nodir y rhwymedigaethau ar werth teg yn seiliedig ar y prisiad a gyflawnir gan Adran Actiwariad y Llywodraeth. Mae'r rhagdybiaethau prisio ar gyfer y gyfradd ddisgownt a'r codiadau pensiwn wedi'u pennu gan Drysorlys EM yn y TWE (2022) 08, dyddiedig 2 Rhagfyr 2022, ac nid ydynt wedi newid ar gyfer y datgeliadau hyn. Mae'r tybiaethau PES yn adlewyrchu amodau'r farchnad ar 30 Tachwedd blaenorol ac nid ydynt fel arfer yn cael eu diwygio ar gyfer unrhyw newidiadau rhwng Tachwedd a'r dyddiad cyfrifo. Mae'r tybiaethau'n parhau'n weddol gyson â'r rhai a ddefnyddir ar gyfer cyfrifon PCSPS ar 31 Mawrth 2023.

Darpariaethau adfer. Mae'r IOPC wedi ymrwmo i sawl cytundeb rhentu ar gyfer yr eiddo y mae'n ei feddiannu. Mae'r rhan fwyaf o'r cytundebau hyn yn cynnwys cymalau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r IOPC, ar ddiwedd y cyfnod rhentu, adfer yr eiddo i'w gyflwr gwreiddiol neu dalu cost unrhyw waith angenrheidiol i gyflawni hyn i'r landlord. Mae'r IOPC felly yn darparu ar gyfer y gost o gael gwared ag unrhyw addasiadau y mae'n eu gwneud ac atgyweirio unrhyw ddifrod neu draul sy'n digwydd yn ystod ei denantiaeth.

Mae darpariaethau ar gyfer costau adfer eiddo yn Canary Wharf yn seiliedig ar brisiad a ddarparwyd gan Asiantaeth Eiddo'r Llywodraeth (GPA). Ym mhob eiddo arall mae'r darpariaethau'n seiliedig ar brisiadau a wnaed gan brisiwr proffesiynol annibynnol Cushman a Wakefield sydd â phrofiad diweddar yn y lleoliad a'r categori prisio. Cymhwysir mynegeoio rhwng prisiadau proffesiynol.

Bywyd economaidd asedau. Mae bywydau asedau'r IOPC yn cael eu hailasesu bob blwyddyn. Mae bywydau economaidd asedau eiddo gan gynnwys asedau hawl i ddefnyddio fel arfer yn seiliedig ar y dybiaeth bod Rheolaethau Eiddo Cenedlaethol yn berthnasol, a bod yr oes economaidd yn cael ei osod i'r cynharaf o doriad y brydles neu ddiwedd y brydles. Mae bywydau asedau diriaethol eraill yn seiliedig ar ein profiad o hyd eitemau tebyg. Mae asedau anniriaethol fel arfer yn seiliedig ar yr oes ddisgwyliedig ar ôl ystyried systemau amnewid posibl.

Croniadau a darpariaethau Gwasanaethau Cyfreithiol. Mae'r IOPC yn gwneud cronladau a darpariaethau ar gyfer achosion cyfreithiol sydd heb eu cwblhau ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Gan nad yw'r data sydd eu hangen i asesu ffioedd cwnsler yn gywir ar gyfer yr achosion hyn ar gael tan gryn amser ar ôl diwedd y flwyddyn, mae'r IOPC yn defnyddio data o'r gronfa ddata gyfreithiol i amcangyfrif swm y ffioedd sy'n debygol o fod wedi'u hysgwyddo.

Asedau Hawl i Ddefnyddio Mae'r IOPC wedi rhagdybio y bydd y Rheolaeth Eiddo Genedlaethol yn berthnasol i bob toriad prydles yn y dyfodol.

2 Datganiad o gostau gweithredu fesul segment gweithredu

Mae'r segmentau gweithredu yn seiliedig ar strwythur adrodd ariannol y bwrdd rheoli ar 31 Mawrth 2023. Nid yw asedau net fesul segment yn cael eu hadrodd i'r bwrdd.

Mae rhagor o wybodaeth am incwm gan gwsmeriaid allanol ar gael yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae incwm gan HMRC yn fwy na 10% o referniw'r IOPC ac mae wedi'i gynnwys yn segment y Gyfarwyddiaeth Weithrediadau.

Rhan	2022/23 Gwariant gros £'000	2022/23 Incwm £'000	2022/23 Gwariant net £'000
Cyfarwyddiaeth Gwasanaethau Corfforaethol	14,018	(16)	14,002
Cyfarwyddiaeth Gweithrediadau	32,620	(48)	32,572
Grŵp Swyddfa Breifat	1,465	-	1,465
Gwasanaethau Cyfreithiol	3,762	-	3,762
Cyfarwyddiaeth Strategaeth ac Effaith	10,743	-	10,743
Cyfarwyddiaeth Pobl	5,202	-	5,202
Heb fod yn arian parod	4,766	-	4,766
Cyfanswm	72,576	(64)	72,512

Rhan	2021/22 Gwariant gros £'000	2021/22 Incwm £'000	2021/22 Gwariant net £'000
Gwasanaethau Corfforaethol	15,789	(48)	15,741
Gweithrediadau	31,022	(57)	30,965
Grŵp Swyddfa Breifat	1,196	-	1,196
Gwasanaethau Cyfreithiol	3,832	-	3,832
Strategaeth ac Effaith	10,263	-	10,263
Pobl	5,060	-	5,060

Heb fod yn arian parod	3,372	-	3,372
Cyfanswm	70,534	(105)	70,429

3 Pensiynau

3.1 Cynllun pensiwn bras trwy gydweddiad

Mae rhai comisiynwyr a staff IPCC a wasanaethodd fel aelodau ag Awdurdod Cwynion yr Heddlu (PCA) yn derbyn pensiynau'n fras trwy gydweddiad (BBA) â'r PCSPS.

Nid yw'r pensiynau BBA wedi'u cyllido, gyda buddion yn cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus ac wedi'u gwarantu gan yr IOPC. Nid oes cronfa ac felly nid oes gwarged na diffyg.

Mae rhwymedigaethau gwasanaeth y cynllun wedi cael eu cyfrifo gan Adran Actiwari'r Llywodraeth gan ddefnyddio'r rhagdybiaethau ariannol canlynol:

Rhagdybiaeth	2022/23	2021/22
Cyfradd a ddefnyddir i ddisgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	4.15%	1.55%
Cyfradd rhagdybiaeth chwyddiant CPI	2.4%	2.9%
Cyfradd cynnydd mewn taliad pensiynau a phensiynau gohiriedig	2.4%	2.9%

Mae'r rhagdybiaethau ar gyfer y raddfa ddisgownt a chynnydd pensiwn yn cael eu nodi gan Drysorlys EF yn y PES (2022) papur 08, dyddiedig 2 Rhagfyr 2022, ac yn aros yn ddigyfnewid ar gyfer y cyfrifon hyn. Mae'r rhagdybiaethau PES yn adlewyrchu amodau'r farchnad ar 30 Tachwedd 2022 a fel arfer ddim yn cael eu diwygio ar gyfer unrhyw newidiadau rhwng Tachwedd a'r diwrnod cyfrifo.

Mae'r rhagdybiaethau marwolaeth yn defnyddio rhagdybiaethau gwerthuso PCPS 2020 gyda phrif amcanestyniadau poblogaeth y DU Swyddfa'r Ystadegau Gwladol yn 2020 (2018 am y flwyddyn flaenorol) sy'n rhoi'r disgwyliadau oes canlynol ar ymddeoliad.

	31 Mawrth 2023		31 Mawrth 2022	
	Dynion	Menywod	Dynion	Menywod
Pensiynwyr presennol				
Yn 60 oed	26.6	28.1	27.0	28.6

Yn 65 oed	21.8	23.2	22.1	23.8
-----------	------	------	------	------

O fis Mawrth 2023 mae cynllun BBA wedi cau i bensiynwyr y dyfodol.

Mae'r rhwymedigaethau yn gysylltiedig ag aelodau fel ganlyn	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Darpariaeth pensiwn		
Balans ar 1 Ebrill	2,587	2,470
(Gostyngiad)/cynnydd yn y ddarpariaeth	(857)	117
Gwerth presennol rhwymedigaethau	1,730	2,587

Symiau eraill i gael eu datgelu i ddeall y newid mewn darpariaeth	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Rhwymedigaeth y cynllun ar ddechrau'r flwyddyn	2,587	2,470
Symudiad yn y flwyddyn		
Cost llog	39	30
Actiwaraid (Enillion)/colled	(770)	158
Buddion a dalwyd	(126)	(71)
(Gostyngiad)/cynnydd mewn atebolrwydd cynllun	(857)	117
Rhwymedigaeth y cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	1,730	2,587

Cost i gael ei chydabod yn y Datganiad Gwariant Net Cynhwysfawr	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Costau llog	39	30
Cyfanswm cost	39	30

Colled/(enillion) actwiaraidd i gael eu cydnabod mewn Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Colled profiad yn deillio o rwymedigaethau'r cynllun	83	33
Newid mewn rhagdybiaethau sy'n sylfaen i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun	(853)	125
Cyfanswm net actiwaraidd (ennill)/colled ar ecwiti trethdalwyr	(770)	158

Nid oes costau gweithwyr a chyflogwr yn daladwy yn 2022/23.

Gwerth presennol rhwymedigaethau 'r cynllun	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2020 £'000	31 Mawrth 2019 £'000
Rhwymedigaeth ynglŷn â:					
Pensiynwyr gohiriedig	-	680	629	583	512
Pensiynau presennol	1,730	1,907	1,841	1,788	1,686
Cyfanswm gwerth presennol rhwymedigaethau 'r cynllun	1,730	2,587	2,470	2,371	2,198
Hanes profiad colled/(enillion)	83	33	(32)	(11)	7
Canran rhwymedigaethau'r cynllun ar ddiwedd y flwyddyn	4.8%	1.3%	-1.3%	-0.5%	0.3%

Sensitifrwydd y rhwymedigaeth budd ddiffiniedig (DBO) i newidiadau mewn rhagdybiaethau actiwaraid sylweddol

Newid mewn rhagdybiaeth		Effaith ar BDO	
		%	£'000
Cyfradd disgowntio rhwymedigaethau'r cynllun	+ 0.5% y flwyddyn	-6%	(102)
Cyfradd cynnydd mewn CPI	+ 0.5% y flwyddyn	6%	96
Disgwyliad oes: tybir bod pob aelod flwyddyn yn iau na'r oedran gwirioneddol		3%	44

3.2 Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Mae Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn y Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “alpha” – yn gynlluniau buddion diffiniedig amlgyflogwr heb eu hariannu, ond ni all yr IOPC nodi ei gyfran o'r asedau sylfaenol a rhwymedigaethau. Prsiodd actiwarai'r cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2016. Mae manylion i'w gweld yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (<https://www.civilservicepensionscheme.org.uk>).

Ar gyfer 2022/23, roedd cyfraniadau cyflogwr o £9,952k yn daladwy i'r PCSPS (2021/22 £9,367k) ar un o bedair cyfradd yn yr ystod 26.6% i 30.3% (2021/22 26.6% i 30.3%) o gyflog pensiynadwy, yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwarai'r cynllun yn adolygu cyfraniadau cyflogwyr, fel arfer pob pedair blynedd yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun.

Mae'r cyfraddau cyfrannu yn cael eu gosod i ateb cost y buddion sy'n cronni yn ystod 2022/23 i gael eu talu pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddion a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Mae gweithwyr yn gallu dewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, pensiwn rhanddeiliad gyda chyfraniad cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwr o £275k (2021/22 £252k) i'r darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau cyflogwyr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 8% i 14.75% o enillion pensiynadwy.

Mae cyflogwyr hefyd yn cyfateb cyfraniadau cyflogai hyd at 3% o enillion pensiynadwy. Yn ogystal, roedd cyfraniadau cyflogwr o £9k (2021/22 £9k), 0.5% o enillion pensiynadwy, yn daladwy i'r PCSPS i dalu cost darparu buddion

cyfandaliad yn y dyfodol ar farwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad ar sail afiechyd y gweithwyr hyn.

Y cyfraniadau a oedd yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y fantolen oedd £30k (2021/22 £28k).

Disgwylir i gyfraniadau cyflogwr o £9,765k fod yn daladwy i PCSPS ar gyfer y cyfnod adrodd blynyddol nesaf.

4 Gwariant

	Nodyn	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Costau staff			
Cyflogau a thaliadau		40,244	38,713
Cost nawdd cymdeithasol		4,301	4,013
Cyfraniadau pensiwn		10,236	9,628
Llai: adferiadau o secondiadau allan		(414)	(437)
Cyfanswm costau net staff		54,367	51,917
Prynu nwyddau a gwasanaethau			
TG		5,131	5,318
Rhentu llety		173	2,270
Llety heb ei rentu		3,196	2,701
Gwasanaethau cyfreithiol		1,210	1,531
Teithio a chynhaliaeth		860	545
Ffioedd proffesiynol		691	720
Hyfforddiant		459	586
Fforensigau		360	490
Recrwtio		303	177
Cyfarwyddyd i'r heddlu a'r cyhoedd		139	102
Llog prydles		137	-
Post a deunydd ysgrifennu		85	97
Ymchwil		65	102
Ffi archwilio - allanol		64	55
Costau eraill		570	551

	Nodyn	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Cyfanswn prynu nwyddau a gwasanaethau		13,443	15,245
Eitemau heb fod am arian parod			
Dibrisiant - PPE	5	1,794	2,385
Dibrisiant - ROU	12	2,249	-
Amorteiddiad	6	871	1,024
Darpariaethau net o wrthdroi	11	(183)	(22)
Ennillion ar waredu asedau anghyfredol		(4)	(45)
Cost pensiwn BBA	3.1	39	30
Cyfanswm eitemau sydd ddim yn arian parod		4,766	3,372
Cyfanswm gwariant gweithredu			
		72,576	70,534

Mae datgeliadau manylach ar gostau staff wedi'u cynnwys yn yr Adroddiad Atebolrwydd.

Y ffi ar gyfer archwiliad allanol 2022/23 o'r Datganiad Cyfrifon oedd £61,520 (2021/22 £55,300). Ni wnaeth yr archwilwyr allanol ymgymryd ag unrhyw waith heb fod yn waith archwilio.

5 Eiddo, peirianwaith a chyfarpar

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cerbydau £'000	Dodrefn a gosodiadau £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2022	1,096	5,736	1,173	10,922	18,927
Aiddosbarthiadau	(1,086)	540	-	546	-
Addasiadau	-	-	-	178	178
Ychwanegiadau	224	294	-	151	669
Gwarediadau	-	(375)	-	-	(375)

Ar 31 Mawrth 2023	234	6,195	1,173	11,797	19,399
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2022	-	2,814	573	9,227	12,614
Cost am y flwyddyn	-	987	112	695	1,794
Gwarediadau	-	(373)	-	-	(373)
Ar 31 Mawrth 2023		3,428	685	9,922	14,035
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023					
234	2,767	488	1,875	5,364	

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cerbydau £'000	Dodrefn a gosodiadau £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad					
Ar 1 Ebrill 2021	2,039	5,856	853	11,468	20,216
Aiddosbarthiadau	(2,039)	1,219	613	207	-
Addasiadau	-	-	-	(338)	(338)
Ychwanegiadau	1,096	1,084	-	-	2,180
Gwarediadau	-	(2,423)	(293)	(415)	(3,131)
Ar 31 Mawrth 2022	1,096	5,736	1,173	10,922	18,927
Dibrisiant					
Ar 1 Ebrill 2021	-	3,617	632	9,042	13,291
Cost am y flwyddyn	-	1,616	169	600	2,385
Gwarediadau	-	(2,419)	(228)	(415)	(3,062)
Ar 31 Mawrth 2022	-	2,814	573	9,227	12,614

Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022	1,096	2,922	600	1,695	6,313
---	--------------	--------------	------------	--------------	--------------

6 Asedau anniriaethol

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2022	1,256	11,688	12,944
Ailddosbarthiadau	(351)	351	-
Ychwanegiadau	1,094	170	1,264
Gwarediadau	-	(131)	(131)
Ar 31 Mawrth 2023	1,999	12,078	14,077
Amorteiddiad			
Ar 1 Ebrill 2022	-	9,611	9,611
Cost am y flwyddyn	-	871	871
Gwarediadau	-	(131)	(131)
Ar 31 Mawrth 2023	-	10,351	10,351
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023	1,999	1,727	3,726

Yr asedau anniriaethol mwyaf arwyddocaol sy'n cael eu hadeiladu yw creu system rheoli cofnodion electronig newydd yn seiliedig ar SharePoint a datblygu System Rheoli Achosion newydd y disgwylir iddi gael ei chwblhau yn 2023/24 Y gwerthoedd llyfr net ar 31 Mawrth 2023 yw £942k a £792k yn y drefn honno.

Yr ased anniriaethol mwyaf arwyddocaol yw ein system Rheoli Achosion bresennol â gwerth llyfr net o £581k. Mae'r ased yn cael ei amorteiddio hyd at 31 Mawrth 2024 pan ddisgwylir iddo gael ei ddisodli gan y system newydd.

	Taliadau ar gyfrif ac asedau'n cael eu hadeiladu £'000	Technoleg gwybodaeth £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad			
Ar 1 Ebrill 2021	913	11,915	12,828
Aiddosbarthiadau	(309)	309	-
Ychwanegiadau	652	423	1,075
Gwarediadau	-	(959)	(959)
Ar 31 Mawrth 2022	1,256	11,688	12,944
Amorteiddiad			
Ar 1 Ebrill 2021	-	9,546	9,546
Cost am y flwyddyn	-	1,024	1,024
Gwarediadau	-	(959)	(959)
Ar 31 Mawrth 2022	-	9,611	9,611
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2022	1,256	2,077	3,333

7 Offerynnau ariannol

Nid yw'r IOPC yn cadw unrhyw offerynnau ariannol cymhleth. Yr offerynnau ariannol a gynhwysir yn y cyfrifon yw arian parod, symiau derbyniadwy, symiau taladwy ac asedau contract. Mae symiau masnach derbyniadwy yn cael eu cydnabod yn y lle cyntaf ar werth teg llai darpariaeth ar gyfer lleihad. Mae darpariaeth ar gyfer lleihad yn cael ei wneud pan fydd tystiolaeth na fydd yr IOPC yn gallu casglu swm yn unol â thelerau cytunedig.

Mae adnoddau'r IOPC yn cael eu cyflenwi'n bennaf trwy grant mewn cymorth o'r Swyddfa Gartref trwy'r broses o gyflenwi ac o incwm am waith a gwblheir ar sail ad-dalu. Nid oes gan yr IOPC bwerau i fenthylg arian nac i fuddsoddi cronfeydd dros ben heblaw am yr asedau a'r rhwymedigaethau ariannol a gynhrychir gan weithgareddau gweithredol dydd i ddydd. O ganlyniad, mae'r IOPC yn agored i ychydig neu ddim credyd, hylifedd, arian cyfred tramor, neu risg o chwyddiant.

8 Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Balans agoriadol	8,420	5,817
Newid net mewn balansau arian parod yn ystod y flwyddyn	(1,817)	2,603
Balans cau arian parod	6,603	8,420

Dim ond arian parod sy'n cael ei gadw ac sydd ar gael ar unwaith gan Wasanaeth Bancio'r Llywodraeth

9 Masnach a symiau derbyniadwy eraill

	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Symiau sy'n syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn		
Asedau contract	13	32
Symiau masnach derbyniadwy	31	83
Benthyciadau i staff	39	20
Rhagdaliadau	1,068	1,058
Cyfanswm yn syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn	1,151	1,193

10 Masnach a symiau taladwy eraill

	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Symiau sy'n syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn		
TAW	101	31
Trethiant arall a nawdd cymdeithasol	2,200	2,142
Buddion staff	2,092	2,334
Dargadwadau	254	254
Symiau taladwy eraill	2	-
Croniadau ac incwm gohiriedig	3,670	5,047

	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Cyfanswm yn syrthio'n ddyledus o fewn un flwyddyn	8,319	9,808
Symiau sy'n syrthio'n ddyledus ar ôl mwy nag un flwyddyn		
Symiau taladwy, croniadau ac incwm gohiriedig eraill	-	104
Cyfanswm yn syrthio'n ddyledus ar ôl un flwyddyn	-	104
Cyfanswm masnach a symiau taladwy eraill	8,319	9,912

11 Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a chostau

Yn unol â Darpariaethau, Rhwymedigaethau Dibynnol ac Asedau Dibynnol IAS 37, mae'r costau adfer eiddo wedi cael eu cydnabod fel rhan o'r asedau ffitio allan a byddant yn cael eu dibrisio dros dymhorau'r brydles.

Ar gyfer darpariaethau eiddo mae'r IOPC yn cydnabod rhwymedigaeth ar gyfer pob eiddo ar brydles lle mae rhwymedigaeth arno i ddod â'r eiddo i gyflwr da ar ddiwedd y brydles. Mae'r ddarpariaeth yn seiliedig ar amcangyfrif costau ailosod addasiadau mae'r IOPC wedi'u gwneud, a'r goblygiadau trwsio sy'n ofynnol yn ystod y brydles.

Yn ystod 2022/23 cafodd y ddarpariaeth ar gyfer costau adfer eiddo ei hailbriso gan ddefnyddio mynegeion adeiladu cydnabyddedig. Cynyddodd y gost amcangyfrifedig o adfer addasiadau a wnaed i'r adeiladau sef £3,066,000 (£2,976,000 ar gyfer 2021/22). Cynhelir prisiadau ar eu gwerth cyfredol yn rheolaidd, fodd bynnag mae'n anymarferol amcangyfrif maint yr effaith yn y dyfodol.

	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2022	2,976	95	3,071
Darparwyd yn y flwyddyn	178	-	178
Darpariaeth a ddefnyddiwyd	-	(45)	(45)

Darpariaethau nad oes eu hangen yn cael eu hysgrifennu yn ôl	(88)	(50)	(138)
Cynnydd/(gostyngiad) mewn darpariaethau	90	(95)	(5)
Balans ar 31 Mawrth 2023	3,066	-	3,066
	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Cynrychiolir gan:			
Elfen bresennol y ddarpariaeth	96	-	96
Elfen anghyfredol y ddarpariaeth	2,970	-	2,970

	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau sydd wedi cael eu disgowntio			
Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn	96	-	-
Yn hwyrach nag un flwyddyn ac heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	2,160	-	2,160
Yn hwyrach na phum mlynedd	810	-	810
Balans ar 31 Mawrth 2023	3,066	-	3,066

	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Balans ar 1 Ebrill 2021	3,431	-	3,431
Darparwyd mewn blwyddyn	-	95	95
Darpariaethau nad oes eu hangen yn cael eu hysgrifennu yn ôl	(455)	-	(455)

(Gostyngiad)/cynnydd mewn darpariaethau	(455)	95	(360)
Balans ar 31 Mawrth 2022	2,976	95	3,071
Cynrychiolir gan:			
Elfen bresennol y ddarpariaeth	-	95	95
Elfen anghyfredol y ddarpariaeth	2,976	-	2,976
	Eiddo £'000	Arall £'000	Cyfanswm £'000
Dadansoddiad o amseriad disgwylidig llifau sydd wedi cael eu disgowntio			
Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn	-	95	95
Yn hwyrach nag un flwyddyn ac heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	1,631	-	1,631
Yn hwyrach na phum mlynedd	1,345	-	1,345
Balans ar 31 Mawrth 2022	2,976	95	3,071

12 Prydlesau

Mae gan yr IOPC 8 prydles eiddo y rhoddwyd cyfrif amdanynt yn 2021/22 dan IAS 17. Rhoddwyd cyfrif am y prydlesau gweithredu hyn o dan IFRS 16 o 1 Ebrill 2022. Mae'r IOPC wedi defnyddio dyfarniadau cyfrifyddu critigol mewn perthynas â thoriadau prydles yn y dyfodol lle mae'n gymwys.

Defnyddiodd yr IOPC y buddioldeb ymarferol o gymhwyso IFRS 16 yn unig i brydlesau a nodwyd yn flaenorol o dan IAS 17 fel y mandadwyd gan FReM. Ni all yr IOPC benderfynu'n rhwydd ar y gyfradd llog sydd ymhlyg yn ein prydlesau felly mae'n ofynnol iddo ddefnyddio cyfradd ddisgownt Trysorlys EF o 0.95% a gyhoeddwyd ym mhapur PES (2022) 08 ar gyfer prydlesau sy'n dechrau cyn Ionawr 2023 ac ym mlwyddyn galendr 2022.

	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000
Mae rhwymedigaethau o dan brydlesau ar gyfer y cyfnod dilynol yn cynnwys		
Eiddo:		
Heb fod yn hwyrach nag un flwyddyn	2,276	2,428
Yn hwyrach nag un flwyddyn ac heb fod yn hwyrach na phum mlynedd	5,724	7,903
Yn hwyrach na phum mlynedd	6,198	6,958
Llai elfen llog	(592)	-
Gwerth presennol rhwymedigaethau prydles	13,606	17,289

Fel sy'n ofynnol gan y FReM mae'r IOPC wedi mesur yr ased hawl i ddefnyddio o dan brydlesau a ddisbarthwyd yn flaenorol fel prydlesau gweithredu fesul IFRS 16(C8(b(ii))): ar swm sy'n hafal i rwymedigaeth y brydles, wedi'i addasu gan swm unrhyw daliadau les rhagdaledig neu Gronedig sy'n ymwneud â'r les honno a gydnabyddir yn y datganiad sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2023.

Bydd yr IOPC yn defnyddio'r model cost yn IFRS16 fel y'i dehonglir yn y FReM ar gyfer mesur dilynol yr asedau hawl i ddefnyddio. Yr asedau hawl i ddefnyddio yn cael eu mesur ar gost llai dibrisiant cronedig a cholledion amhariad a'u haddasu ar gyfer unrhyw ailfesuriad o rwymedigaeth y brydles. Mae'r IOPC o'r farn bod y model cost yn IFR16 yn ddirprwy priodol ar gyfer gwerth cyfredol y defnydd presennol gan fod gan yr asedau hawl i ddefnyddio oes a gwerthoedd byrrach na'r ased sylfaenol.

Segment gweithredu	Eiddo £'000	Cyfanswm £'000
Ymrwymadau prydles weithredol IAS 17 ar 31 Mawrth 2022	17,289	17,289
Addasiad ar gyfer TAW anadferadwy	(715)	(715)
Addasiadau ar gyfer addasiadau prydles o dan IFRS 16	(1,420)	(1,420)
Rhwymedigaeth prydles IFRS 16 ar 1 Ebrill 2022	15,154	15,154

Mae addasiadau ar gyfer addasiadau prydles o dan IFRS16 yn cynnwys llai o feddiannaeth a newidiadau i ragdybiaethau toriad prydles.

Asedau hawl i ddefnyddio	Eiddo £'000	Cyfanswm £'000
Cost neu brisiad		
Ar 1 Ebrill 2022	15,073	15,073
Ar 31 Mawrth 2023	15,073	15,073
Amorteiddiad		
Ar 1 Ebrill 2022	-	-
Cost am y flwyddyn	2,249	2,249
Ar 31 Mawrth 2023	2,249	2,249
Gwerth llyfr net ar 31 Mawrth 2023		
	12,824	12,824

13 Rhwymedigaethau dibynnol a ddatgelir o dan IAS 37

Mae gan yr IOPC asedau wrth gefn mewn perthynas â hawliadau neu hawliadau posibl am gostau cyfreithiol yn erbyn ymgyfreithwyr lle mae achos llys ar y gweill ar 31 Mawrth 2023. Ni ellir amcangyfrif canlyniad ac amseriad y rhain â sicrwydd.

Mae gan yr IOPC rwymedigaethau wrth gefn ac o bell mewn perthynas â nifer o hawliadau cyfreithiol neu hawliadau posibl yn erbyn yr IOPC. Ni ellir amcangyfrif canlyniad ac amseriad y rhain â sicrwydd. Nid yw llawer o'r hawliadau wedi'u manylu'n ddigonol i alluogi'r IOPC i amcangyfrif yr effaith ariannol.

Mae'r darpariaethau adfer yn nodyn 11 yn seiliedig ar amcangyfrif o'r costau adfer ac nid ydynt yn cynnwys colledion canlyniadol posibl. Mae costau ymadael ystadau yn cael eu datrys trwy drafodaeth, ac nid yw eu canlyniad ac amseriad yn gallu cael eu hamcangyfrif â sicrwydd a gall yr IOPC fod yn atebol am gostau ychwanegol.

Mae'r Adroddiad Atebolrwydd Seneddol yn disgrifio rhwymedigaethau wrth gefn o bell. Mae darpariaeth lawn yn cael ei wneud yn y datganiadau ariannol ar gyfer yr holl rwymedigaethau y disgwylir iddynt ddod yn ffaith.

14 Trafodion cysylltiedig â pharti

Y Swyddfa Gartref yw adran noddi'r IOPC ac mae'n barti cysylltiedig. Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023, darparodd y Swyddfa Gartref gymorth grant, fel y datgelir yn nodyn 16.

Dangosir yr incwm ar gyfer y flwyddyn adrodd gan y Swyddfa Gartref yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'r symiau sy'n ddyledus gan y Swyddfa Gartref i'r IOPC yn cael eu dosbarthu fel symiau masnach a derbyniadau eraill ac yn dod i £dim (£6k ar Mawrth 22).

Mae pob corff llywodraeth ganolog arall yn bartïon cysylltiedig. Mae'r incwm o'r cyrff hyn yn cael ei ddangos yn yr Adroddiad Atebolrwydd. Mae'r symiau sy'n ddyledus gan y cyrff hyn i'r IOPC wedi'u dosbarthu fel symiau masnach a symiau derbyniadwy eraill ac yn dod i £43k (£87k ym mis Mawrth 2022). Mae'r gwerth ar gyfer y flwyddyn flaenorol wedi'i ailddatgan i gynnwys pob corff llywodraeth ganolog arall.

Mae'r PCSPS a Swyddfa'r Cabinet hefyd yn bartïon cysylltiedig. Mae rhagor o wybodaeth ar y trafodion â'r cyrff hyn i'w chanfod yn adran pensiynau'r adroddiad talu.

Yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2023 ni ymgwymerodd cyfarwyddwyr anweithredol, cyfarwyddwyr gweithredol na staff rheoli allweddol ag unrhyw drafodion materol â'r IOPC.

Mae'r IOPC wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad yn seiliedig ar God Ymarfer Swyddfa'r Cabinet ar gyfer Aelodau Bwrdd Cyrff Cyhoeddus. Mae'r IOPC yn cynnal cofrestr o ddiddordebau ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol a'r holl staff y mae gofyn iddynt ddatgan diddordebau. Mae'r gofrestr diddordebau ar gyfer cyfarwyddwyr anweithredol a gweithredol ar gael i'r cyhoedd ac mae ar ein gwefan. Lle mae unrhyw benderfyniadau yn cael eu cymryd a allai gael eu gweld yn rhesymol yn achosi gwrthdaro diddordeb mae'n ofynnol i unigolion ddatgan y diddordeb perthnasol a, phan yn briodol, tynnu allan o gymryd rhan mewn cymryd y penderfyniad. Mae gweithdrefnau IOPC hefyd yn sicrhau nad yw ymchwilyr yn cymryd rhan mewn ymchwiliadau lle byddai ganddynt diddordeb.

15 Asedau trydydd parti

Yn achlysurol, mae'r IOPC yn dal asedau trydydd parti pan fydd yn ofynnol i hwyluso ymchwiliadau. Mae'r rhain yn cael eu storio'n ddiogel ac fel arfer yn cael eu dychwelyd i'r perchennog cyfreithlon pan nad oes eu hangen rhagor. Nid yw amcangyfrifon dibynadwy o'u gwerth yn gallu cael eu gwneud.

Nid yw asedau trydydd parti yn cael eu cynnwys yn y datganiadau ariannol oherwydd nad oes gan yr IOPC diddordeb buddiol ynddynt. Ar 31 Mawrth 2023 nid oedd asedau ariannol yn cael eu cadw (2021/22 £Dim).

16 Grant mewn cymorth

Mae'r IOPC yn cael ei gyllido gan grant mewn cymorth a dderbynnir o'r Swyddfa Gartref.

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Derbyniwyd ar gyfer gwariant refeniw	69,067	68,744
Derbyniwyd ar gyfer gwariant cyfalaf	1,933	3,256
Cyfanswm grant mewn cymorth a dderbyniwyd	71,000	72,000

17 Hillsborough

Mae'r nodyn hwn yn dangos y gwariant a grëwyd yn ystod 2022/23 a 2021/22.

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Costau staff		
Cyflogau a thaliadau	2,606	2,767
Cost nawdd cymdeithasol	276	289
Cyfraniadau pensiwn	700	709
Staff dros dro	33	108
Cyfanswm costau staff	3,615	3,873
Gwariant arall		
Rhentu llety	-	395
Llety heb ei rentu	701	306
Llog prydles	14	-
TG	48	424
Gwasanaethau cyfreithiol	-	12
Costau eraill	28	93
Recriwtio	1	1
Deunydd ysgrifennu swyddfa	6	6
Hyfforddiant	10	11
Teithio a chynhaliaeth	22	37
Cyfanswm gwariant arall	830	1,285
Heb fod yn arian parod		
Dibrisiant	354	58

	2022/23 £'000	2021/22 £'000
Colled ar waredu asedau	-	(6)
Cyfanswm eitemau heb fod yn arian parod	354	52
Cyfanswm gwariant refeniw	4,799	5,210

18 Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Cafodd yr Adroddiad a'r Cyfrifon Blyneddol eu hawdurdodi i'w dosbarthu gan y Swyddog Cyfrifo ar yr un dyddiad y cafodd y Cyfrifon eu hardystio gan y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol. Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd y mae angen eu datgelu.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

ISBN 978-1-5286-4366-5

E02947900

Wedi cael ei argraffu ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o gynnwys sydd wedi'i ailgylchu

Wedi cael ei argraffu yn y DU gan HH Associates Ltd ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

© IOPC 2024

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0
except where otherwise stated.

This does not include material on this site as belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn
mewn fformat arall, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)
10 South Colonnade Canary Wharf Llundain E14 4PU

Tel: **0300 020 0096**

E-bost: enquiries@policeconduct.gov.uk

Gwefan: www.policeconduct.gov.uk

Neges destun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg
Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg

